# Asesu parodrwydd digidol awdurdodau lleol a pharodrwydd eu gweithlu i weithredu Copilot ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion yng Nghymru

**Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)**

**Mawrth 2025**

**Awduron:** Nicki Harrison, Jonathan Morgan, Ainsley Bladon, Hannah Thomas, Glenda George, Mark Taylor, Matt Munslow

# Cynnwys

Cydnabyddiaeth ........ 3
Crynodeb Gweithredol ........ 4
Cyflwyniad ........ 8
Methodoleg ........ 14
Asesiad o Barodrwydd y Gweithlu ........ 19
Parodrwydd ar gyfer Newid ........ 19
Diwylliant, Agweddau ac Ymddygiadau ........ 22
Heriau a Rhwystrau Canfyddedig ........ 25
Ystyriaethau Moesegol ........ 27
Gofynion o ran Adnoddau / Capasiti ........ 30
Adolygu Polisïau a Chydymffurfiaeth ........ 34
Casgliadau o’r Asesiadau o Barodrwydd y Gweithlu ........ 35
Asesiad o Barodrwydd Digidol ........ 38
Parodrwydd Digidol yn Gyffredinol ........ 38
Mathau Gwahanol o Drwyddedau ........ 39
Trosolwg o Lefel Parodrwydd Awdurdodau Lleol ........ 40
Defnyddio Mesurau Rheoli Technegol ........ 42
Risgiau Posibl a Mesurau i Liniaru ........ 43
Casgliadau o’r Asesiadau o Barodrwydd Digidol ........ 45
Argymhellion ........ 47
Atodiad A: Rhwydwaith Hyrwyddwyr – Cylch Gwaith a Chwestiynau Gwerthuso ........ 47
Atodiad B: Promptiau Copilot ........ 54
Atodiad C: Cyngor am ddefnyddio Copilot a chreu Promptiau ........ 60
Atodiad D: Cwestiynau'r Arolwg ........ 63
Atodiad E: Cwestiynau’r Cyfweliadau Lled-Strwythuredig ........ 66
Atodiad F: Galluoedd Trwyddedau E3 ac E5 ........ 68

# Cydnabyddiaeth

Yn ystod yr adolygiad hwn, cyfarfu Tîm Prosiect ADSS Cymru, trwy Practice Solutions a swyddogion o Stable ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, a oedd yn cynrychioli pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae wedi bod yn fraint cwrdd â chymaint o ymarferwyr, rheolwyr, gweinyddwyr ac arweinwyr data a digidol ymroddgar, sydd oll wedi cyfrannu eu barn a'u hamser i gefnogi'r darn hwn o waith. Rydyn ni'n awyddus i gydnabod cyfraniad pawb a gymerodd ran yn yr asesiadau o barodrwydd, yn ogystal â'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr, y Grŵp Llywio a gweithgareddau eraill, ac i ddweud diolch am gymryd rhan ar adeg pan fo galw digynsail am eich amser, eich egni a'ch gwydnwch personol o hyd.

# Crynodeb Gweithredol

Comisiynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru, i weithio gyda Pactice Solutions a STABLE i gynnal asesiadau o barodrwydd digidol ac asesiadau o barodrwydd y gweithlu i ystyried mabwysiadu Microsoft Copilot mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ledled Cymru.

Cymerodd bob awdurdod lleol ran mewn o leiaf un agwedd ar y gweithgareddau asesu'r gweithlu ac asesu digidol. Cynhaliodd ADSS Cymru, trwy Practice Solutions a STABLE ymchwiliadau trylwyr i barodrwydd systemau digidol a pharodrwydd y gweithlu, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Yn gyffredinol, mae yna obaith a brwdfrydedd ynghylch potensial deallusrwydd artiffisial i gefnogi gweithio mwy effeithiol ac effeithlon. Serch hynny, mae angen sefydlu mesurau llywodraethu cadarn, a sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu rhoi ynghylch ei ddefnyddio'n briodol, er mwyn sicrhau bod gofynion diogelu data a diogeledd yn cael eu bodloni, a bod arfer yn cyd-fynd â safonau proffesiynol. Yn ogystal, dylid archwilio ystyriaethau moesegol ymhellach fel bod modd mabwysiadu'r dechnoleg mewn ffordd sy'n sicrhau bod gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gallu aros wrth galon y gwaith, gan gadw perchnogaeth y wybodaeth gyda'r ymarferwyr. Dylid sicrhau ansawdd unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan Copilot, a dylid ei weld fel offeryn i gefnogi ymarferwyr, yn hytrach nag offeryn sy'n disodli barn broffesiynol a phenderfyniadau trwy ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gellir gwneud iawn am y cyfyngiadau ar ddefnyddio'r dechnoleg yn y Gymraeg ar hyn o bryd trwy weithio'n agos gyda'r timau cyfieithu Cymraeg sy'n bodoli, a dylid ymdrechu i weithio gyda darparwyr er mwyn gwella modelau iaith mawr ac ansawdd nodweddion yn y Gymraeg gydag amser.

Wrth fabwysiadu'r dechnoleg, bydd gofyn mesur y broses a'i gweithredu ar gyflymder sy'n cefnogi'r camau paratoi, yn ogystal ag uwchsgilio gweithwyr fel eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i ddefnyddio Copilot. Dylid gweithredu gyda chefnogaeth uwch-arweinwyr, ac mae cynnwys ymarferwyr rheng flaen o'r dechrau'n deg yn ffactor sy'n allweddol i lwyddiant. Bydd gofyn clustnodi adnoddau er mwyn cefnogi'r broses fabwysiadu, ac efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried arbenigedd o'r tu allan, er mwyn sicrhau buddion a gwelliannau i wasanaethau.

Dylai rhwydweithiau gweithlu a hyrwyddwyr digidol gefnogi'r broses weithredu, a dylid datblygu hyfforddiant cadarn sy'n benodol i sectorau a rolau ac sy'n cydnabod anghenion gwahanol timau ac ymarferwyr. Dylai hyfforddiant a chefnogaeth barhaus fod ar gael i weithwyr ar ôl mabwysiadu'r dechnoleg. Mae yna botensial ar gyfer rolau newydd, er enghraifft hyrwyddwyr neu swyddogion arloesi digidol, i gefnogi'r gwaith hwn.

Mewn asesiadau digidol, nodwyd bod yr isadeiledd TG sylfaenol yn ei le i hwyluso'r broses o fabwysiadu Copilot yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Serch hynny, bydd gofyn i dîmau digidol a chorfforaethol ymgymryd â gweithgarwch parodrwydd ychwanegol mewn rhai rhanbarthau, er mwyn sicrhau diogeledd a diogelwch wrth ddefnyddio'r dechnoleg. Gellir gwneud iawn am gost trwyddedau trwy fuddsoddi mewn nifer fach o drwyddedau uwch ar gyfer defnyddwyr technegol sy'n gwneud gwaith digidol yn y cefndir, ac yna nifer uwch o drwyddedau lefel is ar gyfer defnyddwyr bob-dydd unwaith y bydd yr amgylchedd yn ei le. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion technegol penodol, er mwyn sicrhau bod Copilot yn cael ei weithredu mewn amgylchedd sy'n ddiogel a'i fod mor effeithiol â phosibl.

Yn sgil yr amrywiaeth anochel rhwng rhanbarthau, a gyda rhai awdurdodau lleol eisoes ymhell ar eu taith o fabwysiadu'r dechnoleg, mae yna botensial sylweddol i ddysgu o gynlluniau peilot a gweithgarwch cynnar ac i ystyried dulliau gweithredu unwaith-i-Gymru a fydd yn ein cefnogi i symud ymlaen yn gyflym.

Mae cymdeithas yn cofleidio trawsnewid technolegol, gan gynnwys Llywodraeth y DU a Chymru.

Serch hynny, er bod y dechnoleg wedi cael ei mabwysiadu'n gyflym mewn lleoliadau busnes, hyd yn hyn mae gofal cymdeithasol wedi bod yn fwy petrus, ac mae hynny'n ddealladwy. Mae sylfaen dystiolaeth yn amlygu ar gyfer y potensial i ddeallusrwydd artiffisial drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, ac, yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol Cymru yn fodlon bwrw ymlaen â Microsoft Copilot. Serch hynny, bydd gofyn gwneud hynny gydag arweinyddiaeth genedlaethol a lleol, a rhaid adeiladu'r broses weithredu'n ofalus er mwyn sicrhau bod modd darparu gwasanaethau yn ddiogel ac yn gywir, a chadw hyder gweithwyr a'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gweithgarwch a gynhaliwyd i asesu parodrwydd y gweithlu a pharodrwydd digidol ar gyfer mabwysiadu Copilot. Ar ôl adolygiad pen-bwrdd manwl a gweithgareddau ymgysylltu, mae'r adroddiad yn cyflwyno trafodaeth am themâu allweddol ac yn cynnig cyfres o argymhellion. Cyflwynir yr argymhellion ar gyfer cyrff cenedlaethol ac awdurdodau lleol, a darperir canllawiau digidol mwy technegol hefyd ar gyfer timau technoleg gwybodaeth y bydd gofyn iddynt gymryd camau i baratoi i gefnogi'r broses fabwysiadu.

## Argymhellion

### Cyffredinol

1. Argymhellir bod awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu Copilot ym maes gofal cymdeithasol i oedolion yn mynd ati mewn ffordd raddol i weithredu, gan sefydlu cynlluniau cyflawni clir, cofrestrau risgiau a mesurau rheoli ar gyfer y prosiect, i gefnogi'r broses fabwysiadu. Dylai fod adnoddau pwrpasol yn eu lle i gefnogi hyn.

### Ar gyfer Cyrff Cenedlaethol

**Argymhellir bod:**

2. Rhwydwaith Hyrwyddwyr y gweithlu, a sefydlwyd ar ddechrau'r prosiect, yn parhau i gwrdd er mwyn cefnogi'r dysgu a rhannu dulliau mabwysiadu;
3. Is-grŵp Deallusrwydd Artiffisial y Grŵp Cynghori Digidol yn cefnogi'r broses o rannu dysgu digidol a dulliau cenedlaethol o fabwysiadu, yn ogystal â thacsonomeg labelu unwaith-i-Gymru;
4. Cyrff cenedlaethol, fel Comisiwn AI Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cefnogi awdurdodau lleol gyda chyngor cyfreithiol a chanllawiau cenedlaethol, a bod dulliau hyfforddi unwaith-i-Gymru yn cael eu harchwilio o fewn y rhwydweithiau i gefnogi'r gweithredu;
5. Canllawiau Unwaith-i-Gymru yn cael eu llunio i gefnogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau am y mesurau rheoli digidol y mae'n rhaid eu hactifadu er mwyn sicrhau defnydd derbyniol o Copilot. Bydd hyn yn gofyn am fewnbwn gan gydweithwyr strategol, TG ac AD, a bydd gofyn ystyried canllawiau'r DU a Chymru sydd eisoes ar waith;
6. Cyfleoedd i ariannu trwyddedau ar y raddfa angenrheidiol yn cael eu harchwilio, a bod y sylfaen dystiolaeth i gefnogi achos busnes unwaith-i-Gymru yn cael ei datblygu;
7. Eiriolaeth dros welliannau i fodelau iaith mawr sy'n cefnogi technoleg cyfieithu Cymraeg gyda Llywodraeth Cymru a Microsoft, er mwyn sicrhau bod galluoedd yn y Gymraeg yn datblygu'n barhaus.

## Ar gyfer Awdurdodau Lleol

**Argymhellir bod awdurdodau lleol yn:**

8. Defnyddio eu hasesiadau o barodrwydd digidol ac offeryn parodrwydd digidol Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gweithgarwch sy'n paratoi'r rhwydwaith digidol at fabwysiadu Copilot;
9. Sicrhau bod defnyddwyr bob-dydd yn dilyn y cyngor am bromptiau a’r canllawiau defnyddio diogel, er mwyn sicrhau ymgysylltiad priodol â Copilot, ac i leihau'r risg o bryderon diogeledd data;
10. Cael nifer fach o drwyddedau lefel uwch i gefnogi gweithgarwch parodrwydd sy'n paratoi rhwydweithiau ar gyfer mabwysiadu’r dechnoleg. Bydd hyn yn arwain at arbedion cost ac yn sicrhau bod modd gweithredu’r dechnoleg i’r eithaf cyn ei chyflwyno'n ehangach i ddefnyddwyr bob-dydd, sy'n gallu ei defnyddio ar drwyddedau lefel is;
11. Ymchwilio ymhellach i’r posibilrwydd o integreiddio Microsoft 365 Copilot â meddalwedd sydd eisoes yn bodoli a systemau rheoli achosion;
12. Ystyried ailedrych ar y sefyllfa bob blwyddyn i fonitro cynnydd tuag at fabwysiadu Copilot;
13. Sicrhau cefnogaeth gadarn a gweladwy uwch-arweinwyr, a'u bod yn cynnwys ymarferwyr a rheolwyr wrth estyn Copilot allan;
14. Nodi cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth ac ymgysylltiad parhaus i ddefnyddwyr Copilot wrth ei defnyddio o ddydd i ddydd.

### Argymhellion Digidol Technegol

**Argymhellir bod awdurdodau lleol yn:**

15. Symud o ystorfeydd ar y safle i SharePoint os nad ydynt wedi gwneud hynny’n barod;
16. Datblygu dull unwaith-i-Gymru o labelu, gan ddysgu gan awdurdodau lleol sydd ymhellach ymlaen ar eu taith i ddatblygu tacsonomeg y gellir ei defnyddio ar draws awdurdodau lleol. Gallai is-grŵp Deallusrwydd Artiffisial y Grŵp Cynghori Digidol hwyluso hyn, a dylai ystyried labelu sensitifrwydd, tagiau atal colli data a chadw ffeiliau;
17. Archwilio'r potensial i wella llywodraethu digidol, gan ddefnyddio mesurau rheoli sy'n cefnogi eu gallu i fonitro a rheoli gwybodaeth sensitif yn fwy diogel, ac sy'n cryfhau’r gallu i atal colli data.

**Ar gyfer Swyddogaethau 'Craidd', argymhellir bod awdurdodau lleol yn:**

18. Defnyddio'r swyddogaeth 'archwilio gweinyddol' i fonitro diogelu data, ac i ystyried a oes angen swyddogaethau dadansoddeg er mwyn llywodraethu’n briodol;
19. Sicrhau bod rhaglenni pen-bwrdd Office yn cael eu diweddaru i sicrhau bod modd defnyddio’r nodweddion diweddaraf;
20. Galluogi swyddogaeth chwilio dan gyfyngiadau SharePoint hyd nes eu bod wedi gallu sefydlu eu labelu, i ganiatáu safleoedd defnydd uchel, risg isel yn unig;
21. Ymgymryd ag Asesiad Risgiau SharePoint, gyda stocrestr ac ymarfer mapio ar gyfer pob safle. Bydd angen adnoddau arnynt i gefnogi hyn ond bydd yn sicrhau defnydd priodol;
22. Mynd ar drywydd cydymffurfiaeth â'r swyddogaethau rheoli dyfeisiau, sy'n sicrhau bod ffonau, gliniaduron a dyfeisiau eraill yn ddiogel a bod gosodiadau o amgylch risg dderbyniol yn cael eu diffinio;

23. Gosod gosodiadau rhannu diofyn i 'view' yn hytrach nag 'edit', er mwyn cyfyngu ar bwy sy'n gallu newid ffeiliau, a bod safonau dirwyn-i-ben yn cael eu cytuno a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod dolenni a rennir yn hygyrch yn ôl yr angen yn unig;
24. Sefydlu arferion llywodraethu fel monitro a sganiau eDiscovery rheolaidd, i sicrhau bod systemau deallusrwydd artiffisial yn cael eu defnyddio'n briodol ac i fonitro seiberddiogelwch.

**Ar gyfer Swyddogaethau 'Gorau yn y Grŵp' (i awdurdodau lleol sydd â thrwyddedau E5), argymhellir:**

25. Defnyddio gosodiadau deinamig sy'n seiliedig ar risg, i sefydlu proses fonitro uwch ar gyfer dyfeisiau a defnyddwyr 365;
26. Ffurfweddu gosodiadau cydymffurfio cyfathrebu i gefnogi defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial, gan ddadansoddi rhyngweithiadau Copilot yn barhaus;
27. Bod swyddogaethau awtomatig fel labelu, atal colli data a chadw yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy effeithlon.

# Cyflwyniad

Mae cyflwyno deallusrwydd artiffisial yn y blynyddoedd diwethaf yn cynnig y potensial i newid byd gwaith yn sylweddol yn y gymdeithas sydd ohoni. Trwy fanteisio i'r eithaf ar ddeallusrwydd artiffisial, efallai y bydd llywodraethau a sefydliadau cyhoeddus yn gallu gweithio'n fwy effeithlon, gwella'r ffordd y maen nhw'n darparu gwasanaethau, a chefnogi penderfyniadau gwybodus, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwell i bobl.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi comisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru i gynnal adolygiad ar draws Cymru o barodrwydd awdurdodau lleol i weithredu Microsoft Copilot ym mhrosesau rheoli gofal cymdeithasol. Gweithiodd ADSS Cymru mewn partneriaeth â Practice Solutions a STABLE, sef sefydliad sy'n cefnogi datrysiadau technoleg Microsoft. Cytunodd y Grŵp Llywio i beidio â rhannu gwybodaeth sy'n benodol i awdurdodau lleol a llofnododd gytundebau i beidio â datgelu gwybodaeth benodol, er mwyn sicrhau preifatrwydd y rheiny a fu'n rhan o'r asesiadau digidol. Darparwyd dadansoddiad thematig ehangach i gefnogi'r adroddiad. Gwnaethpwyd y gwaith hwn rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025. Dewiswyd Copilot fel y system i asesu parodrwydd gan fod pob awdurdod lleol yn defnyddio Microsoft Office 365. Mewn gwaith blaenorol (sydd ar gael ar gais) nodwyd bod Copilot yn cael ei defnyddio yn barod mewn sawl rhanbarth a'i bod yn gweithio ochr yn ochr â rhaglenni eraill Microsoft 365 sydd eisoes yn cael eu defnyddio mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, er enghraifft Word, Excel, PowerPoint, Outlook, Teams, a mwy.

Mae'r papur hwn yn nodi parodrwydd digidol a pharodrwydd gweithlu awdurdodau lleol yng Nghymru i fabwysiadu MS Copilot ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Mewn adolygiad pen-bwrdd nodwyd meysydd eraill lle mae hyn wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus a thynnwyd sylw at gyfleoedd a risgiau posibl. Cyflwynir dadansoddiad thematig o asesiadau o barodrwydd digidol a pharodrwydd y gweithlu, ochr yn ochr â mewnwelediadau a gafwyd trwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid gan gynnwys ymarferwyr, arweinwyr digidol a rheolwyr gwasanaethau. Mae adnodd a ddatblygwyd gan grwpiau ffocws i ddefnyddwyr yn nodi promptiau penodol y gellid eu defnyddio i gefnogi swyddogaethau gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

Yn benodol, mae'r ymchwil hwn yn ystyried sut y gallai Copilot gefnogi ymarferwyr i gyflawni eu swyddogaethau o dan rannau 2 a 3 o weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant[1], sy'n cynnwys y swyddogaethau a ddarperir gan wasanaethau pwynt cyswllt cyntaf, a'r ddyletswydd i asesu anghenion mewn gofal cymdeithasol, yn ogystal ag adolygu asesiadau. Mae'r gwaith yn ystyried sut y gallai'r dechnoleg gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau ar gyfer oedolion dros 18 oed.

Yn olaf, mae'r papur yn nodi themâu a chasgliadau allweddol, gan gynnwys set o argymhellion am y potensial i weithredu'r cynnyrch a sut y gallai hyn gael ei symud yn ei flaen gan awdurdodau lleol sy'n dewis ei fabwysiadu.

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Cefndir

Mae awdurdodau lleol yn wynebu nifer o heriau yn yr oes sydd ohoni, o bwysau ariannol a chyllid i heriau'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio staff a'u cadw, effeithiau parhaus pandemig Covid19 a gwahaniaethau rhanbarthol.[2]

Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod cyflogwyr gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar arferion sy'n gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i'w dreulio gydag unigolion ac sy'n rhyddhau gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gefnogi llwythi gwaith mwy hydrin. Ar hyn o bryd, mae staff gofal cymdeithasol yn treulio cryn dipyn o'u hamser ar dasgau gweinyddol â llaw, ac mae cyfranogwyr yr asesiadau yn dweud bod y tasgau hyn yn aml yn cael eu gwneud gan ddefnyddio meddalwedd sy'n hen a heb ei hintegreiddio, a bod hynny'n golygu dyblygu gwaith.

> Canfu ymchwilwyr fod y dasg syml o reoli gwybodaeth a data yn cymryd mwy nag wyth awr yr wythnos i bob gweithiwr sector cyhoeddus, a bod hyn yn cael effaith sylweddol ar berfformiad staff a'u morâl. Mae 45% o'r rheiny o'r sector cyhoeddus a ymatebodd yn dweud eu bod yn 'boddi mewn tasgau gweinyddol diangen' ac mae 45% hefyd yn dweud bod y llwyth gwaith gweinyddol uchel hwn yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd a'u llesiant meddyliol. Mae hanner yr ymatebwyr hefyd yn dweud bod llwythi gwaith gweinyddol uchel yn cyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu (48%) ac yn cyfyngu ar yr amser y maen nhw'n gallu ei dreulio gyda'r cyhoedd neu gleifion (49%).[3]

Er y bydd gofyn cyflwyno ystod eang o fesurau lliniaru, a diwygio'n helaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, un maes sy'n dangos addewid posibl yw arloesi wrth fabwysiadu deallusrwydd artiffisial.

Mae deallusrwydd artiffisial eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn sawl sector. Mewn gofal iechyd, mae'n cefnogi diagnosis mwy cywir, penderfyniadau a'r gallu i ragfynegi achosion o heintiau'n torri allan. Mewn busnes, mae'n cefnogi effeithlonrwydd ac archwilio, yn dadansoddi tueddiadau'r farchnad ac yn uchafu'r elw posibl.

Aethpwyd ati'n fwy graddol i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn dechrau defnyddio deallusrwydd artiffisial yn fwy rheolaidd ac mae yna rywfaint o dystiolaeth o addewid ar gam cynnar. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol mynd i'r afael â'r heriau a sicrhau bod unrhyw system sy'n cael ei mabwysiadu yn ddiogel o ran preifatrwydd data, diogelu data a defnyddio data mewn ffordd foesegol, er mwyn sicrhau bod y dechnoleg o fudd i bawb, a hynny mewn ffordd deg a chyfartal.

---

[2] Brown, Thomas. (2021) Social Care: challenges funding and reform. [Ar-lein] Ar gael ar: Social care: challenges, funding and reform – Ty'r Arglwyddi [Gwelwyd ar 4 Chwefror 2025].

Holt, Alison a Butcher, Ben / BBC news. (2021) Social Care: What are the challenges facing the system? [Ar-lein] Ar gael ar: Social care: What are the challenges facing the system? [Gwelwyd 4 Chwefror 2025]. Care England. (2024). Care Trends Report 2024: Insights Building the Future of Social Care. [Ar-lein] Ar gael ar: Care Trends Report 2024: Insights Building the Future of Social Care [Gwelwyd ar 4 Chwefror 2025].

[3] Milward, Hugh. (2024) Tackling the public sector puzzle with AI. [Ar-lein] Ar gael ar: Tackling the public sector puzzle with AI - Microsoft Industry Blogs - United Kingdom [Gwelwyd ar 16 Chwefror 2025].

## Potensial trawsnewidiol deallusrwydd artiffisial

Cyhoeddodd y Prif Weinidog, Syr Keir Starmer AS, gynllun o'r enw AI Opportunities Action Plan[4], sy'n cefnogi twf deallusrwydd artiffisial mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac uchelgais benodol fod deallusrwydd artiffisial yn cael ei 'ddefnyddio gan y sector cyhoeddus i alluogi ei weithwyr i dreulio llai o amser yn gwneud gwaith gweinyddol a mwy o amser yn darparu gwasanaethau'.

Mae Microsoft Copilot, a lansiwyd yn hwyr yn 2023, yn rhyngwyneb sgwrsio sy'n caniatáu i'r defnyddiwr chwilio am wybodaeth, cynhyrchu testun a chynhyrchu crynodebau gan ddefnyddio ffeiliau niferus fel ffynhonnell, ar sail promptiau sy'n cael eu teipio neu eu siarad i mewn i'r rhyngwyneb. Gall Copilot reoli swyddogaethau dyddiadur, trawsgrifio galwadau a chyfarfodydd, archifo ffeiliau, a datblygu cronolegau. Gall yr offeryn gefnogi prosesau archwilio ac adolygu a gwneud synnwyr o sympiau mawr o wybodaeth, i gefnogi penderfyniadau. Mae'r swyddogaethau hyn yn gallu cael eu cyfleu yng nghyd-destun y tasgau gweinyddol y mae staff gofal cymdeithasol yn eu gwneud yn eu gwaith bob-dydd.

> Er mwyn gwneud penderfyniad, rhaid i weithwyr achos gasglu a dadansoddi data o sawl ffynhonnell wahanol a gall Copilot eu helpu i gywain yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnynt yn gyflym, o gannoedd neu filoedd o ddogfennau[5]

### Sylfaen Dystiolaeth

Dylid nodi nad oes sylfaen dystiolaeth gadarn eto i gefnogi'r defnydd o Copilot mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Ceir rhai enghreifftiau i ddilyn ac maen nhw'n manylu ar dystiolaeth a defnydd sy'n dod i'r amlwg.

Mae manteision posibl deallusrwydd artiffisial yn cynnwys arbed amser – canfuwyd yn ddiweddar fod technoleg debyg (Note) yn arbed mwy na £2m mewn costau llafur i weithwyr cymdeithasol a oedd yn ei defnyddio i ddatblygu asesiadau, gan arwain at 218 munud yn llai o amser yn trin achos a thrin mwy na 11,500 o atgyfeiriadau newydd a 3,000 o asesiadau ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer defnyddio Copilot ym maes gofal cymdeithasol yn dal i fod yn ei chrud, ac oherwydd hynny gwelwyd mwy o betruster ynghylch ei mabwysiadu.

Aeth Llywodraeth Awstralia ati i dreialu Copilot[6] gan ddefnyddio 5,765 o drwyddedau rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2024. Roedd y treial a'r gwerthusiad yn profi i ba raddau y byddai llawer o'r addewid ehangach ynghylch galluoedd cynhyrchu deallusrwydd artiffisial yn cael ei gwireddu trwy gael gweithwyr i'w mabwysiadu yn y byd go iawn. Yn ôl y canfyddiadau:

> Canfuwyd gwelliannau i effeithlonrwydd ac ansawdd wrth lunio crynodebau, paratoi drafft cyntaf o ddogfen a chwilio am wybodaeth. Fodd bynnag, er mwyn mabwysiadu deallusrwydd artiffisial i gynhyrchu, mae angen ymdrech gydlynol i roi sylw i rwystrau technegol, diwylliannol a gallu ac i wella'r defnydd ohono.

Cafwyd rhybudd arall ynghylch yr angen i fetio cynnyrch a grëwyd gan Copilot - 'Oherwydd nad oes modd rhagweld beth fydd Copilot yn ei greu bob tro, a'i diffyg gwybodaeth am gyd-destun, roedd gofyn

[4] McMahon, L, Kleinman, Z ac Edwards, C. / BBC News. (2025). PM plans to 'unleash AI' across UK to boost growth. [Ar-lein] Ar gael ar: Artificial Intelligence: Plan to 'unleash AI' across UK revealed - BBC News [Gwelwyd ar 21 Ionawr 2025].

[5] Gibson, Rebecca. (2024) How technology helps to deliver better health and social care. [Ar-lein] Ar gael ar: How technology helps to deliver better health and social care – Technology Record | The best of enterprise solutions from the Microsoft partner ecosystem [Gwelwyd ar 21 Ionawr 2025].

[6] Llywodraeth Awstralia. (2024) Evaluation of the whole-of-government trial of Microsoft 365 Copilot: full report. [Ar-lein] Ar gael ar: Microsoft 365 Copilot evaluation report in full | digital.gov.au [Gwelwyd ar 21 Ionawr 2025].

treulio amser yn gwirio'r allbwn ac yn golygu, ac roedd hyn yn negyddu rhywfaint o'r arbedion effeithlonrwydd.*'* Ar ddiwedd y treial, roedd 77% yn teimlo'n obeithiol am Microsoft 365 Copilot, roedd 86% o'r cyfranogwyr yn dymuno parhau i'w defnyddio, roedd 1 o bob 3 yn defnyddio Copilot bob dydd ac roedd 75% o'r cyfranogwyr a gafodd 3 neu fwy fath o hyfforddiant yn hyderus yn eu gallu i ddefnyddio Copilot, sef 28 pwynt canran yn uwch na'r rheiny a gafodd un math o hyfforddiant.

Mae argymhelliad olaf yn yr adroddiad yn awgrymu bod 'rhaid i asiantaethau ffurfweddu eu systemau gwybodaeth, caniatâd, a phrosesau er mwyn sicrhau bod modd defnyddio cynnyrch a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial yn ddiogel.'

### Enghreifftiau o weithredu Copilot mewn lleoliadau gofal cymdeithasol yn y DU

Mae yna rywfaint o dystiolaeth o'r manteision posibl mewn lleoliadau gofal cymdeithasol yn y DU yn dod i'r amlwg.

Mae Cyngor Swydd Buckingham[7] wedi adrodd am ganlyniadau cadarnhaol iawn wrth ddefnyddio Copilot, gan arbed hyd at 90 munud y dydd ar dasgau rheolaidd yn ystod prosiect prawf. Canfuwyd ei bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth frysbennu galwadau, gan leihau amseroedd trin galwadau 30 eiliad yr alwad, gwella prosesau, ac arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr. Mae'r dechnoleg hefyd wedi gwella hygyrchedd i staff â nam ar eu clyw, trwy drawsgrifio cyfarfodydd yn gyflym. Mae'r awdurdod lleol wedi creu bwrdd llywodraethu deallusrwydd artiffisial i oruchwylio datblygiadau. Mae Cyngor Swydd Buckingham hefyd yn gweithredu rhwydwaith Gofal Cymdeithasol ac Addysg Cydweithredu ac Arloesi ar gyfer Copilot Llywodraeth Leol. Mae Cymru yn aelodau o'r grŵp hwn. Ceir enghraifft o achos isod:

> Mae Emma wedi bod ar wyliau ac wedi dod nôl i dros 100 o negeseuon e-bost, a bydd yn cymryd amser iddi i bori trwyddynt. Mae ganddi nifer o hysbysiadau hefyd ar [y system rheoli achosion] sy'n aneglur o ran yr hyn sydd wedi digwydd.
>
> Mae hi'n mynd at ddeallusrwydd artiffisial ac yn gofyn am ddiweddariadau am ei hachosion, ac yn gofyn iddo edrych ar draws Outlook, SharePoint a'r [system rheoli achosion]. Mae'n codi bod cyswllt brys wedi'i gofnodi yn erbyn cofnod plentyn a wnaed gan y gwasanaeth y tu allan i oriau arferol, ac mae hefyd yn manylu ar nifer o negeseuon e-bost dilynol y cafodd ei chynnwys ynddynt, gan eu crynhoi yn ôl yr angen. Mae hyn yn rhoi darlun cliriach o'r sefyllfa i Emma ac yn ei galluogi i flaenoriaethu ei llwyth gwaith yn gyflym.[7]

Mae Cyngor Bwrdeistref Fetropolitan Barnsley[8] wedi creu promptiau ar gyfer Copilot sy'n cynhyrchu templedi adroddiadau a llythyrau ar gyfer grwpiau penodol ac yn crynhoi ffeiliau achos hir i gefnogi'r gwaith o'u hadolygu. Mae Copilot wedi cefnogi'r gwaith o gynhyrchu adroddiadau ystadegol am reoli llwyth achosion a darparu gwasanaethau. Mae un prompt yn cefnogi'r broses o asesu risgiau gan ddefnyddio gwybodaeth o ffeiliau i dynnu sylw at ffactorau risg ac amddiffynnol.

Er bod yr enghreifftiau hyn yn dangos manteision clir Copilot, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth briodol i ddefnyddio'r dechnoleg hon mewn ffordd ddiogel ac addas, a bod sefydliadau yn paratoi'n briodol at ei gweithredu, fel sy'n cael ei archwilio trwy gydol yr adolygiad hwn.

[7] Dawson, Amy / Microsoft. (2024). Bucks Council embraces 'Dragons' Den' approach for AI roll-out. [Ar-lein] Ar gael ar: Bucks Council embraces 'Dragons' Den' approach for AI roll-out [Gwelwyd ar 22 Ionawr 2025].

[8] Local Government Association. (2025). Barnsley: Pioneering use of Microsoft Copilot. [Ar-lein] Ar gael ar: Barnsley Council: Pioneering use of Microsoft Copilot | Local Government Association [Gwelwyd ar 4 Mawrth 2025].

## Yr Achos dros Newid yng Nghymru

Mae'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru[9] yn gosod yr uchelgais o 'weithio gyda phartneriaid i ysgogi arloesi, yn enwedig arloesi yn ymwneud â Deallusrwydd Artiffisial a deall data.'

Bydd y gwaith hwn yn golygu integreiddio atebion digidol i'r system gofal cymdeithasol er mwyn gwella'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, cefnogi darparwyr gofal, a grymuso'r rheiny sy'n cael gofal.

Mae Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol[10] yn cyflwyno'r uchelgais:

'Caiff ein gweithlu gymorth i ddarparu gofal gan ddefnyddio sgiliau digidol a'r iaith Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau. Bydd ein gweithlu yn gallu manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol i reoli llwyth gwaith a llwythi achosion yn fwy effeithiol'.

Mae Ystafell Injan Gofal Cymdeithasol yn goruchwylio cynnydd prosiectau digidol a deallusrwydd artiffisial yn y sector gofal cymdeithasol, a'u gweithrediad, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau ehangach a phrosiectau cyfagos i wella canlyniadau gofal. Mae Grŵp Cynghori Digidol Cymru yn cefnogi hyn trwy ddarparu arweiniad arbenigol a chyfarwyddyd strategol, gan sicrhau bod prosiectau'n dechnegol gadarn ac wedi'u hintegreiddio'n dda i'r isadeiledd sydd eisoes yn bodoli. Mae gan y Grŵp Cynghori Digidol is-grŵp deallusrwydd artiffisial, sydd â'r pwrpas o greu platfform ar gyfer dysgu, rhannu a chydweithio am bynciau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, er enghraifft arferion gorau, offerynnau, technegau, heriau, cyfleoedd ac achosion o ddefnyddio'r dechnoleg. Yn ogystal, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol a allai helpu i gefnogi gweithgarwch cenedlaethol.

Mae adroddiad ADSS Cymru[11] am arloesi ac arfer da yn ystod pandemig Covid-19 yn tynnu sylw at y ffaith fod y cyfnod o argyfwng yn ystod y pandemig wedi arwain at dderbyn newid technolegol lawer yn ehangach nag a welir fel arfer ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys mabwysiadu teleiechyd ac atebion digidol fel telegynadledda, a defnyddio llwyfannau ar-lein, yn gyflym. O ganlyniad i'r ffordd fwy agored hon o newid, gwireddwyd manteision yn gyflym, a gwelwyd mwy o hyblygrwydd ac arloesi, effeithlonrwydd gwell a mynediad gwell at gymorth gan ddefnyddio technolegau newydd fel fideo-gynadledda. Llwyddodd staff i addasu'n dda i'r newidiadau cyflym a'r ffyrdd newydd o weithio. Roedd y pryderon yn cynnwys allgáu digidol, gwahaniaethau o ran mynediad at isadeiledd, a mabwysiadu ar lefel anghyfartal ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at botensial trawsnewidiol technoleg mewn gwasanaethau, ond mae'n cydnabod hefyd yr angen i'w gweithredu a'i chefnogi'n ofalus, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi 'graddfa a lledaenu' o ran technoleg newydd. Mae

[9] Llywodraeth Cymru. (2023). Strategaeth digidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. [Ar-lein] Ar gael ar: Strategaeth ddigidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru [HTML] | LLYWODRAETH. CYMRU [Gwelwyd ar 18 Ionawr 2025].

[10] Gofal Cymdeithasol Cymru a Gwella Addysg Iechyd Cymru. (2020). Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. [Ar-lein] Ar gael ar: Cymru Iachach – strategaeth gweithlu ar gyfer... | Gofal Cymdeithasol Cymru [Gwelwyd ar 7 Mawrth 2025].

[11] ADSS Cymru. (2023). Crynodeb Gofal Cymdeithasol o Arfer Da: Dysgu o arloesi a ffyrdd newydd o weithio yn ystod Covid-19. [Ar-lein] Ar gael ar: Cyhoeddiadau [Gwelwyd ar 7 Mawrth 2025].

datganiad Gweinidogaethol diweddar[12] yn tynnu sylw at ffordd o arloesi a thrawsnewid ar gyfer y DU i gyd:

> Rydym yn gweithio gyda chymheiriaid cenedlaethol a rhyngwladol trwy ein grŵp gweinidogol yn y DU i ddatblygu dull cyffredin o fabwysiadu arloesedd, sy'n cydnabod cyfleoedd ar y cyd ar draws ein systemau gofal iechyd. Yng Nghymru, mae ffocws ein gwaith ar raglen arloesol newydd sy'n gweithio ar raddfa fawr, a fydd yn cael ei lansio'r flwyddyn nesaf... Bydd hyn yn golygu y gallwn fabwysiadu a gweithredu arloesedd yn gyflymach ar lefel genedlaethol.

Ymhellach, mae'r datganiad yn cyfeirio at Gomisiwn Deallusrwydd Artiffisial newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a lansiwyd yn 2023, sy'n 'arwain ar ddatblygu ac adolygu'r amgylchedd diogel, cyfrifol a moesegol. Mae'n arwain y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.'

Mae rhai awdurdodau lleol wedi cyflogi swyddogion arloesi digidol, gan gynyddu'r potensial i wneud y mwyaf o gyfleoedd sy'n ymwneud â thechnoleg newydd. Mae offeryn Aeddfedrwydd a Llythrennedd Digidol[13] Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cynnig cymorth i ddatblygu cymwyseddau ynghylch gweithredu digidol.

Cynhaliodd Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol[14] rywfaint o ymchwil gychwynnol am aeddfedrwydd a pharodrwydd ar gyfer awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial, ar draws sector cyhoeddus Cymru, gyda'r Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, yn hwyr yn 2023. O'r un ar ddeg o awdurdodau lleol a gymerodd ran, awgrymai'r canfyddiadau cynnar fod pob un naill ai'n archwilio i'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial, neu'n arbrofi gydag ef, mewn fforymau gwahanol, er nad oedd un ohonynt yn teimlo'n gwbl hyderus i ddefnyddio technolegau deallusrwydd artiffisial.

Roedd pryderon allweddol yn cynnwys aeddfedrwydd y dechnoleg, yr angen am lywodraethu ac arweiniad a'r posibilrwydd o darfu ar y sefydliad wrth ei gweithredu. Roedd sefydliadau llai yn fwy petrus ac yn dysgu gan rai mwy a oedd ymhellach ymlaen yn y broses.

Adeg y gwaith cychwynnol hwn, canfuwyd bod rhai gweithwyr yn defnyddio systemau a oedd ar gael i'r cyhoedd fel Chat GPT heb ystyried materion seiberddiogelwch posibl. Mantais Copilot yw ei bod yn caniatáu i ddiogelwch mwy llym gael ei roi ar waith, pan gaiff ei ddefnyddio'n gywir.

Roedd y rhwystrau a nodwyd yn yr ymchwil gychwynnol yn ymwneud yn benodol â Copilot yn cynnwys costau'r trwyddedau, ansawdd is y Gymraeg a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial o gymharu â'r Saesneg, pryderon am risg (yn enwedig gan uwch-arweinwyr) a theimlo nad oedden nhw'n gwybod ble i ddechrau. Caiff y materion hyn eu harchwilio yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, yn yr adrannau am asesiadau'r gweithlu a pharodrwydd digidol.

Cynhaliodd consortiwm Gwent o bartneriaid tenantiaeth Cymru'n Un, sy'n gysylltiedig â sawl awdurdod lleol, gyfnod prawf ar gyfer Copilot. Trwy'r raglen mabwysiadu'n gynnar, dosbarthwyd 300 o drwyddedau ac aethpwyd ati mewn ffordd wedi'i thargedu i brofi swyddogaethau a galluoedd,

---

[12] Senedd Cymru. (2024). Cyfarfod Llawn 03/12/2024, eitem 7. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Arloesi mewn gofal iechyd. [Ar-lein] Ar gael ar: Y Cyfarfod Llawn 03/12/2024 - Senedd Cymru [Gwelwyd ar 3 Mawrth 2025].

[13] Gofal Cymdeithasol Cymru. (2025). Offeryn Deall eich potensial digidol. [Ar-lein] Ar gael ar Deall eich potensial digidol | Gofal Cymdeithasol Cymru [Gwelwyd ar 1 Mawrth 2025].

[14] Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, Llywodraeth Cymru. (2023). Deall aeddfedrwydd a pharodrwydd ar gyfer awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial ar draws sector cyhoeddus Cymru. [Ar-lein] Ar gael ar: Deall aeddfedrwydd a pharodrwydd ar gyfer awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial ar draws sector cyhoeddus Cymru | Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol [Gwelwyd ar 3 Mawrth 2025].

ac i nodi buddion a chyfleoedd posibl. Dangosodd y treial fod manteision allweddol yn cynnwys arbed amser, cynnydd o ran cynhyrchiant ac effaith gadarnhaol ar lesiant staff.

Fel y dangosir gan yr enghreifftiau o ddefnyddio Copilot ar draws y sector cyhoeddus, mae amrywiaeth o gyfleoedd a dysgu wedi digwydd. Fodd bynnag, rhaid ystyried ei gweithrediad y tu hwnt i brynu meddalwedd, a mynd i'r afael ag integreiddio, ystyriaethau moesegol, diogelwch data a goblygiadau o ran adnoddau, yn ogystal â sicrhau bod gweithgarwch parodrwydd, hyfforddiant a chefnogaeth briodol yn eu lle i ddefnyddwyr.

Mynegir y syniadau hyn gan KPMG Canada[15] fel a ganlyn:

> Wrth i ni symud y tu hwnt i'r cyffro ynghylch deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, mae'n dod yn fwyfwy amlwg nad dim ond tuedd dros dro yw'r dechnoleg. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o gwmnïau'r polisïau yn eu lle, ac nid ydynt yn cynnig yr addysg sydd ei hangen ar staff er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio'r offerynnau hyn yn y ffyrdd mwyaf effeithlon a diogel.

Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio parodrwydd Awdurdodau Lleol Cymru i fabwysiadu Copilot, ac yn cynnig argymhellion ar gyfer y camau nesaf tuag at fabwysiadu.

[15] KPMG. (2024) Generative AI Adoption Index: Navigating the real-world applications and risks of AI in Canadian workplaces. [Ar-lein] Ar gael ar: Generative AI Adoption Index report [Gwelwyd ar 24 Chwefror 2025].

# Methodoleg

## Llywodraethu

Goruchwyliwyd y gwaith gan Grŵp Llywio'r Prosiect a gyfarfu 4 gwaith yn ystod y prosiect. Roedd yr aelodau'n cynnwys ADSS Cymru, Cyfarwyddwr Arweiniol ADSS – Y Gweithlu, CLILC, STABLE, Grŵp Cynghori Digidol (penaethiaid TG), Ystafell Injan Gofal Cymdeithasol, a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Diben y Grŵp Llywio oedd rhoi goruchwyliaeth ac arweiniad strategol i'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys goruchwylio'r gwaith o asesu parodrwydd digidol a pharodrwydd y gweithlu, er mwyn penderfynu pa mor barod y mae awdurdodau lleol ar gyfer y posibilrwydd o weithredu Microsoft Copilot mewn prosesau rheoli gofal ac asesu gofal cymdeithasol statudol. Cefnogodd y Grŵp Llywio dîm y prosiect trwy gynnig cyfarwyddyd, rhoi sylw i heriau, a sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â nodau ac amserlenni'r prosiect.

Rhoddodd aelodau'r Grŵp Llywio ddiweddariadau i Grwpiau Arweinyddiaeth a Gweithlu ADSS Cymru, yn ogystal ag Ystafell Injan Gofal Cymdeithasol a'r Grŵp Cynghori Digidol, trwy bapurau briffio ac adroddiadau am yr uchafbwyntiau.

Cynlluniwyd y prosiect i ymgysylltu mor eang â phosibl â chynrychiolwyr y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys uwch-reolwyr, arweinwyr tîm ac ymarferwyr, er mwyn cynnal asesiad o barodrwydd y gweithlu. Gwahoddwyd arweinwyr digidol hefyd i gymryd rhan mewn asesiad digidol i roi persbectif ehangach ar barodrwydd digidol awdurdodau lleol ledled Cymru.

Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad pen-bwrdd i archwilio ble mae Copilot wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus er budd gofal cymdeithasol mewn lleoliadau awdurdodau lleol eraill.

### Adolygiad Pen-bwrdd

Cynhaliwyd adolygiad pen-bwrdd cynhwysfawr, gan archwilio adnoddau a gwybodaeth a oedd yn bodoli ynghylch gweithredu Copilot ym maes gofal cymdeithasol ac yn y sector cyhoeddus. Trwy nodi enghreifftiau lle mae Copilot wedi cael ei defnyddio mewn gweithgarwch sector cyhoeddus yng Nghymru a'r DU, yn ogystal ag yn rhyngwladol, goleuwyd y gwaith trwy ddysgu gan feysydd eraill sydd wedi mabwysiadu'r dechnoleg hon. Archwiliwyd ymchwil i'r sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, a pholisïau a chanllawiau i gefnogi'r gweithredu.

### Dull Gweithredu

Yn dilyn yr adolygiad pen-bwrdd, cynhaliwyd sawl gweithgaredd yn ymwneud â pharodrwydd y gweithlu a pharodrwydd digidol gydag awdurdodau lleol. Yna, cefnogodd dadansoddiad thematig o'r holl wybodaeth a gasglwyd, y naratif sy'n rhedeg trwy'r adroddiad hwn.

Mae'r themâu craidd sy'n cael eu harchwilio yn cynnwys:

- Parodrwydd ar gyfer Newid
- Diwylliant, Agweddau ac Ymddygiadau
- Gofynion o ran Adnoddau a Chapasiti
- Heriau a Rhwystrau Canfyddedig
- Adolygu Polisïau a Chydymffurfiaeth

## Gweithgarwch Parodrwydd y Gweithlu:

**Gweminar arddangosiad byw**
Cynhaliwyd sesiwn arddangos ac ymgysylltu rhyngweithiol gychwynnol i gyflwyno rhanddeiliaid i'r gwaith ac i roi sylw i'r cwestiynau a'r sylwadau cychwynnol. Daeth nifer dda, gyda thua 250 o gyfranogwyr o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, a oedd yn awyddus i ddysgu mwy am y prosiect a sut y gallai Copilot ychwanegu gwerth at ofal cymdeithasol. Cynhyrchwyd dogfen 'cwestiynau cyffredin' ar ôl y digwyddiad, a'i dosbarthu, ynghyd â dolenni i hyfforddiant Copilot ac adnoddau gwybodaeth ychwanegol sydd ar gael ar wefan ADSS Cymru - Copilot.

**Rhwydwaith Hyrwyddwyr**
Nododd bob awdurdod lleol hyrwyddwyr i ymgysylltu â'r prosiect o'r cychwyn cyntaf. Daeth yr hyrwyddwyr hyn o sawl rôl wahanol ym maes Gwasanaethau Oedolion e.e. Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion, Rheolwyr Gwasanaethau, Prif Swyddogion, Rheolwyr Tîm, Swyddogion Trawsnewid Digidol a Rheolwyr y Gweithlu. Am fod cymaint o amrywiaeth yn bresennol, cafwyd sgyrsiau cyfoethog a chadarn yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith.

Rôl y Rhwydwaith Hyrwyddwyr oedd:

- Bod yn eiriolwr dros barodrwydd y gweithlu, gan sicrhau bod staff yn ystyried sut y gallent integreiddio Copilot i'w llifoedd gwaith
- Casglu a rhannu gwybodaeth berthnasol am sgiliau'r gweithlu, lefelau parodrwydd, ac anghenion hyfforddi sy'n gysylltiedig â Copilot
- Hwyluso ymgysylltiad lleol am Copilot, casglu adborth, a chyfathrebu'r buddion a'r newidiadau disgwyliedig
- Ystyried / nodi gofynion hyfforddi a datblygu staff, er mwyn sicrhau defnydd effeithiol a hyderus o Copilot.

Mae copi o Gylch Gwaith y Rhwydwaith Hyrwyddwyr, ac amlinelliad o'r agenda ar gyfer pob cyfarfod, yn Atodiad A.

Datblygwyd pecyn adnoddau i gefnogi Hyrwyddwyr, a chawsant eu hannog i rannu gwybodaeth am y prosiect i ennyn brwdfrydedd a rhoi mewnwelediad i farn ymarferwyr yn eu hawdurdodau lleol perthnasol.

Yn ystod ail gyfarfod y Rhwydwaith Hyrwyddwyr, cynhaliwyd arolwg, gan ddefnyddio offeryn digidol, Slido, i gasglu adborth byw gan yr Hyrwyddwyr am barodrwydd i fabwysiadu Copilot. Roedd y wybodaeth hon yn gymorth i hyrwyddo trafodaethau pellach, ac mae hyn wedi goleuo'r gwaith o ddadansoddi'r data o holl weithgarwch asesu parodrwydd y gweithlu.

**Grwpiau Ffocws i Ymarferwyr**
Cynhaliwyd chwe sesiwn grŵp ffocws gyda thri grŵp o staff rhwng 13 a 20 Ionawr 2025, gan gynnwys pobl a oedd yn gweithio mewn lleoliadau Pwynt Cyswllt Cyntaf (27 cyfranogwr), ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau (38 cyfranogwr) ac ymarferwyr sy'n adolygu asesiadau (24 cyfranogwr). Gwnaed hyn yn unol â chwmpas y prosiect o ystyried Copilot ar gyfer Rhannau 2 a 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Prif ganlyniadau'r grwpiau ffocws oedd:

- Hwyluso trafodaeth ynghylch parodrwydd a phrofiad
- Cytuno ar y themâu i'w hasesu o dan barodrwydd y gweithlu
- Gwella ymwybyddiaeth o sut y gallai Copilot helpu i gefnogi arfer
- Datblygu promptiau penodol i gefnogi cyflymder Copilot, ei heffeithlonrwydd a'i heffeithiolrwydd ym maes gofal cymdeithasol i oedolion

Cynhaliwyd y grwpiau ffocws mewn dau gam. Gwahoddwyd pob grŵp o ymarferwyr i ddod i ddau weithdy. Cynlluniwyd y gweithdy cyntaf fel cyfle i dîm y prosiect wrando ar y materion a'r pwysau y mae ymarferwyr yn ei wynebu o ddydd i ddydd, gan ganolbwyntio'n hanfodol ar y beichiau gweinyddol sy'n effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith.

Yn yr ail weithdy chwaraewyd yr hyn a glywsom yn ôl, gan egluro cywirdeb y trafodaethau a chynnig rhai awgrymiadau, trwy arddangos gan ddefnyddio promptiau yn Copilot, i leddfu'r pwysau gweinyddol yr oeddent wedi sôn amdano.

**Arolwg**
Datblygwyd arolwg ar-lein i roi cyfle i bob ymarferydd i gyfrannu eu barn am eu parodrwydd i fabwysiadu Copilot yn eu gwaith. Hyrwyddwyd yr arolwg hwn drwy'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr a chan aelodau'r Grŵp Llywio, a rhoddwyd y ddolen ar wefan ADSS Cymru. Roedd yn agored i unrhyw ymarferydd neu reolwr a oedd yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Cynhyrchodd canlyniadau'r arolwg ragor o wybodaeth a lywiodd y dadansoddiad thematig ar draws pob maes gweithlu. Caeodd yr arolwg ar 8 Chwefror 2025 ac fe'i llenwyd gan 92 o bobl.

O'r 92 cyfranogwr, dywedodd 71% eu bod yn ymarferwyr, roedd 17% yn rheolwyr tîm neu wasanaethau, ac 11% mewn rolau eraill.  Roedd gan 43% o gyfranogwyr hyd at 10 mlynedd o brofiad o weithio mewn gofal cymdeithasol i oedolion, ac roedd gan 57% dros 10 mlynedd o brofiad.

Mae cwestiynau'r arolwg yn Atodiad D

**Cyfweliadau Lled-strwythuredig**
Cynigiwyd cyfweliadau lled-strwythuredig i bob awdurdod lleol, a chytunodd pedwar ar ddeg i gymryd rhan gan enwebu uwch-swyddogion o feysydd gofal cymdeithasol, adnoddau dynol neu gymorth digidol. Cafwyd y sgyrsiau dros Microsoft Teams ac fe'u recordiwyd gan ddefnyddio Copilot, a defnyddiwyd hynny wedyn i lunio crynodeb o’r sgyrsiau. Diben y cyfweliadau lled-strwythuredig oedd rhoi dimensiwn arall i asesiadau'r gweithlu, gyda ffocws ar elfennau arweinyddiaeth a chorfforaethol o barodrwydd. Roedd y sgyrsiau’n archwilio'r agweddau ehangach ar ddiwylliant, agweddau ac ymddygiad yn ogystal â rhwystrau a heriau canfyddedig. Rhoddodd swyddogion eu barn am arwain a gweithredu trawsnewid digidol ledled Cymru ac o fewn awdurdodau lleol.

Mae'r rhestr o gwestiynau a ddefnyddiwyd i lywio'r sgyrsiau yn Atodiad E.

**Crynodeb o Weithgarwch Ymgysylltu Parodrwydd y Gweithlu**
Nod gweithgarwch ymgysylltu parodrwydd y gweithlu oedd casglu barn mor eang â phosibl, a cheir crynodeb o'r cyfraddau cyfranogiad ar gyfer yr holl weithgarwch i asesu parodrwydd y gweithlu yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Gweithgarwch Parodrwydd y Gweithlu.**

| Gweithgarwch Ymgysylltu â'r Gweithlu | Nifer y Cyfranogwyr | Nifer yr Awdurdodau Lleol a Gynrychiolwyd |
|---|---|---|
| Arddangosiad byw | 208 | 16/22 |
| Rhwydwaith Hyrwyddwyr | 22 | 18/22 |
| Cyfweliadau Lled-strwythuredig | 19 | 14/22 |
| Arolwg | 92 | 15/22 |
| Grwpiau Ffocws | 89 | 19/22 |
| CYFANSYMIAU | 396* | 22/22 |

** Mae’r nifer yn adlewyrchu cyfanswm nifer y cyfranogwyr ac nid o reidrwydd unigolion unigryw h.y. gallai pob unigolyn fod wedi ymgymryd â mwy nag un gweithgaredd*

Cymerodd bob un o'r 22 awdurdod lleol ran mewn o leiaf un gweithgaredd ymgysylltu – er bod cynrychiolaeth yn amrywio yn ôl gweithgaredd fel y dangosir yn Nhabl 1.

Datgelodd y dadansoddiad o holl weithgarwch parodrwydd y gweithlu chwe thema ar draws y meysydd canlynol:

- Parodrwydd ar gyfer newid
- Diwylliant, agweddau ac ymddygiadau
- Heriau a rhwystrau canfyddedig
- Ystyriaethau moesegol
- Gofynion o ran adnoddau / capasiti
- Adolygu polisïau a chydymffurfiaeth

## Gweithgarwch Parodrwydd Digidol:

Gweithiodd STABLE gydag arweinwyr digidol awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o barodrwydd digidol unigol. Mae'r awdurdodau lleol hynny a gymerodd ran wedi cael adroddiadau unigol sy'n nodi cynnydd tuag at gael y dechnoleg i weithio ar draws sawl parth. Rhoddwyd ‘canllaw defnyddio’ technegol i awdurdodau lleol hefyd i gefnogi gweithgarwch yn y cyd-destun lleol.

Roedd y gweithgareddau’n cynnwys sgyrsiau dros Microsoft Teams ac asesiadau a gwaith profi technegol. Ar y cyfan, dewisodd pymtheg awdurdod lleol gymryd rhan yn yr asesiad o barodrwydd digidol, a chafodd bob un adroddiad lleol pwrpasol a set o argymhellion. Nid oedd saith awdurdod lleol arall yn gallu darparu data ar gyfer yr asesiad o fewn amserlenni’r prosiect neu dewisont i beidio â chymryd rhan yn yr asesiadau o barodrwydd digidol.

Cynhaliwyd dau fath o asesiad; un i asesu pa mor barod y mae’r isadeiledd TG i gynnig swyddogaethau llawn Copilot, ac un arall i asesu'r amgylchedd digidol y byddai Copilot yn gweithredu ynddo (Microsoft 365).

Yn dilyn dadansoddiad manwl o barodrwydd ar draws yr awdurdodau lleol unigol, mae'r adroddiad hwn yn nodi sefyllfa o barodrwydd genedlaethol ar gyfer agweddau digidol ar gyflwyno Microsoft Copilot, ac mae’n rhoi mewnwelediad i sefyllfa gyffredinol Cymru i fwrw ymlaen ag agweddau technegol ar y gwaith. Mae hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol i gefnogi’r broses o gyflwyno Copilot ac i gefnogi’r broses o’i mabwysiadu’n dechnegol, ochr yn ochr â heriau a chyfleoedd.


# Asesiad o Barodrwydd y Gweithlu

Wrth ddadansoddi'r data a gasglwyd o'r holl weithgarwch parodrwydd y gweithlu, gosodwyd hwy mewn grwpiau o chwe maes thematig. Disgrifir y rhain yn fwy manwl yn yr adran hon.

## 1. Parodrwydd ar gyfer Newid

### Parodrwydd y Sefydliad

Yn rhan o'r adolygiad, gofynnom i awdurdodau lleol sgorio eu parodrwydd ar gyfer newid yn erbyn model coch-oren-gwyrdd.



**Coch:** Nid yw'r Awdurdod Lleol yn barod ar gyfer newid. Mae yna rwystrau sylweddol a fyddai'n ei rwystro rhag mabwysiadu Microsoft Copilot

**Oren:** Mae'r Awdurdod Lleol rywfaint yn barod ar gyfer newid. Mae yna rai heriau, ond gyda chefnogaeth ac adnoddau ychwanegol, gellir mynd i'r afael â'r rhain i hwyluso'r broses o fabwysiadu Microsoft Copilot

**Gwyrdd:** Mae'r Awdurdod Lleol yn gwbl barod ar gyfer newid. Mae isadeiledd digidol cryf yn ei le, mae staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn agored i dechnoleg newydd ac mae yna gynllun clir ar gyfer gweithredu Microsoft Copilot.
[16]

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi gosod eu hunain yn y categori 'oren' o ran parodrwydd y gweithlu, ac roedd pedwar cyfranogwr naill ai'n wyrdd neu'n agosáu at wyrdd. Cafwyd y wybodaeth hon gan y 14 awdurdod lleol a fu'n cymryd rhan yn y cyfweliadau lled-strwythuredig. Cytunai'r rhan fwyaf o aelodau'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr â statws oren ar gyfer eu hawdurdod lleol, er bod chwe chynrychiolydd yn teimlo bod eu hawdurdod lleol yn dal i fod yn y categori coch ac nad oedd yn barod i newid eto.

Roedd yr arsylwadau gan y rheiny a oedd yn teimlo nad oedd eu hawdurdod lleol yn barod eto yn cynnwys barn nad oedd y dechnoleg a oedd ganddynt yn barod yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial, bod diffyg buddsoddiad i symud ymlaen, ac nad oedd uwch-arweinwyr yn gefnogol. Archwilir rhwystrau a heriau yn fanylach yn adran 3 yn y bennod hon.

Roedd amrywiaeth eang o ran barn a chymryd camau tuag at weithredu Copilot – roedd rhai sefydliadau wedi prynu nifer o drwyddedau yn barod ac wedi'u hestyn allan ar draws timau. Roedd eraill naill ai'n cynnal cynlluniau peilot bach neu wedi rhoi tro ar agweddau ar Copilot yn ymarferol. Roedd ambell awdurdod lleol yn dal i fod ar ddechrau eu taith, yn ystyried eu hopsiynau ac yn ymchwilio i ystod o dechnolegau ochr yn ochr â Copilot, cyn penderfynu sut i symud ymlaen. Soniwyd am ddatrysiadau deallusrwydd artiffisial posib eraill fel system rheoli achosion Mosaic a Magic Notes.

Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion nodweddion cyffredin ymhlith yr awdurdodau lleol hynny a oedd o'r farn eu bod yn fwy parod ar gyfer newid. Archwilir ffactorau parodrwydd isod.

[16] Llun goleuadau traffig: [Mae'r llun hwn]() gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu o dan [CC BY-NC]()

**Cefnogaeth uwch-arweinwyr**
Tynnodd sawl awdurdod lleol sylw at y ffaith fod cefnogaeth y tîm uwch-arweinwyr yn ffactor hanfodol i lwyddiant. Roedd rhai o'r gweithgareddau a ddangosai'r gefnogaeth hon yn cynnwys negeseuon cadarnhaol am sut y gall timau ddefnyddio'r offerynnau, rhoi sicrwydd nad yw swyddi dan fygythiad, sicrwydd fod llywodraethu a phryderon moesegol yn cael sylw, a sicrhau bod dulliau deallusrwydd artiffisial wedi'u hymgorffori ym mhob cynllun busnes.


**Gweithgorau**
Roedd y sefydliadau a oedd yn teimlo'n fwy parod i weithredu wedi sefydlu gweithgorau, i gyflwyno canllawiau ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu, yn ogystal â fforymau i fynd i'r afael â phryderon. Roedd un awdurdod lleol wedi sefydlu Bwrdd Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial, ac roedd gan un arall gymuned ymarfer ar waith. Yn gyffredinol, roedd y rheiny a oedd wedi gweithredu newidiadau digidol mawr yn barod yn teimlo'n fwy parod na'r rheiny a oedd heb wneud hynny.

**Dynodi arweinwyr y rhaglen a hyrwyddwyr**
O'r awdurdodau lleol mwy parod, nodwyd bod dynodi arweinwyr a hyrwyddwyr i hyrwyddo potensial y gwaith, a chael capasiti penodol i gefnogi ei weithrediad, yn elfen bwysig. Mae enghreifftiau o rolau sydd wedi'u sefydlu yn cynnwys 'rheolwr gweithredu a chyflawni' a 'swyddog cymorth trawsnewid digidol',

## Parodrwydd Ymarferwyr a Rheolwyr

**Ymwybyddiaeth o Offerynnau Digidol a Dealltwriaeth Amdanynt**
Mae'r arolwg yn archwilio pa mor gysurus y mae cyfranogwyr yn teimlo wrth ddefnyddio offerynnau digidol, ac ymwybyddiaeth ymarferwyr / rheolwyr unigol o Microsoft Copilot. Roedd yn un o'r gweithgareddau cyntaf a gynhaliwyd - fel y dengys siart 1 isod, mynegodd y rhan fwyaf o unigolion sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol eu bod naill ai'n teimlo'n gyfforddus neu'n gyfforddus iawn wrth ddefnyddio offerynnau digidol yn eu gwaith bob-dydd (96%). Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, roedd gan lawer yn llai ymwybyddiaeth o Microsoft Copilot ar ddechrau ein gwaith, ac roedd y mwyafrif (61%) yn teimlo naill ai ychydig yn anghyfarwydd neu'n anghyfarwydd iawn â'r rhaglen.

**Siart 1: Cwestiynau'r Arolwg: Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r cysyniad o Microsoft Copilot? Pa mor gyfforddus ydych chi i ddefnyddio offerynnau digidol yn eich gwaith bob-dydd?**




**Parodrwydd ar gyfer Newid**
Wrth i'r gwaith i asesu parodrwydd y gweithlu fynd rhagddo, rhoddodd y gweithdai i ymarferwyr fwy o wybodaeth a thrafodaeth am Copilot. Cynhaliwyd arolwg ar ddiwedd y tair sesiwn - ymatebodd 60 o ymarferwyr. Fel y dangosir yn Siart 2, roedd tystiolaeth glir o ddealltwriaeth well a mwy o hyder ynghylch y defnydd o Copilot, yn ogystal ag awydd i barhau i ddysgu mwy amdani.

Ymhlith y rheiny a holwyd, a chyfranogwyr y Rhwydwaith Hyrwyddwyr, roedd ymdeimlad cryf o groeso i'r newidiadau mewn technoleg ddigidol o ran gwaith bob-dydd ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Dywedodd 42% o gyfranogwyr yr arolwg eu bod 'rhywfaint yn barod' i gyflwyno newidiadau i'r ffordd roedden nhw'n gweithio o ddydd i ddydd, ac roedd 43% yn teimlo'n 'barod iawn' i newid. Dim ond 14% o gyfranogwyr yr arolwg a ddywedodd eu bod 'ddim yn barod'.

Mae Siart 2 yn dangos barn y grŵp ffocws am dasgau gweinyddol – yn gyffredinol teimlir eu bod yn feichus ac yn cymryd llawer o amser, gan leihau'r amser y gellid ei dreulio yn gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion.

**Siart 2: Cwestiwn Slido y Grŵp Ffocws: Cytuno/Anghytuno â'r datganiadau canlynol**




Dywedodd y grwpiau ffocws mai'r 5 dasg weinyddol a oedd yn cymryd y mwyaf o amser iddynt oedd cofnodi achosion, ysgrifennu asesiadau a'u hadolygu, trafod gohebiaeth, ysgrifennu cynlluniau gofal a chymorth ac ysgrifennu nodiadau cyfarfodydd.

Felly, mae'r gweithlu'n dechrau teimlo'n gadarnhaol am botensial Copilot i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ymarfer.

Cynyddodd hyder i ddefnyddio Copilot trwy drafodaethau yn y grwpiau ffocws. Er bod ymatebwyr yr arolwg wedi adrodd i ddechrau nad oeddent yn gwybod llawer am Copilot, ar ddiwedd sesiynau'r ail grŵp ffocws, aethom ati i holi pob cyfranogwr; Gyda'r gefnogaeth / hyfforddiant iawn, pa mor barod ydych chi'n teimlo i weithio yn y ffordd hon?

Ymatebodd chwe deg o ymarferwyr ar draws y tri grŵp:

- 43% - Yn dymuno dechrau cyn gynted â phosibl
- 43% - Eisiau ychydig mwy o weithdai er mwyn dysgu mwy, ond rwy'n credu ei fod yn gam cadarnhaol a allai fy helpu
- 8% - Dydyn ni ddim yn siŵr ar hyn o bryd ac mae gennym ragor o gwestiynau ynglŷn â sut y gallai weithio yn ymarferol

- 5% - Methu â gweld y budd o ddefnyddio Copilot

Dangosodd adborth y grwpiau ffocws fod ymarferwyr llawer yn fwy cyfforddus yn archwilio offeryn fel Copilot pan fyddai'n cyd-fynd â'u swyddogaeth a lle gallent ei weld yn cael ei gymhwyso'n uniongyrchol i'w llif gwaith o ddydd i ddydd. Lle roedden nhw'n bryderus ac yn anghyfforddus o'r blaen, y teimlad cyffredinol yn dilyn y sesiynau oedd bod ymarferwyr â diddordeb ac yn croesawu'r cyfle i archwilio'r defnydd o Copilot yn fanylach.

## 2. Diwylliant, Agweddau ac Ymddygiadau

Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r cyfranogwyr i sefydlu beth oedd diwylliant, agweddau ac ymddygiadau sefydliadau a gweithwyr ar y pryd, tuag at weithredu Microsoft Copilot.

### Agweddau Gweithwyr

Roedd amrywiaeth yn y ffordd yr oedd pobl yn teimlo am newidiadau posibl yn ymwneud â'r defnydd o Copilot. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn adlewyrchu cyfuniad o agweddau, a llawer o weithwyr yn cofleidio manteision posibl y dechnoleg yn agored, tra bod eraill yn fwy petrus neu amheus. Mae un cyfranogwr yn sôn am agwedd o fod yn 'betrus groesawgar' o Copilot.

Nododd ambell sefydliad gefnogaeth gref iawn a chyffro ynghylch deallusrwydd artiffisial, a chafwyd llawer o geisiadau i gymryd rhan mewn cynlluniau peilot a gweithgorau.

O'r rheiny a oedd yn llai tebygol o gofleidio'r newid mewn technoleg, roedd pryderon yn cynnwys yr effaith arnyn nhw eu hunain a'u rôl, ar ansawdd yr ymarfer ac ar brofiad y rheiny sy'n cael y gofal a'r cymorth. Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol yn fwy petrus ynghylch yr angen i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial fel offeryn, yn hytrach na chymryd lle gweithgareddau penodol - roedd sylwadau ynghylch y potensial o ddadsgilio, ac effeithiau posibl ar farn broffesiynol os ydym yn rhy ddibynnol ar ddeallusrwydd artiffisial. Roedd gan eraill bryderon am gyfrinachedd. Mae'r pryderon hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach yn adran 4 (ystyriaethau moesegol). Canfuwyd bod cysylltiad cryf rhwng pa mor effeithiol yr oedd y cyflogwr yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn a lefelau hyder gweithwyr i symud ymlaen â newidiadau. Roedd y rheiny a oedd wedi cael profiadau negyddol o newidiadau technolegol yn y gorffennol yn llai tebygol o groesawu newidiadau pellach, ac roedd cyfranogwyr a oedd wedi cael profiadau cadarnhaol yn fwy tebygol o gofleidio newid.

Dyma rai enghreifftiau o bryderon a godwyd gan gyfranogwyr yr arolwg:

> 'Fyddwn i ddim yn argymell gweithredu na defnyddio Copilot yn ystod asesiadau personol, oherwydd gallai hynny edrych yn amhersonol neu'n llai empathetig, a gallai danseilio'r berthynas a'r ymddiriedaeth sy'n hanfodol yn y sefyllfaoedd hyn'
>
> 'Er y gallai fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer asesu capasiti, byddai angen i mi fod yn hyderus y gallai'r unigolyn gydsynio, neu y gallwn i fod yn hyderus i ddangos y byddai er eu budd gorau'
>
> 'Rwy'n credu ei bod hi'n rhy gynnar i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ac mae hyn yn bryder moesegol, a gallai beri risg o ddadsgilio a thanseilio proffesiwn Gwaith Cymdeithasol'

Fe wnaeth ymatebwyr yr arolwg osod rhestr o bryderon yn eu trefn (o'r mwyaf i'r lleiaf), ac adlewyrchwyd y ffaith mai ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar farn yw pa mor hyderus y mae unigolyn yn teimlo ei fod yn deall y dechnoleg. Mae hyn yn awgrymu pwysigrwydd rhoi digon o hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr.

## Pryderon am Copilot

**Trefnwch eich pryderon (o'r mwyaf i'r lleiaf) am ddefnyddio Copilot ym maes gofal cymdeithasol?**

1. Diffyg dealltwriaeth neu hyfforddiant
2. Effaith ar ansawdd y broses o wneud penderfyniadau a dadansoddi
3. Preifatrwydd a diogelwch data
4. Ystyriaethau moesegol
5. Newidiadau posibl i fy rôl
6. Dadsgilio fy rôl

Er gwaethaf y pryderon hyn, mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg agweddau cadarnhaol tuag at Copilot, fel y dangosir yn Nhabl 2. Mynegodd 69% deimladau cadarnhaol, mynegodd 13% deimladau negyddol, a dywedodd 18% y byddai angen gwybod mwy am Copilot arnynt er mwyn ffurfio barn. Isod ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn 'Sut ydych chi'n teimlo am y defnydd posibl o Copilot i'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl'

**Tabl 2 – Agweddau ymatebwyr yr arolwg tuag at fabwysiadu Copilot.**

| | |
|---|---|
| Gobeithiol | 47% |
| Cyffrous | 22% |
| Pryderus | 4% |
| Amheus | 9% |
| Angen gwybod mwy | 18% |

Dangoswyd yr ystod hon o agweddau trwy gydol y gweithgareddau, ac mae'r detholiad isod o ddyfyniadau yn tynnu sylw at amrywiaeth y farn am y dechnoleg

> 'Mae'n ddefnyddiol iawn ar gyfer cofnodion cyfarfodydd, ond bydd yn cymryd peth amser i mi i ddod i arfer â defnyddio mwy o'r swyddogaethau'

> 'Rwy'n credu y byddai Copilot yn newid pethau'n llwyr a byddai'n gymorth sylweddol gyda'r straen gweinyddol sydd arnom o fewn ein llwyth achosion'

> 'Byddai'n well gen i ysgrifennu fy ngwaith fy hun yn hytrach na chael system i'w gynhyrchu'

> 'Fyddwn i ddim yn argymell gweithredu na defnyddio Copilot yn ystod asesiadau personol, oherwydd gallai hynny edrych yn amhersonol neu'n llai empathetig, a gallai danseilio'r berthynas a'r ymddiriedaeth sy'n hanfodol yn y sefyllfaoedd hyn'

**Siart 3: Cwestiwn Grŵp Ffocws: Gyda'r gefnogaeth a'r hyfforddiant iawn, pa mor barod ydych chi'n teimlo i weithio yn y ffordd hon?**




Nododd grwpiau ffocws y tasgau yr oeddent yn teimlo y gallai Copilot fod fwyaf defnyddiol gyda nhw yn eu gwaith bob-dydd. Roedd y rhain yn cynnwys crynhoi negeseuon e-bost a dogfennau, paratoi nodiadau a dogfennau fel ceisiadau i'r panel ac asesiadau, a chreu trosolwg o gyfarfodydd. Fel y nodwyd yn siart 3, roedd cyfranogwyr yr arolwg wedi'u rhannu rhwng yr angen i wybod mwy am y dechnoleg a pharodrwydd i ddechrau cyn gynted â phosibl.

## Diwylliant y Sefydliad

Mae'r sefydliadau hynny sydd wedi llwyddo i greu amgylchedd mabwysiadu cadarnhaol yn dueddol o fod â chefnogaeth gref gan reolwyr, yn ogystal ag uwch-staff TG sy'n hyrwyddo'r newid. Roedd negeseuon cadarnhaol am sut y gall offerynnau gefnogi staff er mwyn iddynt allu treulio mwy o amser gyda phobl, rhoi sicrwydd nad yw swyddi dan fygythiad, a sicrhau bod gweithwyr yn parhau i fod â rheolaeth dros eu cofnodion, yn gymorth i weithwyr i oresgyn eu pryderon. Nodwyd hefyd fod canolbwyntio ar y manteision i'r bobl sy'n cael gofal a chymorth yn bwysig, yn hytrach na chanolbwyntio ar effeithlonrwydd o ran y broses neu reoli amser yn unig. Teimlwyd bod mabwysiadu diwylliant sy'n gwrando ar bryderon yn bwysig.

Roedd yr Awdurdodau Lleol hynny sydd â gweithgorau ar waith yn adlewyrchu barn mwy cadarnhaol tuag at Copilot. Mynegodd un awdurdod lleol fod ganddo gymaint o frwdfrydedd ei fod wedi dod yn anodd ei reoli

O'r rhai sydd wedi gweithredu newid digidol mawr o'r blaen, teimlwyd bod cynnwys gweithwyr o'r dechrau'n deg yn ffactor a oedd yn hanfodol i lwyddiant, a bod angen negeseuon cadarnhaol cyson, sicrwydd a chefnogaeth trwy gydol y broses weithredu. Trwy lunio newidiadau gyda'i gilydd o'r dechrau, mae wedi bod yn bosibl i sefydliadau sy'n fwy parod i ddeall a theilwra'r broses weithredu i anghenion meysydd gwasanaeth unigol ac i'r math o ymarferydd.

> 'Mae arnom angen dod â phawb ar y daith gyda ni, sicrhau cydbwysedd rhwng y rheiny sy'n frwdfrydig â'r rheiny sy'n gwrthwynebu, a sicrhau ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau'

## 3. Heriau a Rhwystrau Canfyddedig

Trwy gydol y gweithgarwch asesu, gofynnwyd i gyfranogwyr nodi unrhyw elfennau canfyddedig a oedd yn herio’r gallu i weithredu neu’n ei rwystro.

### Heriau Canfyddedig i’r Sefydliad

Nododd uwch-arweinwyr ystod o heriau posibl a allai fod yn fygythiad i fabwysiadu ar lefel y sefydliad. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod yn nhrefn eu pwysigrwydd.

### Cyllid

O safbwynt sefydliadau, teimlwyd mai'r rhwystr mwyaf posibl i fabwysiadu oedd diffyg cyllid i brynu trwyddedau, ar adeg pan fo cyfyngiad ar gyllidebau. Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod ganddynt gronfa o drwyddedau er mwyn profi'r cynnyrch (fel arfer dim mwy nag 20, ac roedd un awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn 50), ac roedden nhw yn y broses o’i threialu mewn ambell faes. Er y cydnabuwyd manteision posibl ac arbedion o ran amser / cost, teimlwyd nad oes digon o dystiolaeth o hyd i gefnogi buddsoddiad ymlaen llaw ar raddfa fawr yn y cynnyrch mewn rhai achosion.

> 'Mae TG yn gwrthwynebu Copilot ac mae'r pennaeth cyllid yn gwrthwynebu hefyd, oherwydd nid yw’n glir sut y gallai hyn arwain at arbedion ariannol.'

Nodwyd bod cost trwyddedau Copilot ychydig yn uwch na mathau eraill o becynnau meddalwedd a’u bod bron i ddwbl cost system cofnodi achosion gofal cymdeithasol mewn un achos.

### Isadeiledd TG

Y diffyg isadeiledd TG priodol i gefnogi'r newid. Dywedodd sawl awdurdod lleol fod eu systemau rheoli achosion yn hen ac na fyddent yn gallu gweithio gyda Copilot. Holodd eraill a oedd yn briodol i'w defnyddio ar y cyd â systemau rheoli achosion a rheoli gwybodaeth gofal cymdeithasol neu gyda chymwysiadau sydd ddim yn seiliedig ar gwmwl. Nid yw pob awdurdod lleol wedi estyn Office 365 allan yn llawn eto, a byddai hyn yn rhwystr i’r posibilrwydd o ddefnyddio Copilot yn effeithiol. Yn gyffredinol, teimlwyd bod y rhyngwyneb rhwng Microsoft Copilot a chynhyrchion eraill yn ansicr, a nododd sawl cyfranogwr yr angen i archwilio hyn ymhellach cyn penderfynu a oedd Copilot yn addas iddynt.

### Capasiti i gefnogi newid

Mewn mater allweddol arall, tynnwyd sylw at y capasiti ychwanegol y bydd ei angen ar y gweithlu i ddechrau newid ar raddfa fawr ar adeg o heriau cystadleuol. Roedd cyfranogwyr yn ystyriol o’r ffaith nad oeddent eisiau gorlethu staff gyda newidiadau i ymarfer – roedd hyn yn arbennig o wir mewn awdurdodau lleol lle mae newidiadau a gweithgareddau trawsnewid eraill wedi digwydd yn ddiweddar.

### Llywodraethu

Roedd cael polisïau am ddefnydd priodol a chyfyngiadau a sicrhau ansawdd i gyd yn uchel ar y rhestr o flaenoriaethau – a nodwyd bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol heb roi'r rhain ar waith eto. Mae adolygu polisïau technoleg cyfredol, goruchwylio’r broses weithredu yn briodol, a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth fel GDPR, i gyd yn hanfodol, fodd bynnag, nid yw'r amser, yr arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen yn eu lle ym mhob awdurdod lleol.

## Y Gymraeg

Cyfeiriodd sawl awdurdod lleol at broblemau mawr yn ymwneud â gallu Copilot i ddeall y Gymraeg a chyfieithu'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw technoleg cyfieithu wedi datblygu'n ddigonol i ddarparu trawsgrifiadau a chrynodebau dibynadwy. Mae un awdurdod lleol wedi gweld bod defnyddio'r cyfieithiad cychwynnol yn offeryn defnyddiol fel man cychwyn i dimau cyfieithu'r Gymraeg. Maen nhw wedi sefydlu swyddogaeth lle mae pob trawsgrifiad Copilot yn mynd i'r tîm i'w gwirio cyn cwblhau.

Mater arall yw pan fydd dwy iaith neu fwy yn cael eu siarad mewn galwad neu pan fydd gan siaradwr acen arbennig o gryf – gall hyn effeithio ar allu Copilot i ddeall deunyddiau a'u defnyddio. Y perygl gyda hyn yw bod cyfraniadau siaradwyr sydd ddim yn siarad Saesneg neu sydd ag acen y mae Copilot yn ei chael yn anodd, ddim yn cael yr un pwys mewn crynodebau o gymharu â'r rheiny sy'n siarad Saesneg. Mae o leiaf dau awdurdod lleol wedi nodi hyn fel rhwystr mawr i fabwysiadu'r dechnoleg.

## Heriau Canfyddedig i Ymarferwyr a Rheolwyr

Roedd ymarferwyr a rheolwyr yn rhannu rhwystrau a nodwyd ar lefel y sefydliad, a diffyg isadeiledd TG priodol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yr arolwg yn gosod sgiliau digidol a phryderon moesegol uwchlaw materion sy'n ymwneud ag adnoddau neu gyllid. Mae'r tabl isod yn dangos y pryderon a nodwyd gan gyfranogwyr yr arolwg.

**Heriau a Rhwystrau Canfyddedig**

**Trefnwch eich pryderon (o'r mwyaf i'r lleiaf) am ddefnyddio Copilot ym maes gofal cymdeithasol? (Arolwg)**

1. Diffyg sgiliau digidol ymhlith staff
2. Isadeiledd TG annigonol
3. Gwrthwynebiad i newid
4. Pryderon Moesegol
5. Diffyg adnoddau
6. Diffyg cyllid

## Gwybodaeth a Sgiliau Digidol

Nododd cyfranogwyr y Rhwydwaith Hyrwyddwyr nad yw rhai ymarferwyr yn siŵr sut i ddefnyddio Copilot yn ddiogel gyda'r system rheoli achosion, a bod angen cynnig hyfforddiant a chefnogaeth fwy cadarn i'r rheiny sy'n ei defnyddio i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol. Dywedwyd bod sgiliau digidol yn amrywio ymhlith ymarferwyr, a bod hyfforddiant yn eithaf prin ar hyn o bryd ac nad oedd wedi'i deilwra i anghenion. Dywedwyd bod y rheiny sydd â llai o hyder i ddefnyddio offerynnau digidol weithiau'n llai agored i roi cynnig ar bethau newydd ac yn fwy cyfforddus i aros gydag opsiynau llai technegol yn eu gwaith bob-dydd oherwydd hynny.

## Isadeiledd TG

Yn ogystal â'r materion cyffredinol a nodwyd yn yr arolwg a'r cyfweliadau, tynnodd cyfranogwyr y Rhwydwaith Hyrwyddwyr sy'n defnyddio Copilot sylw at y ffaith nad oedd y system yn gweithio gyda negeseuon a rennir neu negeseuon grŵp. Holai eraill a fyddai'n gweithio gyda systemau rheoli achosion a gwybodaeth.

### Cyfarpar

Mae un rhanbarth yn symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio ffonau symudol ond nododd ddiffyg caledwedd fel gliniaduron a chyfrifiaduron pen-bwrdd. Cyfeiriwyd at argaeledd Wi-Fi fel mater arall mewn rhai rhanbarthau, yn ogystal â'r angen i ddarparu technoleg wedi'i haddasu fel sgriniau penodol, offer i recordio sgyrsiau, a chyfleuster storio recordiadau. Nodwyd bod staff gofal mewn gwasanaethau i oedolion yn defnyddio gwasanaethau symudol, ac nid oedd yn glir a fyddai Copilot yn gweithio gyda hyn. Mae angen ymchwilio'n fwy i gadarnhau a fydd systemau ffôn yn cysylltu â Teams neu feddalwedd arall, er mwyn gallu trawsgrifio galwadau (er enghraifft mewn gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth lle ceir nifer fawr o alwadau gan y cyhoedd).

### Strategaethau Lliniaru a Galluogwyr

Yn ystod y trafodaethau tynnwyd sylw at amrywiaeth o strategaethau i liniaru rhai o'r heriau a nodwyd uchod. Roedd awdurdodau lleol hefyd wedi dynodi galluogwyr sydd eisoes wedi gweithio gyda Copilot.

**Deall anghenion y gweithwyr a'r timau**
Nodwyd y gallai offeryn Asesu Digidol Gofal Cymdeithasol Cymru[13] gefnogi dealltwriaeth well o anghenion timau ac anghenion proffesiynol yn lleol. Argymhellwyd bod ffocws ar bob math o wasanaethau i oedolion (timau gwasanaethau pobl hŷn, cyswllt cyntaf, anableddau dysgu ac anableddau corfforol ayb.). Roedd cyfranogwyr a oedd wedi ymgymryd â phrosiectau trawsnewid digidol yn y gorffennol hefyd yn argymell bod y systemau a'r prosesau hynny yn cael eu cadw mor syml â phosibl i leihau'r risg o'u defnyddio'n anghywir. Bydd mabwysiadu dull hawdd ei ddefnyddio yn sicrhau bod gan grŵp ehangach o staff y cymhwysedd digidol i ddefnyddio'r dechnoleg. Roedd yna awgrym hefyd fod cael unigolyn cymorth busnes wedi'i hyfforddi yn Copilot yn gefnogol iawn i'r tîm ehangach.

**Parhau i gyfathrebu'n agored**
Credwyd bod cysondeb wrth gyfleu gweledigaeth glir, a chynnwys staff o'r dechrau' deg, yn elfennau a fyddai'n galluogi'r dechnoleg i gael ei mabwysiadu'n llwyddiannus, fel y disgrifir yn y dyfyniad canlynol: 'Mae ar [staff] angen cael barn a llais i ddylanwadu ar y dyfodol ac i allu dylanwadu ar y newid'

**Cynllunio'r Broses Weithredu a'i Chyflymder**
Roedd awdurdodau lleol yn teimlo y gellid goresgyn yr heriau hyn trwy gynllunio'n ofalus a gweithredu'n raddol. Nododd un ardal eu bod wedi llwyddo i wneud cynnydd trwy 'sicrhau dull isel ac araf yn hytrach na chlec fawr' . Teimlwyd bod 'ymdeimlad o berchnogaeth a phenderfyniadau cryf' hefyd yn ddefnyddiol i gyfleu cynllun wedi'i ystyried a'i reoli'n ofalus.

**Y Gymraeg**
Er nad oes ateb sydyn i'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i dechnoleg iaith, mae un awdurdod lleol wedi gallu goresgyn rhywfaint o'r her trwy drefnu i ddogfennau a ddatblygwyd gan ddeallusrwydd artiffisial gael eu rhannu gyda'r tîm cyfieithu Cymraeg yn fewnol, i'w hadolygu a'u haddasu yn ôl yr angen, cyn eu defnyddio. Er bod y weithred hon yn ychwanegu cam pellach, mae'n sicrhau bod yr adroddiadau a gynhyrchir gan Copilot yn addas at y diben.

## 4. Ystyriaethau Moesegol

Trwy gydol y cyfnod asesu, fe fu cyfranogwyr yn trafod yr ystyriaethau moesegol posibl mewn perthynas â mabwysiadu Copilot. Ceir crynodeb o'r materion allweddol isod.

### Diogelu Data a Diogeledd

Mynegodd rhai o'r cyfranogwyr bryderon ynghylch sut y byddai gwybodaeth sensitif yn cael ei defnyddio gan y feddalwedd, ac ynghylch sicrhau mai dim ond ffynonellau priodol sy'n cael eu

defnyddio mewn tasgau fel crynhoi gwybodaeth. Mae'r pryderon hyn yn ddilys i raddau. Mae yna sawl gosodiad y mae angen eu hactifadu o fewn yr isadeiledd TG, er mwyn sicrhau defnydd diogel o Copilot a diogelu ffeiliau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â phrotocolau diogelwch. Mae hefyd yn bwysig fod y rhyngwyneb sgwrsio yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n tynnu ar ffynonellau priodol. Mae yna rywfaint o botensial ar gyfer gwallau gan ddefnyddwyr, ac mae yna rai awgrymiadau syml y gellir eu dilyn i sicrhau nad yw gwallau'n digwydd. Mae Atodiad C yn cynnwys rhestr o awgrymiadau i ddefnyddwyr, a dylid ei darllen ar y cyd â'r rhestr o bromptiau yr awgrymir eu defnyddio ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, sydd yn Atodiad B. Mae'n bwysig fod polisïau priodol yn eu lle a bod staff yn cael hyfforddiant digonol i ddefnyddio Copilot yn effeithiol.

## Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn y Llys

Roedd rhai cwestiynau ynghylch p'un ai fyddai'r llysoedd yn derbyn dogfennau wedi'u cynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial ai peidio, ac a oedd angen nodi'r defnydd ohono mewn briffiau ac adroddiadau ffurfiol. Mae hwn yn faes ystyriaeth sy'n dod i'r amlwg i lywodraethau, ac efallai y bydd agweddau gwahanol ar draws gwahanol awdurdodaethau, ac mae un enghraifft ddiweddar yn Awstralia yn tynnu sylw at yr ymateb i hyn.

Cyhoeddodd New South Wales reol newydd o fis Chwefror 2025, yn nodi na ddylid defnyddio deallusrwydd artiffisial i gynhyrchu cynnwys [dogfennau cyfreithiol]. Mae'r Llys yn awyddus i sicrhau y dylai'r [dogfennau hyn] adlewyrchu gwybodaeth yr unigolyn ei hun, yn hytrach na chynnwys a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial.[17]

Gofynnodd awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru lywio hyn a sicrhau cefnogaeth a chyngor ynghylch sut y gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn gwasanaethau cyhoeddus a llysoedd i oleuo ymarfer.

## Gofal sy'n Canolbwyntio ar Unigolion

Tynnodd gweithwyr cymdeithasol sylw at bwysigrwydd cynnal y berthynas sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn rhwng yr ymarferydd a'r unigolyn sy'n cael y gofal. Roedden nhw'n teimlo, er y gallai deallusrwydd artiffisial gynorthwyo gyda thasgau gweinyddol, na ddylai dynnu oddi ar y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â'i gilydd. Roedd rhywfaint o bryder y gallai'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei blaenoriaethu fod yn wahanol i'r pwys a roddir i'r wybodaeth gan ymarferydd sy'n ffurfio barn glinigol – gallai deallusrwydd artiffisial flaenoriaethu gwybodaeth sydd ddim yn bwysig i'r unigolyn. Pryder arall oedd rhithwelediad deallusrwydd artiffisial, neu bod y dechnoleg yn llenwi'r bylchau lle nad oes digon o wybodaeth i ffurfio barn. Pwysleisiodd ymarferwyr bwysigrwydd gweld deallusrwydd artiffisial fel offeryn cymorth, yn hytrach na ffordd newydd o ryngweithio.

## Materion caniatâd a phreifatrwydd

Tynnodd cyfranogwyr sylw at yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng pryderon am breifatrwydd a diogeledd,  ac effeithlonrwydd. Mae rhai o'r cwestiynau a godwyd, y bydd angen eu hegluro, yn cynnwys dweud wrth bobl sy'n cael gofal a chymorth fod deallusrwydd artiffisial yn defnyddio'u gwybodaeth, ac a oes angen caniatâd mewn rhai amgylchiadau. Tynnodd rhai sylw at y ffaith nad yw pob un yn gyfforddus i gael eu recordio, ac y byddai angen cael cydsyniad gwybodus yn yr achosion hyn, ynghyd â'r cyfle i optio allan.

Maes ystyriaeth arall yw sut i bwyso a mesur beth sydd er budd gorau unigolyn lle nad oes ganddynt y gallu meddyliol i ddeall / roi cydsyniad gwybodus. Dylid nodi bod materion tebyg wedi codi pan

[17] Tumbridge, James. (2024) Can you use AI in court cases? [Ar-lein] Ar gael ar: Can you use AI in court cases? : Keystone Law [Gwelwyd ar 21 Chwefror, 2025].

gyflwynwyd cyfrifiaduron am y tro cyntaf, i gymryd lle nodiadau papur. Mae angen diffinio ffiniau a disgwyliadau.

Meddai un cyfranogwr,

> 'Er y gallai fod yn offeryn defnyddiol i asesu capasiti, byddai angen i mi fod yn hyderus y gallai'r unigolyn gydsynio, neu y gallwn i fod yn hyderus i ddangos y byddai er eu budd gorau'

## Canfyddiad y Cyhoedd

Nodwyd y dylid ystyried sut y gallai'r cyhoedd weld y broses o gyflwyno deallusrwydd artiffisial. Mynegodd rhai cyfranogwyr bryder y gallai'r cyfryngau ddehongli cyflwyno deallusrwydd artiffisial fel ymgais i gymryd lle cyswllt dynol, y gwasanaeth hanfodol a ddarperir gan ofal cymdeithasol. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn dadleuon cyhoeddus ehangach am y mater hwn. Un ystyriaeth bosibl yw'r rhyngwyneb ag aelodau o'r cyhoedd trwy bwyntiau mynediad sengl, lle gellid recordio galwadau, eu crynhoi a'u trawsgrifio. Ar hyn o bryd, mae llawer o wasanaethau yn annog cyfranogwyr gwefannau i ryngweithio â chynorthwyydd rhithwir, er bod hyn fel arfer yng nghyd-destun amgylchedd gwerthu neu wasanaethau i gwsmeriaid, yn hytrach na lleoliad gofal cymdeithasol. Dylid ystyried yn ofalus cyn cael gwared ar weithwyr dynol o bwyntiau cyswllt. Mae yna botensial hefyd ar gyfer allgáu digidol ymhlith aelodau o'r cyhoedd sy'n llai cymwys yn ddigidol.

## Effeithiau ar Gyflogaeth

Amlygodd sawl cyfranogwr bryderon y gellid gweld cyflwyno Copilot fel cyfle i dorri swyddi mewn cyfnod o gyfyngiadau ar gyllidebau a thoriadau. Roedd pryder y gallai swyddogaethau gweinyddol gael eu lleihau, gan arwain at y posibilrwydd o ddileu swyddi a newid amodau gwaith.

Pryder penodol i weithwyr cymdeithasol oedd y posibilrwydd y gallai deallusrwydd artiffisial arwain at ddadsgilio'r rôl, neu y gallai amharu â'r farn wrth wneud penderfyniadau am y cymorth a roddir i unigolion yn eu gofal.

> 'Rwy'n credu ei bod hi'n rhy gynnar i weithredu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ac mae hwn yn bryder moesegol, a allai beri risg o ddadsgilio a thanseilio proffesiwn Gwaith Cymdeithasol'

## Rhoi sylw i bryderon moesegol

Teimlwyd y gellid lliniaru'r pryderon uchod i raddau helaeth trwy sicrhau bod y mater yn cael ei drin yn ofalus, a pharatoi'n ofalus at fabwysiadu. Roedd yna alwad i gyhoeddi rhai materion a chanllawiau ar lefel genedlaethol, er mwyn darparu gwybodaeth glir am oblygiadau cyfreithiol.

Roedd cyfranogwyr yn eirioli'n gryf dros fynd ati mewn ffordd sy'n sicrhau bod Copilot yn cael ei defnyddio fel offeryn i gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac nid i gymryd lle swyddi, er y gallai newid y ffordd y mae swyddi'n cael eu diffinio. Dylai negeseuon gael eu hatgyfnerthu gan uwch-arweinwyr, a dylid annog ymarferwyr i godi unrhyw bryderon trwy gydol y broses weithredu. Teimlwyd bod diffinio cyfrifoldeb dros gofnodion a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial hefyd yn hanfodol, a bod gofyn egluro mai'r ymarferydd yn y pen draw ddylai fod yn gyfrifol am gynnwys adroddiadau a gynhyrchir, a'u hadolygu cyn cwblhau.

Byddai gosod polisïau clir ynghylch llywodraethu a diogeledd data, a dysgu o brosiectau technoleg eraill fel olynydd WCCIS a rhaglen Cysylltu Gofal, yn helpu i liniaru unrhyw berygl o'i defnyddio mewn ffordd amhriodol.

Maes arall a amlygwyd gan gyfranogwyr oedd yr angen i ddweud wrth bobl sy'n cael gofal a chymorth, a'r cyhoedd, am y ffordd y bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio – dylid rhoi opsiwn i bobl optio allan o gael eu recordio yn ystod eu rhyngweithiadau â gofal cymdeithasol. Dylid archwilio nodiadau


drafft a thrawsgrifiadau, a’u dinistrio yn unol â pholisïau’r sefydliad a pholisïau GDPR.

Sicrhau ansawdd yn gadarn - dylai cofnodion gael eu marcio'n glir fel drafft deallusrwydd artiffisial neu wedi eu gwirio gan ymarferydd, er mwyn osgoi dryswch ac osgoi dosbarthu dogfennau sydd heb gael eu gwirio ac sydd heb fodloni gofynion sicrhau ansawdd sylfaenol.

## 5. Gofynion o ran Adnoddau / Capasiti

Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi'r gofynion o ran adnoddau a chapasiti hanfodol sydd eu hangen i gefnogi’r broses o fabwysiadu Copilot, ar wahân i’r isadeiledd TG a chost trwyddedau (sy'n cael eu harchwilio yn adran 3). Mae Siart 4 yn dangos canfyddiadau - roedd 93% o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod hyfforddiant ymarferol am Copilot yn flaenoriaeth.

**Siart 4: Cwestiwn yr Arolwg: Pa fathau o hyfforddiant / gymorth fyddai eu hangen arnoch? [Dewiswch gymaint ag sy'n berthnasol]**




Y mathau eraill o gymorth a gafodd sgôr uchel oedd mynediad at dîm cymorth fel y Rhwydwaith Hyrwyddwyr (73%) a chyrsiau adnewyddu rheolaidd (70%). Roedd llai o ymatebwyr yn teimlo bod angen hyfforddiant llythrennedd digidol sylfaenol (27%) neu hyfforddiant dadansoddi data (41%), neu fforymau ar-lein (40%) arnynt.

### Adnoddau Hyfforddi

Un o'r themâu a ddaeth i’r amlwg ymhlith timau a grwpiau proffesiynol oedd y byddai Copilot yn cael ei defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac y byddai anghenion hyfforddiant meysydd gwasanaeth yn wahanol.

Am y rheswm hwn, awgrymwyd y dylid cynnal asesiad gofalus o feysydd gwasanaeth sy'n defnyddio'r dechnoleg, er mwyn goleuo datblygiad hyfforddiant y gellid ei gynnig i'r rheiny sydd â lefelau gwahanol o gymhwysedd digidol. Dylid hyfforddi swyddogion cymorth busnes yn wahanol i weithwyr cymdeithasol rheng flaen neu uwch-reolwyr, er enghraifft. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu offeryn potensial digidol sy'n cefnogi darparwyr gofal cymdeithasol i nodi meysydd datblygu.

Roedd ffafriaeth gref i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn hytrach nag e-ddysgu, a chefnogwyd hyn gan brofiadau yn ystod Covid o gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, lle teimlwyd bod dysgu ar-lein yn llai

effeithiol.

O'r rheiny sy'n defnyddio Copilot yn weithredol, roedd rhai mathau o weithgareddau hyfforddi y teimlwyd eu bod yn arbennig o gefnogol, gan gynnwys rhoi arddangosiadau byw i dimau sy'n ystyried mabwysiadu'r dechnoleg, a chael pobl i gerdded y lloriau i roi cymorth 1:1 mewn ardaloedd peilot byw. Roedd hwyluso seminarau byr i hyrwyddo 'dysgu mewn tameidiau' hefyd yn effeithiol i ymarferwyr heb fawr o amser sy'n methu ag ymrwymo i ddiwrnodau llawn oddi ar y rheng flaen.

Roedd awgrym hefyd y byddai sicrhau bod rhai elfennau o hyfforddiant ar gael yn genedlaethol yn cefnogi rhanbarthau i ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau a'u hanghenion lleol, gan leihau'r capasiti sydd ei angen i gefnogi wrth estyn y dechnoleg allan yn eang. Roedd technegau effeithiol eraill ar gyfer rhannu dysgu yn cynnwys gosod Copilot fel eitem sefydlog ar agendâu, a'i chynnwys mewn cyfarfodydd rheoli gweithredol.

Un maes sylweddol lle gallai fod risgiau potensial yw lle nad yw defnyddwyr yn gwybod sut i ddefnyddio Copilot yn effeithiol. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant effeithiol cyn estyn Copilot allan. Yn rhan o'r prosiect hwn, datblygwyd cyngor defnyddiol i ymarferwyr ac mae yn Atodiad C.

Mynegodd cyfranogwyr y Rhwydwaith Hyrwyddwyr barodrwydd i ystyried dulliau hyfforddi'r hyfforddwr, i gefnogi'r lledaeniad, ar raddfa genedlaethol. Mae rhai awdurdodau lleol wedi dechrau datblygu eu deunyddiau hyfforddi eu hunain y gellid eu rhannu, er enghraifft pecyn sefydlu i ddechreuwyr newydd sy'n cynnwys llythrennedd digidol ac sy'n cwmpasu sgiliau ac offerynnau digidol sylfaenol. Mae un awdurdod lleol wedi datblygu porth pecyn cymorth deallusrwydd artiffisial, sy'n cynnwys offeryn cyfieithu ac adnoddau eraill y gall staff eu defnyddio. Awgrymwyd gwneud rhai elfennau yn orfodol cyn cael cymeradwyaeth fel defnyddiwr, er mwyn diogelu cydymffurfiaeth â chanllawiau a rheoliadau priodol.

Awgrymwyd hefyd y gellid cydgrynhoi'r dysgu o ardaloedd a meysydd sydd eisoes yn defnyddio Copilot i greu Canllaw Arfer Da, a allai esblygu wrth i ranbarthau fagu mwy o brofiad o ddefnyddio'r dechnoleg yn ymarferol.

## Templedi, Senarios Defnyddio a Phromptiau

Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn datblygu templedi a senarios defnyddio i'w cefnogi i weithredu. Mae un awdurdod lleol wedi datblygu senarios ar gyfer cymryd cofnodion, crynhoi dogfennau, llunio adroddiadau drafft a defnyddio Copilot i lunio negeseuon e-bost yn Outlook. Mae un arall wedi datblygu tri thempled ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, ar gyfer asesu a chofnodi achosion, y gellid eu defnyddio gyda Copilot.

Roedd awgrym y byddai datblygu templed achos busnes ar gyfer buddsoddi i arbed, yn cefnogi rhanbarthau i ofyn am gyllid i fabwysiadu'r dechnoleg.

Yn rhan o weithgareddau'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr a Sesiynau Grŵp Ffocws Ymarferwyr, datblygwyd cyfres o bromptiau i gefnogi'r defnydd priodol o Copilot. Yn ogystal, datblygwyd canllaw defnyddiol gydag awgrymiadau ar gyfer datblygu promptiau a defnyddio Copilot. Mae'r rhain yn Atodiadau B a C. Un fantais fawr o ddefnyddio'r promptiau hyn yw'r sicrwydd eu bod yn briodol ac wedi cael eu profi.

Roedd y mewnbwn gan grwpiau ffocws yn amhrisiadwy, fel cymorth i ddeall barn ymarferwyr am senarios defnyddio posibl. Mynegodd cyfranogwyr fod rheoli gwybodaeth yn gallu eu gorlethu ar adegau, gyda'r holl weithgarwch, tystiolaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau yn gorfod cael eu cofnodi, a dyblygu mewnbynnu data ar draws systemau.

Mae tynnu adnoddau fel adroddiadau a chrynodebau at ei gilydd hefyd yn heriol oherwydd swmp y wybodaeth. Oherwydd y gofyn i weithio'n gyflym, mae'n rhaid cywain gwybodaeth yn gyflym i gefnogi

swyddogaethau fel trosglwyddo dyletswydd neu reoli sefyllfaoedd o argyfwng.

Dywedodd rhai o’r rheolwyr eu bod yn defnyddio Copilot yn barod ar gyfer gweithgarwch archwilio, a’i bod yn fuddiol ar gyfer syntheseiddio gwybodaeth a dadansoddi gwybodaeth, tynnu themâu allan a phori trwy setiau data mawr er mwyn llunio adroddiad, ac er bod hyn yn fwy cysylltiedig â swyddogaeth reoli, mae’n senario lle gallai’r dechnoleg gael ei defnyddio.

Yn ystod y sesiynau, roeddem yn awyddus i reoli disgwyliadau a phwysleisio, er nad oes rhyngwyneb rhwng Copilot a systemau rheoli gwybodaeth awdurdodau lleol ar hyn o bryd, fod yna gyfle o hyd i ddefnyddio'r offerynnau i arbed amser ac i helpu i leddfu'r straen.

Ar sail yr atebion Slido, a'r materion a godwyd yn ystod y trafodaethau, roedd ffocws yr ail sesiwn ar ddatrysiadau trwy arddangosiadau byw, ar y themâu canlynol, i ddangos sut y gallai Copilot gefnogi rhai o'r heriau a gyflwynwyd. Ceir crynodeb o'r themâu isod:

- **Crynhoi negeseuon e-bost** – cael Outlook i weithio’n fwy effeithlon i roi sylw i’r swmp o negeseuon a ffiltro cynnwys yn effeithlon.
- **Paratoi Nodiadau Ymweliadau** – defnyddio Copilot i greu nodiadau achos/ymweliadau o bwyntiau bwled (gan ddefnyddio’r enghraifft o gynnal sawl ymweliad a chael y nodiadau cyfredol bras a wnaed rhwng ymweliadau); neu o nodiadau wedi'u recordio ac yna defnyddio Copilot i'w strwythuro a rhoi rhywfaint o 'gig ar yr esgyrn’).
- **Crynhoi Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd** – gan gynnwys rhestru gweithgarwch yn gronolegol a chrynhoi gwybodaeth
- **Paratoi Asesiadau** – tynnu gwybodaeth at ei gilydd o sawl ffynhonnell
- **Crynodebau o Gyfarfodydd** – defnyddio swyddogaethau Teams i ganolbwyntio ar rannau penodol o drafodaeth; crynhoi; neu chael trosolwg os nad oeddech yn y cyfarfod.
- **Paratoi ar gyfer y Panel** – tynnu ar sawl ffynhonnell wybodaeth i goladu adroddiad.

Defnyddiwyd yr offeryn digidol, Slido, hefyd gyda chyfranogwyr y grŵp ffocws, i annog trafodaethau rhyngweithiol a oleuodd y canfyddiadau cyffredinol am barodrwydd y gweithlu, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddatblygu templedi a senarios defnyddio i lywio ymarfer.

Un o allbynnau allweddol y prosiect oedd datblygu promptiau penodol, y gallai ymarferwyr sy'n dewis defnyddio Copilot eu defnyddio i gefnogi eu maes gwaith. Mae'r promptiau hyn yn enghreifftiau defnyddiol o sut i sicrhau bod Copilot mor effeithiol â phosibl yn un o'r tri maes gofal cymdeithasol y mae'r prosiect wedi'u harchwilio. Ceir rhestr o'r promptiau, ac esboniad am y defnydd ohonynt, yn Atodiad B, ynghyd â dolenni at fideos byr sy'n esbonio sut y gellir defnyddio'r rhain yn ymarferol.


### Y Rhwydwaith Hyrwyddwyr

Roedd teimlad cryf fod dod ag awdurdodau lleol at ei gilydd ar ffurf Rhwydwaith Hyrwyddwyr yn gam defnyddiol, i’w groesawu, tuag at gyd-ddealltwriaeth o'r cyfleoedd y mae CoPilot yn eu cyflwyno, yn ogystal â chyfle i gydweithio i ystyried atebion unwaith-i-Gymru. Roedd y Rhwydwaith hefyd yn gyfle i ddysgu gan sefydliadau sydd ymhellach ymlaen ar eu taith gyda Microsoft Copilot ac i rannu syniadau am oresgyn rhwystrau.

'Ffrwyno brwdfrydedd staff sydd â diddordeb, a'u cynnwys ar gam cynnar, er mwyn ennill calonnau a meddyliau'


Ar ôl y pedair sesiwn a gynhaliwyd yn ystod yr adolygiad hwn, dosbarthwyd arolwg byr i fesur y diddordeb mewn parhau â’r fforwm y tu hwnt i oes y prosiect hwn.

**Siart 5: Arolwg y Rhwydwaith Hyrwyddwyr – Profiad o'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr**




Adroddodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a ymatebodd i'r arolwg brofiad da neu ardderchog o'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr.

**Siart 6: Arolwg y Rhwydwaith Hyrwyddwyr – Diddordeb mewn Parhau â'r Rhwydwaith yn y Dyfodol**




Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r Rhwydwaith barhau y tu hwnt i oes y prosiect.

Isod mae detholiad o ddyfyniadau gan gyfranogwyr:

> 'Mae'r Rhwydwaith wedi bod yn gyfle gwych i ymgysylltu â'r gweithlu ehangach ynghylch offerynnau deallusrwydd artiffisial a dechrau'r sgwrs – yr hyn sy'n cyfyngu yw bod pob Awdurdod Lleol ar gam gwahanol ar eu taith, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd mesur effaith y Rhwydwaith ar ein Hawdurdod Lleol.'

> 'Mae budd rhannu gwybodaeth, profiad a thaith Awdurdodau Lleol eraill yn hanfodol.'
>
> 'Mae'r Rhwydwaith yn ddefnyddiol i roi trosolwg o ddeallusrwydd artiffisial ar lefel fwy cenedlaethol ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a datblygiadau. Heb os, bydd materion yn codi wrth estyn y dechnoleg allan ac felly byddai trafod a thaflu syniadau gydag awdurdodau eraill sydd ar gamau gwahanol yn y broses o estyn y dechnoleg allan, yn ddefnyddiol iawn.'

Ceir rhagor o fanylion am y cwestiynau a holwyd yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith Hyrwyddwyr yn Atodiad A.

### Cefnogaeth barhaus trwy gydol y broses weithredu

Ar ôl yr hyfforddiant cychwynnol, rhestrodd ymatebwyr yr arolwg pa fathau o gymorth parhaus fyddai fwyaf buddiol.

Roedd yr adnoddau hyn yn cynnwys:

- > 73% Mynediad at dîm cymorth fel y Rhwydwaith Hyrwyddwyr
- > 70% Cyrsiau adnewyddu rheolaidd
- > 47% Grwpiau cymorth cymheiriaid
- > 40% Fforymau neu gymunedau ar-lein
- > 5% Arall

Un o'r adnoddau a grybwyllwyd amlaf, a fyddai'n ddefnyddiol, oedd mynediad at gymorth parhaus trwy weithwyr cymorth sy'n cerdded y llawr a grwpiau cymorth cymheiriaid. Mae gan un awdurdod lleol 'dîm gweithio symudol ystwyth' sy'n gallu ymateb i unrhyw anghenion TG yn ogystal â chynnig cymorth technegol i ymarferwyr.

Roedd ambell gyfranogwr yn eirioli dros ystyried cymorth allanol, gan ddod ag arbenigedd ar reoli newid neu dechnoleg i mewn i gefnogi'r broses o estyn y dechnoleg allan, pan fo'r capasiti mewnol yn gyfyngedig. O'r awdurdodau lleol hynny a ddywedodd eu bod yn agosach neu ar y lefel parodrwydd 'gwyrdd', roedd mewnbwn gan weithwyr â sgiliau penodol fel adnoddau dynol, Diogelu Data, cymorth digidol a chymorth dadansoddwyr busnes.

> Byddai angen cymorth o'r tu allan oherwydd mae'r tîm wedi'i ymrwymo i brosiect arall ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen cydweithio â thîm TG corfforaethol neu ymgynghorwyr.

Yn olaf, cydnabuwyd y byddai angen mynd ati i fabwysiadu'r dechnoleg mewn ffordd sy'n cynnwys cyfleoedd rheolaidd i adolygu ac addasu trwy gydol y cyfnod gweithredu. Teimlwyd mai'r hyblygrwydd hwn oedd un o'r ffactorau llwyddiant i awdurdodau lleol a oedd wedi cael mwy o lwyddiant yn y gorffennol gyda gweithgarwch trawsnewid technolegol.

## 6. Adolygu Polisïau a Chydymffurfiaeth

Trwy gydol y cyfnod asesu parodrwydd, roedd y maes lle mynegodd awdurdodau lleol eu bod yn teimlo leiaf hyderus yn ymwneud â'r fframwaith llywodraethu i gefnogi'r defnydd o Copilot. Nid oedd y rhan fwyaf o ranbarthau wedi datblygu polisïau eto i gyd-fynd â deddfwriaeth briodol a theimlent yn ansicr am y ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn. Roedd rhai enghreifftiau o gynnydd – mae un awdurdod lleol wedi datblygu polisi defnydd derbyniol.

Mynegodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y byddent yn croesawu canllawiau a chymorth ar lefel genedlaethol ar gyfer datblygu polisïau deallusrwydd artiffisial. Roedd awgrymiadau ynghylch alinio polisïau deallusrwydd artiffisial â strategaethau digidol ehangach, GDPR a deddfwriaeth ynghylch cydsynio, yn ogystal ag adolygu canllawiau ynghylch archwilio, archifo ffeiliau a storio data.

Nododd awdurdodau lleol fod sefydlu prosesau sy'n hawdd eu dysgu, a'u dilyn, yn ffactor pwysig iawn wrth benderfynu pryd i fwrw ymlaen i fabwysiadu'r dechnoleg.

> Mae angen gosod paramedrau, disgwyliadau, rolau a chyfrifoldebau clir.

Maes arall a oedd yn bwysig iawn ym marn sefydliadau oedd pwysleisio bod perchnogaeth dros gofnodion yn gyfrifoldeb i'r ymarferydd, a'r gofyniad i rywun sicrhau ansawdd cynnwys a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial cyn ei ddefnyddio. Fel yr eglurwyd gan un cyfranogwr,

> Mae angen adeiladu mesurau diogelu i mewn i'r fframwaith ansawdd, er mwyn sicrhau bod staff yn adolygu ac yn gwirio dogfennau a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial. Er enghraifft, mae angen i'r tîm sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod staff wedi adolygu a chymeradwyo dogfennau a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial cyn eu defnyddio'n derfynol.

Nodwyd bod rhai o'r newidiadau a fyddai'n dod gyda deallusrwydd artiffisial yn cynrychioli newid diwylliannol, yn union fel a ddigwyddodd wrth newid o gofnodion papur i gyfrifiaduron. Er enghraifft, gallai recordio galwadau herio barn am breifatrwydd a ffyrdd o weithio a ddaeth yn draddodiadol o drafodaethau wyneb yn wyneb.

## Casgliadau o'r Asesiadau o Barodrwydd y Gweithlu

Mae yna botensial sylweddol i ddeallusrwydd artiffisial gefnogi ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol i oedolion i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol, ac i leihau baich gweinyddol arferion gwaith bob-dydd. Mantais hyn fyddai gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a rhyngweithio rhwng pobl, ac, yn y pen draw, canlyniadau gwell a phrofiad o ansawdd gwell i'r bobl sy'n cael cymorth. Mae'r dirwedd wleidyddol ehangach yn cofleidio technoleg ac yn annog arloesi a mabwysiadu technoleg yn weithgar, ar lefel Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Er bod rhai sectorau wedi bwrw ymlaen, mae maes gofal cymdeithasol wedi bod yn fwy petrus hyd yn hyn. Efallai y bydd awdurdodau lleol Cymru yn dymuno edrych ar wasanaethau cyhoeddus eraill er mwyn deall unrhyw bensaernïaeth lywodraethu sydd yn ei lle wrth ddatblygu eu pensaernïaeth lywodraethu eu hunain, ac ystyried dulliau unwaith-i-Gymru.

Amlygodd ein hasesiadau o barodrwydd awdurdodau lleol Cymru ymagwedd ofalus ond croesawgar gan fwyaf, at y syniad o fabwysiadu Microsoft Copilot yn eang. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn teimlo bod y gweithlu yn barod am y newid, ond bod angen cymorth ac adnoddau ychwanegol arnynt er mwyn sicrhau llwyddiant. Mae asesiadau digidol yn tynnu sylw at y ffaith fod yr isadeiledd TG sylfaenol yn ei le i hwyluso'r broses fabwysiadu. Fodd bynnag, bydd gofyn i dimau digidol a chorfforaethol gynnal gweithgarwch parodrwydd ychwanegol mewn rhai rhanbarthau er mwyn sicrhau diogeledd a diogelwch defnyddio'r dechnoleg, ac i wneud y mwyaf o'r potensial. Gydag amrywiadau rhanbarthol anochel, a rhai rhanbarthau eisoes ymhell ar eu taith o fabwysiadu'r dechnoleg, mae yna botensial sylweddol i ddysgu o gynlluniau peilot cynnar a gweithgareddau cynnar, ac i ystyried dull gweithredu unwaith-i-Gymru a fydd yn gymorth i symud ymlaen yn gyflym. Roedd y ffactorau llwyddiant allweddol a nodwyd i hwyluso'r broses fabwysiadu yn cynnwys cefnogaeth cydweithwyr sy'n uwch-reolwyr, a chynnwys arweinwyr o adrannau Adnoddau Dynol, digidol a gofal cymdeithasol o'r dechrau'n deg. Roedd cynnwys gweithwyr i helpu i ddylanwadu ar weithgarwch, a ffurfio gweithgorau, ochr yn ochr â hyrwyddwyr penodedig, hefyd yn ffactor cryf wrth fwrw ymlaen â dull unedig a sicrhau cymorth parhaus cryf ar draws ffiniau sefydliadau.

Rydym wedi dysgu bod y rhan fwyaf o ymarferwyr a rheolwyr yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio offerynnau digidol yn eu gwaith bob-dydd. Fodd bynnag, mae llai yn gyfarwydd â MS Copilot, ac mae gan rai amheuon amdani a hoffent wybod mwy. O'r rhai sydd eisoes yn defnyddio Copilot, maent yn mynegi profiad ac effeithiau cadarnhaol, er ei bod yn rhy gynnar o hyd i werthuso'n llawn sut y mae'n effeithio ar dîmau mewn ardaloedd peilot. Roedd barn glir hefyd y byddai gan fathau gwahanol o ymarferwyr a thimau anghenion gwahanol, o ran hyfforddi a gweithredu. Am y rhesymau hyn, bydd

angen i awdurdodau lleol ledaenu ymwybyddiaeth am y dechnoleg, yn ogystal â hwyluso deialog â meysydd ymarfer penodol, er mwyn deall eu potensial yn well.

Mae ystyriaethau moesegol yn cynnwys yr angen i sicrhau bod y berthynas sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn parhau i fod yn ganolog i ryngweithiadau â’r bobl sy'n cael gofal a chymorth, yn unol â'r cod ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol. Ni ddylid gweld deallusrwydd artiffisial fel rhywbeth i gymryd lle’r cyswllt hwn o gwbl. Mae angen ystyried materion cydsyniad, er enghraifft pryd i ddweud wrth bobl am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial, a phryd mae angen cydsyniad gwybodus, yn ogystal â sut i reoli buddiannau gorau mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol i gydsynio i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial.

Roedd cytundeb cyffredinol bod yn rhaid i'r ymarferydd gadw cyfrifoldeb dros gofnodion sy'n ymwneud â'u llwyth achosion, a bod yn rhaid iddo sicrhau ansawdd yr holl gynnwys, yn hytrach na dibynnu ar ddeallusrwydd artiffisial i greu cofnodion cywir. Bydd angen rhoi proses ar waith i nodi'n glir y dogfennau hynny sy'n dal i fod yn fersiynau drafft gan ddeallusrwydd artiffisial a'r rhai sydd wedi'u cadarnhau fel dogfennau priodol. Yn ogystal, roedd cytundeb cyffredinol na ddylai Copilot gymryd lle swyddi, ond yn hytrach dylai ei gweld fel offeryn i gefnogi pobl yn eu rôl.

Mae heriau posibl yn cynnwys yr angen am gyllid digonol i gael trwyddedau, ac i ddangos arbedion cost buddsoddi i ddangos gwerth am arian.

Pryder penodol oedd y galluoedd Cymraeg a oedd wedi eu tan-ddatblygu o gymharu â’r Saesneg, am nad oedd modelau iaith mawr yn ddigon soffistigedig eto i gynhyrchu trawsgrifiadau a chynnwys o ansawdd uchel. Mae un awdurdod lleol wedi gallu gweithio o gwmpas hyn gan ddefnyddio eu tîm cyfieithu Cymraeg i sicrhau ansawdd deunyddiau a gynhyrchwyd gan Copilot yn syth ar ôl eu creu, a thrwy hynny osgoi unrhyw oedi cyn defnyddio deunyddiau. Ond hefyd mae’n dal i gymryd llai o amser na’r ffordd arferol o gyfieithu, gan fod y dechnoleg wedi creu amlinelliad o’r gwaith.

Maes arall lle mae gan awdurdodau lleol ddiffyg hyder ar hyn o bryd, yw datblygu polisïau a threfniadau llywodraethu priodol. Wrth i'r fframwaith deddfwriaethol esblygu o amgylch y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial, bydd angen i sefydliadau aros ar flaen y datblygiadau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â rheoliadau fel GDPR a chyfreithiau eraill y DU sy'n dod i'r amlwg. Gofynnwyd yn benodol fod awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi gan gyrff cenedlaethol er mwyn ffeindio’u ffordd trwy’r dirwedd hon sy’n esblygu, ac i sicrhau cydymffurfiaeth a defnydd priodol. Mae rhai awdurdodau lleol eisoes wedi ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch yn y maes hwn a dylid rhannu dysgu cynnar gydag eraill, i gefnogi’r broses o fabwysiadu’r dechnoleg yn eang.

Mewn rhai awdurdodau lleol, bydd angen adnoddau a buddsoddiad ychwanegol ar isadeiledd TG i sicrhau defnydd priodol o Copilot, ac mae angen rhagor o wybodaeth am y rhyngwyneb rhwng Copilot a systemau rheoli achosion a chymwysiadau meddalwedd sydd eisoes yn bodoli.

Gair o rybudd ynglŷn â'r angen am hyfforddiant priodol – mae'n sicr yn bosibl defnyddio technoleg fel Copilot yn anghywir, a thrwy hynny gynhyrchu risgiau posibl i ddiogeledd data yn anfwriadol. Mae'n bwysig fod y rheiny a fydd yn defnyddio'r dechnoleg yn cael hyfforddiant llawn a phriodol i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu cadw i leiafswm, ochr yn ochr â gweithgarwch yn y cefndir gan dîmau digidol i ddiogelu cofnodion a gwybodaeth. Mae datblygu promptiau yn un ffordd o sicrhau bod Copilot yn cael ei defnyddio mor effeithiol â phosibl. Dylai awdurdodau lleol gael eu harwain gan eu hasesiadau o barodrwydd digidol, i gefnogi gwaith rheoli risg cadarn yn y maes hwn, a dylid ystyried hyfforddiant sylfaenol rhanbarthol neu genedlaethol a fyddai'n helpu i’w defnyddio’n ddiogel.

Er bod cytundeb ymhlith cyfranogwyr, i raddau helaeth, y byddai cyflwyno Copilot yn gwella amodau gwaith gydag amser, mynegodd awdurdodau lleol bryder am y capasiti, ymlaen llaw a pharhaus, o ran yr adnoddau a fyddai’n angenrheidiol i gefnogi gweithgarwch trawsnewid ar adeg o heriau cystadleuol – a'r effeithiau posibl ar wasanaethau sydd eisoes dan straen. Mewn rhai achosion, teimlwyd y gallai

fod yn ddoeth dod ag arbenigedd allanol i mewn ar gyfer trawsnewid technolegol a rheoli newid, er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau pwrpasol ar gael i fwrw ymlaen â mabwysiadu.

Roedd y gwersi a ddysgwyd o brosiectau digidol blaenorol yn cynnwys yr angen am hyfforddiant wyneb yn wyneb, yn ogystal â digon o gyfleoedd i gael mynediad at gymorth, fel gweithwyr sy’n cerdded y llawr a fersiynau 'blwch tywod' sy'n galluogi pobl i ddefnyddio’r dechnoleg yn ddiogel. Er bod y rhan fwyaf o staff yn teimlo bod ganddynt lythrennedd digidol sylfaenol, bydd eu sgiliau a’u hanghenion yn amrywio a bydd gofyn ystyried hynny.

Byddai cefnogaeth barhaus Rhwydwaith Hyrwyddwyr yn sicrhau bod cyfleoedd i weithio ar y cyd yn cael eu huchafu, ac y gellir rhannu’r dysgu yn ogystal â datblygu adnoddau fel y promptiau a’r senarios defnyddio ledled Cymru. Bydd hyn yn golygu bod modd gweithredu’n gryfach a bydd yn lleihau’r dyblygu. Bydd y Rhwydwaith hefyd yn gyfle i archwilio ystyriaethau moesegol allweddol yn fanylach ac yn galluogi gwaith datrys problemau wrth i'r gwaith aeddfedu.

# Asesiad o Barodrwydd Digidol

Cynigiwyd cyfle i bob un o'r 22 awdurdod lleol i gael asesiad digidol gan Stable. Roedd y broses yn golygu profi parodrwydd mewn dau barth, gan ddefnyddio safonau 'arfer gorau' Microsoft i asesu'r diogelwch a'r lefel weithredol y gellid ei chyflawni gyda Copilot.

Cyfarfu pymtheg awdurdod lleol â pheirianyddion Stable i wneud y gwiriadau a chawsant adroddiad lleol wedi'i deilwra'n arbennig a set o argymhellion. Nid oedd saith awdurdod lleol arall wedi gallu darparu data ar gyfer yr asesiad o fewn yr amserlenni ar gyfer y prosiect, neu dewisont beidio â chymryd rhan yn yr asesiadau. Aseswyd dau faes - y meddalwedd Copilot ei hun a sut yr oedd wedi'i ffurfweddu, a'r amgylchedd Microsoft 365 ehangach y mae'n rhyngweithio ag ef, gan gynnwys gosodiadau SharePoint.

Mae Gwiriad Iechyd Parodrwydd Microsoft 365 Copilot gan Stable yn deillio o set o argymhellion arfer gorau Microsoft ar gyfer ffurfweddu Microsoft 365 Copilot mewn ffordd ddiogel sy'n cydymffurfio. Gall sefydliadau benderfynu, ar sail eu hanghenion, beth yw'r 'llwybr' mwyaf perthnasol ar gyfer mabwysiadu Copilot. Yna, mae'n nodi'r offerynnau a'r gwasanaethau sy'n gorfod bod yn eu lle er mwyn cefnogi'r llwybr hwnnw.

Er mwyn mabwysiadu Copilot yn llwyddiannus mae gofyn diogelu tirwedd diogeledd gwybodaeth iach.

Mae'r Gwiriad Iechyd Microsoft 365 eang (sy'n deillio o ganllawiau aliniad ffurfweddu diogel NCSC / Microsoft) a gynhaliwyd, yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiogeledd tenantiaid Microsoft yn gyffredinol. Dyma pam mae pwyslais sylweddol ar fesurau ac argymhellion diogeledd.

Wrth ystyried parodrwydd Copilot, mae amgylchedd iach ar gyfer Copilot yn fan gwybodaeth a reolir yn iach. Dyna pam mae croestoriad cryf rhwng y ddau. Mae manteision y gwiriad iechyd i agweddau ar ofal cymdeithasol yn gysylltiedig â ffurfweddu Microsoft 365 cyffredinol yr awdurdodau lleol, ynghyd â sut mae'r wybodaeth ynddi yn cael ei chynnal. Mae'r cyd-destun hwn y mae deallusrwydd artiffisial yn gweithredu ynddo yn cael ei guradu gan brosesau rheoli gwybodaeth yr awdurdod lleol, sy'n anelu at gael gwared ar broblemau gyda systemau rheoli data.

## Parodrwydd Digidol yn Gyffredinol

Mae'r gweithgarwch parodrwydd technegol wedi'i grwpio i dri chategori gan Microsoft, sef:

**Gwaelodlin:** Mae'r lefel hon yn sicrhau bod y gofynion sylfaenol yn cael eu bodloni. Mae'n cynnwys ffurfweddu a gosodiadau sylfaenol sy'n caniatáu i Copilot weithredu o fewn sefydliad. Gallai hyn gynnwys sefydlu'n gychwynnol, hyfforddiant sylfaenol i ddefnyddwyr, a sicrhau bod integreiddiadau hanfodol yn eu lle.

**Craidd:** Ar y lefel hon, mae'r sefydliad wedi symud y tu hwnt i'r pethau sylfaenol ac wedi gweithredu nodweddion ac optimeiddio mwy datblygedig. Mae hyn yn cynnwys mesurau diogelwch gwell, rhaglenni hyfforddi mwy cynhwysfawr i ddefnyddwyr, ac integreiddio gwell gydag offerynnau a llifoedd gwaith eraill.

**Y Gorau yn y Grŵp:** Mae hyn yn cynrychioli'r lefel uchaf o barodrwydd. Mae sefydliadau ar y lefel hon wedi optimeiddio'u defnydd o Copilot yn llawn, gan drosoli pob nodwedd ac integreiddiad sydd ar gael i wneud y mwyaf o'i chynhyrchiant a'i heffeithlonrwydd. Mae hyn yn cynnwys dadansoddeg uwch, ffurfweddu wedi'i deilwra, a phrosesau gwella parhaus i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Bydd gofyn i bob sefydliad wneud penderfyniadau ynghylch pa lefel maen nhw'n dymuno anelu ati. Mae'n bosibl gweithredu Copilot yn ddiogel ac yn effeithiol heb gyrraedd y categori 'Gorau yn y Grŵp'.

Ceir rhagor o fanylion am bob un o'r lefelau parodrwydd trwy gydol yr asesiad, i helpu i ddeall yr hyn sydd ymhob categori.

## Mathau Gwahanol o Drwyddedau

Mae dau fath o drwydded y gall sefydliadau eu prynu i gefnogi nodweddion gwahanol Copilot; sef Microsoft 365 E3 a Microsoft 365 E5. Er mwyn bodloni'r safonau gwaelodlin a'r rhan fwyaf o safonau craidd, mae trwydded E3 yn ddigon, er efallai y bydd gofyn gwneud mwy o waith i baratoi systemau TG gyda thrwyddedau safonol. Er mwyn cyrraedd lefel Y Gorau yn y Grŵp, rhaid i ddefnyddwyr gael trwyddedau lefel E5. Mae gan drwyddedau Lefel E5 fwy o swyddogaethau ac awtomeiddio, ac felly mae'r gwaith paratoi yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, y trwyddedau hyn sydd fwyaf costus, a bydd gofyn i awdurdodau lleol benderfynu yn y lle cyntaf pa drwydded sy'n ddigon i fodloni eu hanghenion. Mae Microsoft 365 Copilot ei hun tua £24 y defnyddiwr y mis. Mae tabl sy'n dangos nodweddion cyffredinol trwyddedau E3 o'u cymharu ag E5 yn Atodiad F.  Dylid nodi bod pob defnyddiwr sydd â thrwydded E3 yn cael mynediad at fersiwn rhad ac am ddim o Copilot.

Ystyriaeth arall o fewn yr amgylchedd ehangach y mae Copilot yn gweithredu ynddo yw pa lefel o SharePoint i'w phrynu - mae'r opsiynau yn cynnwys 'Standard', sydd wedi'i gynnwys yn Microsoft 365, a 'Premium', am gost ychwanegol fesul defnyddiwr, y mis. Mae cael trwydded SharePoint Advanced Management yn ofyniad i fodloni'r holl weithgarwch / mesurau rheoli yn lefelau gweithredu Craidd a Gorau-yn-y-Grŵp. Rhywbeth i'w gofio yw y byddai angen trwydded ar bob defnyddiwr unigol ar gyfer SharePoint, a gallai hynny fod yn gost fawr, ond mae modd prynu trwyddedau E3 / E5 mewn niferoedd bach ar gyfer swyddogaethau mwy datblygedig. Ar hyn o bryd nid oes gan unrhyw awdurdodau lleol SharePoint Advanced Management ar waith.

**Tabl 3: Y trwyddedau sy'n ofynnol er mwyn defnyddio'r dechnoleg i'r eithaf ar bob llwybr**

| Llwybr | Trwydded | SharePoint Advanced Management |
|---|---|---|
| Gwaelodlin | E3 | Na |
| Craidd | E3 | Oes |
| Y Gorau yn y Grŵp | E5 | Oes |

Mae Tabl 4 isod yn dangos bod gan hanner yr awdurdodau lleol a aseswyd drwyddedau lefel E3 yn barod, a bod gan hanner drwyddedau lefel E5. Yn ogystal, cyflwynir mesur 'sgôr ddiogel' system Microsoft 365, sef gwerth a gynhyrchir gan y system i roi cipolwg ar ddiogelwch y system Microsoft 365.

**Tabl 4: Lefelau trwyddedau sydd gan yr awdurdodau lleol a fu'n cymryd rhan a'r Sgôr Ddiogel wrth asesu**

| Labeli Rhes | Nifer yr awdurdodau lleol | Sgôr Ddiogel Ddiofyn | Cyfartaledd  Sgôr Ddiogel awdurdodau lleol |
|---|---|---|---|
| E3 | 8 | 38% | 44% |
| E5 | 8 | 52% | 62% |
| **Cyfanswm** | **16** | | **51%** |


Bydd angen trwydded E3 neu E5 ar bob awdurdod lleol i allu defnyddio Copilot – mae gan y pymtheg awdurdod lleol a gwblhaodd yr asesiad y trwyddedau hyn yn eu lle yn barod. Un peth i'w ystyried yw

nad oes angen y drwydded uchaf ar bob defnyddiwr Copilot os yw'n dymuno actifadu'r nodweddion. Mae'n bosibl prynu trwyddedau er mwyn i'r defnyddwyr technegol / gweinyddol wneud gwaith paratoi a monitro'r defnydd o’r dechnoleg, ac ni fyddai angen y drwydded uwch (a mwy costus) ar ddefnyddwyr rheng flaen sylfaenol (fel gweithwyr cymdeithasol). Mae hyn yn ffactor pwysig wrth wneud penderfyniadau am brynu unrhyw feddalwedd.

## Trosolwg o Lefel Parodrwydd Awdurdodau Lleol

Mae Siart 7 yn dangos faint o'r mesurau rheoli sydd wedi'u rhoi ar waith ar bob un o'r lefelau parodrwydd, a nodir y lefel gan ddefnyddio statws coch, oren neu wyrdd. Mae'r saith colofn o ddotiau du yn cynrychioli gwybodaeth sydd ar goll - yr awdurdodau lleol hynny a oedd heb gwblhau'r asesiadau o barodrwydd digidol. Bydd pob awdurdod lleol wedi actifadu rhai nodweddion ar y lefelau parodrwydd gwahanol (er enghraifft, efallai y bydd un wedi actifadu'r holl swyddogaethau 'sylfaenol' (gwyrdd) ac ambell un o’r 'swyddogaethau craidd' (oren), ond dim un o'r nodweddion gorau-yn-y-grŵp (coch). Mae pob colofn o ddotiau yn cynrychioli awdurdod lleol. Ar y cyfan, gallwn weld bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a gafodd asesiadau gyda pheirianyddion Stable eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith paratoi i gefnogi’r defnydd o Copilot.


**Siart 7: Parodrwydd Awdurdodau Lleol ar bob lefel**




**Parodrwydd Digidol Gwaelodlin**

Yn ystod yr asesiad, rhoddwyd sgôr i bob awdurdod lleol i ddangos eu parodrwydd ym mhob un o'r parthau. Mae Siart 8 isod yn dangos sgoriau gwirioneddol a sgoriau potensial. Ar gyfartaledd, roedd awdurdodau lleol wedi cyflawni sgôr o 54 yn erbyn potensial o 92 yn yr asesiad gwaelodlin, gan ddefnyddio'r trwyddedau sydd ganddynt yn eu lle y barod.

**Siart 8: Sgôr a Chyfle i Wella - Parodrwydd digidol gwaelodlin**




Y nod gwaelodlin ar gyfer Copilot yw sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yr isadeiledd sylfaenol a'r mesurau rheoli technegol yn eu lle i weithredu a defnyddio galluoedd Copilot yn effeithiol.

- Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fynediad at yr holl fesurau rheoli technegol sy'n effeithio ar effeithiolrwydd Copilot.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r holl ddulliau y mae ganddynt hawl iddynt i baratoi.


## Parodrwydd Digidol Craidd

Mae'r llwybr hwn yn adeiladu ar y gwaelodlin trwy gyflwyno arferion llywodraethu a diogelwch ychwanegol.

Fel y dangosir yn Siart 9 isod:

- Mae'r awdurdodau lleol sydd â galluoedd y drwydded uchaf (E5) yn llwyddo i ddefnyddio 50% yn unig o'r galluoedd
- Nid oes unrhyw awdurdodau lleol wedi buddsoddi yn SharePoint Advanced Management
- Mae sawl awdurdod lleol â thrwydded E3 yn defnyddio mwy o alluoedd y cynnyrch na rhai o'r rhai sydd â thrwydded E5.

**Siart 9: Sgorio a Chyfle i Wella – Parodrwydd digidol craidd**





## Gorau-yn-y-Grŵp

Gorau-yn-y-Grŵp yw'r lefel uchaf o barodrwydd technegol. Mae'n cynnwys mesurau diogeledd a llywodraethu cynhwysfawr, er enghraifft amddiffyniad uwch yn erbyn bygythiadau, monitro parhaus, a rheoli risg yn rhagweithiol. Mae Siart 10 yn dangos bod:

- Bron pob awdurdod lleol â thrwydded E5 wedi sgorio rhywfaint yn y llwybr hwn
- Rhai awdurdodau lleol sydd â thrwydded E3 wedi sgorio yn y parth hwn

Un maes y mae angen ei archwilio yw pa fesurau rheoli sy'n gorfod bod yn eu lle er mwyn cyrraedd lefelau derbyniol o weithredu a diogelwch data ar gyfer maes gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru. Roedd hwn hefyd yn ganfyddiad allweddol yn yr asesiadau o barodrwydd y gweithle, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau a deddfwriaeth perthnasol yn ogystal â gosod safonau a disgwyliadau ar gyfer defnydd derbyniol.

**Siart 10: Sgorio a Chyfle i Wella - Parodrwydd digidol y gorau-yn-y-grŵp**




## Defnyddio Mesurau Rheoli Technegol

Aseswyd y defnydd cyffredinol o fesurau rheoli perthnasol sydd ar gael yn y platfform Microsoft 365 er mwyn mabwysiadu'r dechnoleg yn effeithlon a rheoli'r risgiau gwybodaeth yn effeithlon.

- **Rhannu**: Mae mesurau rheoli sy'n cyfyngu ar rannu cynnwys yn hanfodol i sicrhau mai dim ond defnyddwyr sydd wedi'u hawdurdodi sy'n gallu cael mynediad at ddata penodol, gan wella parodrwydd ar gyfer Copilot.
- **Labelu Sensitifrwydd**: Mae labelu ffolderi a ffeiliau sensitif yn helpu i reoli caniatâd ac yn diogelu data, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn defnyddio Copilot yn effeithiol.
- **Cadw**: Mae gweithredu polisïau cadw yn sicrhau bod cofnodion pwysig yn cael eu cadw'n briodol, gan gefnogi cywirdeb data yn Copilot.
- **Platfform**: Cysylltiadau data sylfaenol, meddalwedd gyfredol, mesurau rheoli mynediad.
- **Chwilio dan gyfyngiadau**: Mae defnyddio cyfyngiadau ar fynegai chwilio yn diogelu gwybodaeth sensitif rhag chwiliadau anawdurdodedig; mesur pwysig ar gyfer parodrwydd ar gyfer Copilot.
- **Llywodraethu**: Mae arferion diogeledd a llywodraethu cynhwysfawr, fel amddiffyniad uwch yn erbyn bygythiadau, a monitro parhaus, yn hanfodol i gynnal parodrwydd ar gyfer Copilot.
- **Atal Colli Data:** Mae mesurau Atal Colli Data yn atal gwybodaeth sensitif rhag cael ei rhannu heb awdurdod, a mae hyn yn hanfodol er mwyn gweithredu Copilot yn ddiogel.
- **Dadansoddi**: Mae trosoli dadansoddiadau yn golygu bod modd asesu'n barhaus a gwella mesurau diogelwch yn barhaus, gan sicrhau bod Copilot yn parhau i fod yn effeithiol ac yn ddiogel.

**Siart 11: Defnyddio Mesurau Rheoli Technegol i sgorio pob testun**




Mae Siart 11 yn dangos bod tua hanner y mesurau rheoli y gallai awdurdodau lleol eu defnyddio yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, bydd gofyn gwneud gwaith pellach er mwyn asesu beth yw’r lefel 'dderbyniol' wrth ddefnyddio'r mesurau rheoli, ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

Mae Stable wedi nodi rhai meysydd lle gallai awdurdodau lleol wella mesurau diogelu yn y dyfodol. Mae pob un o'r awdurdodau lleol a ddewisodd gymryd rhan wedi cael adroddiad manwl am yr argymhellion ar gyfer eu sefydliad, a disgrifir rhai o'r tueddiadau cyffredinol yn yr adran ganlynol.

## Risgiau posibl a mesurau i liniaru

**Rhannu**
O'r awdurdodau lleol sy'n defnyddio SharePoint, mae'r mwyafrif yn rhoi sylw i'r angen i rai safleoedd ddiystyrru gosodiadau rhannu’r sefydliad a’u teilwra i’r safle (tîm). Mae hwn yn sylw da i fanylder. Nid oes unrhyw un, fodd bynnag, yn defnyddio'r rhannu 'perchennog yn unig', y gellid ei warantu ar gyfer safleoedd sensitif iawn a felly risg uchel. Trwy roi hyn ar waith, bydd defnyddwyr yn gallu rhannu gwybodaeth gyda'r rheiny sydd hefyd â chaniatâd i gael mynediad at y ffeiliau, a neb arall.

Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried y gosodiadau ynghylch rhannu ffeiliau yn allanol – gellir rhoi gosodiadau amrywiol yn eu lle i gyfyngu ar y rhai sy’n gallu derbyn ffeiliau awdurdodau lleol.

**Chwilio dan Gyfyngiad yn SharePoint**
Un maes sy'n debygol o fod yn bwysig i ddiogelu gwybodaeth sensitif mewn gofal cymdeithasol i oedolion, yw sicrhau bod ffeiliau'n cael eu diogelu, ac mai dim ond defnyddwyr a ddylai gael mynediad atynt sy'n cael mynediad atynt. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi nodi eu bod eisiau i Copilot dynnu gwybodaeth o'r ffeiliau sy'n cael eu clustnodi fel rhai sy’n briodol eu defnyddio yn unig. Mae hynny'n golygu y dylid labelu ffolderi - tasg sy'n gofyn am fynd trwy'r system i farcio pob ffolder fel ffolder sensitif neu hygyrch, ar sail eu cynnwys. Gall y broses honno gymryd rhywfaint o waith ac adnoddau – a hyd nes y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud, gall awdurdod lleol ddefnyddio swyddogaeth sy'n rheoli swyddogaeth 'chwilio dan gyfyngiadau' y systemau SharePoint. Os nad yw safle sydd â gwybodaeth sensitif ynddo wedi cael ei archwilio a mesurau rheoli mewn categorïau fel rhannu wedi'u hystyried a'u cymhwyso, yna mae risg uchel y gallai’r deallusrwydd artiffisial ddefnyddio’r wybodaeth honno mewn ffordd amhriodol.

Gall pob awdurdod lleol gynnal asesiad risg fesul safle. Pasio trwy'r system a chwilio i weld a ddylai unrhyw safle gael ei restru ar y rhestr o safleoedd lle mae yna risg. Gellir cyflwyno mesurau rheoli gwahanol sy'n lliniaru'r risg o gamddefnyddio gwybodaeth ar gyfer safle penodol, o rannu caniatâd i labeli sensitifrwydd a pholisïau. Unwaith y bydd y mesurau rheoli hyn yn eu lle ar gyfer safle (os yn berthnasol), yna gellir caniatáu chwilio ar y safle a gall swyddogaethau Copilot weithio. Credir bod asesiad risg o'r fath yn arfer da fel mesur diogelu data cyffredinol mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac argymhellir gweud hynny waeth beth fo'r penderfyniadau ynghylch mabwysiadu Copilot.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw awdurdod lleol wedi actifadu nodwedd 'Chwilio dan gyfyngiadau' SharePoint, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddiffodd peiriant chwilio SharePoint – mae hyn yn atal Copilot rhag chwilio'n rhy eang, nes bod yr awdurdod lleol wedi gwneud ei waith labelu ffeiliau neu wedi gosod mesurau rheoli eraill yn eu lle. Mae'n hawdd ei osod ymlaen neu ddiffodd. Dim ond systemau gydag un defnyddiwr Copilot yn unig, sy’n gallu defnyddio’r opsiwn hwn.

Gellir gweld o'r diagram uchod nad oes unrhyw un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru a gymerodd ran wedi defnyddio swyddogaeth ‘chwilio dan gyfyngiadau’ SharePoint ar hyn o bryd. Mae'n wir y byddai hyn wedi digwydd petai pob safle wedi cael ei asesu ar gyfer risgiau, a phetai mesurau priodol wedi'u cyflwyno i reoli unrhyw risg gynhenid. Nid yw hyn yn wir, a byddai disgwyl i safleoedd â risg uchel sicrhau bod y cyfyngiad hwn ar waith.

**Labelu Sensitifrwydd**
Mae’r mesur rheoli sylfaenol hwn yn cael ei ddefnyddio i raddau amrywiol yn yr awdurdodau lleol, o ddim i dacsonomeg labelau sy’n gwbl aeddfed. Mae sawl un wedi symud tuag at defnyddio labeli ond yn aml wedi stopio yno. Mae tystiolaeth brin o arbrofion gyda labelu addasol/awtomatig, sy'n dangos addewid bod ymwybyddiaeth yn cael ei arwain yn rhai o adrannau TGCh awdurdodau lleol. Gellid datblygu tacsonomeg labelu safonol gan ddefnyddio gwaith yr awdurdodau lleol hynny sy'n arwain y ffordd yn y maes hwn.

Byddai dwy fantais i waith unwaith-i-Gymru yn y maes hwn, sef arbed amser a sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol o ran sut maen nhw'n diffinio gosodiadau diogelwch. Byddai hefyd yn golygu bod ffeiliau a rennir yn fewnol ac yn allanol i'r awdurdod lleol yn cael eu nodi'n briodol fel ffeiliau cyfrinachol neu ffeiliau wedi'u hamgryptio ar sail y cynnwys.

**Cadw**
O'r testunau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio, cadw yw'r maes sydd wedi cael ei ddatblygu fwyaf. Mae E5 yn dod â mesur rheoli sgwrsio a sianel Teams yn unig yn ddiofyn, felly mae'n hawdd ei fabwysiadu, ond mae'r testun hwn wedi bod ar feddwl gweinyddwyr Exchange ers blynyddoedd lawer, ac felly mae'n debygol fod y ddealltwriaeth ymhlith y timau digidol yn aeddfed. Efallai y byddai’n werth ystyried cymryd llwyddiant awdurdodau lleol sy’n ei wneud yn dda a chyfleu hynny ar raddfa fwy i awdurdodau lleol eraill.

**Platfform**
Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn sgorio'n uchel yn y maes hwn, sef y set sylfaenol o fesurau rheoli i gyflawni'r llwybr gwaelodlin. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn sicrhau bod Copilot yn gweithio’n sylfaenol yn dda mewn sawl maes, fel cadw trefn ar apiau Office Desktop; rheoli dyfeisiadau pwynt terfyn yn gyffredinol a chydymffurfiaeth; hunaniaeth a diogeledd defnyddwyr; yn ogystal â strwythur y sefydliad.

**Llywodraethu**
Asesir dau faes er mwyn sicrhau llywodraethu gwybodaeth priodol:

Mae **Communication Compliance** yn gweithio gyda Copilot i sicrhau bod gwybodaeth sensitif yn cael ei monitro a'i rheoli'n briodol, gan ddiogelu rhag mynediad anawdurdodedig a chamddefnyddio.

Mae **eDiscovery**, wedi'i pharu â Copilot, yn sicrhau bod gwybodaeth sensitif yn cael ei thracio, ei rheoli a'i hadalw’n ofalus, gan atal mynediad anawdurdodedig a chamddefnyddio.

Wrth sgorio yn y categori hwn rhoddwyd pwyntiau i unrhyw awdurdod lleol sy'n defnyddio’r swyddogaethau hyn o gwbl, fodd bynnag, nid oes unrhyw awdurdod lleol wedi gwneud y cysylltiad rhwng defnyddio Copilot a'r offerynnau hyn eto.

**Atal Colli Data**
Roedd amrywiaeth eang yn y defnydd o offerynnau i atal colli data ar draws awdurdodau lleol. Roedd rhai wedi sgorio'n eithaf uchel yn y maes hwn ac wedi defnyddio’r mesurau rheoli hyn yn gryf, tra bod eraill yn dal i fod ar y cam arbrofi ac yn profi i weld beth allent ei wneud. Mae potensial i awdurdodau lleol arweiniol i rannu’r dysgu gyda'r rheiny sydd ddim wedi datblygu cymaint, er mwyn cefnogi defnydd mwy cyson ohonynt a swyddogaeth atal colli data gryfach yn gyffredinol mewn awdurdodau lleol.


**Dadansoddeg**
Mae dadansoddeg yn helpu i gefnogi swyddogaethau archwilio, fel dod o hyd i safleoedd sydd ddim yn actif, monitro newidiadau, creu adroddiadau rheoli, a monitro gor-rannu posibl. Maen nhw’n offerynnau allweddol i gefnogi llywodraethu data cryf. Sgoriodd awdurdodau lleol yn wael yn y maes hwn, heb fawr o dystiolaeth i gefnogi'r defnydd o reoli dadansoddeg yn SharePoint. Mae un awdurdod lleol wedi defnyddio offeryn trydydd parti i gefnogi dadansoddeg. Caiff y rhan fwyaf o'r offerynnau hyn eu

defnyddio trwy drwydded SharePoint Advanced Management, sy'n esbonio pam mae cyn lleied wedi eu defnyddio hyd yn hyn.

Nid oes unrhyw un o'r awdurdodau lleol yn defnyddio swyddogaeth 'archwilio gweinyddol' ar hyn o bryd. Mae'r swyddogaeth hon yn botwm togl sy'n caniatáu i awdurdodau lleol dracio sut mae ffeiliau'n cael eu rhannu, ac i gael eu rhybuddio am unrhyw ddefnydd amhriodol.

Mae Siart 12 yn dangos sut y mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r swyddogaethau a ddisgrifir uchod, gyda pherfformiad wedi'i sgorio fel Coch, Oren neu Wyrdd ym mhob testun. Mae'r sgôr gyffredinol yn cynrychioli'r sefyllfa genedlaethol – mae'r maes gwyrdd tywyll yn golygu nad oes modd ei ddefnyddio gyda'r trwyddedau sydd ganddynt yn eu lle.

**Siart 12: Sgorio'r Defnydd o Fesurau Rheoli Technegol (tuedd asesu genedlaethol)**




## Casgliadau o'r Asesiadau o Barodrwydd Digidol

I grynhoi, cymerodd pymtheg awdurdod lleol ran yn y broses o asesu parodrwydd digidol yn uniongyrchol, ond nid oedd y lleill wedi gallu cwblhau'r asesiad o fewn yr amserlen neu dewisont beidio â chymryd rhan. Roedd gwahaniaethau mewn agweddau ac ymddygiadau o ran asesu digidol – roedd rhai awdurdodau lleol yn agored iawn i'r syniad o wneud y gwaith, tra bod eraill yn fwy awyddus i ddibynnu ar eu hadnoddau eu hunain i wneud hynny, ac yn llai parod i rannu gwybodaeth. Mae gan y pymtheg awdurdod lleol a gymerodd ran drwydded E3, o leiaf, ar waith ac mae hyn yn eu caniatáu i gefnogi swyddogaethau sylfaenol sy'n cefnogi Microsoft Copilot, ac mae gan bob un Microsoft 365.

Ar hyn o bryd nid oes gan un o'r awdurdodau lleol hyn drwydded SharePoint Advanced Management, sy'n golygu bod cyfyngiadau ar eu gallu i fonitro'r defnydd o Copilot. Bydd angen canllawiau i nodi pa lefel gydymffurfiaeth sy'n dderbyniol, er mwyn sicrhau diogelu data, llywodraethu a diogeledd

sylfaenol. Dylai pob awdurdod lleol gynnal asesiad risg ar draws eu ffolderi SharePoint a dylai roi cyfyngiadau ar waith sy'n cyfyngu ar ddefnydd amhriodol a rhannu ffeiliau, p'un a ydynt yn dewis mabwysiadu Copilot ai peidio yn eu gwaith bob-dydd.

Argymhellir gweithredu mewn camau. Tra bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau risg ac yn symud ymlaen gyda gweithgareddau parodrwydd 'tu ôl i'r llenni' i baratoi eu rhwydweithiau ar gyfer Copilot, gall grwpiau defnyddwyr arbenigol gefnogi wrth rannu'r hyn y mae awdurdodau lleol eraill sydd ymhellach ar y blaen, wedi ei ddysgu, er mwyn creu dulliau gweithredu a chanllawiau unwaith-i-Gymru. Dim ond ambell drwydded uwch fyddai angen eu prynu ar awdurdodau lleol er mwyn gallu gwneud y gwaith hwn. Gallai'r rheiny sy'n mynd i ddefnyddio'r system yn y dyfodol hefyd gael yr hyfforddiant a'r cymorth priodol er mwyn ymgyfarwyddo â'r dechnoleg cyn ei hestyn allan yn ehangach. Unwaith y ceir sicrwydd bod mesurau rheoli priodol ar waith, gellir cyflwyno trwyddedau yn fwy eang ar draws gofal cymdeithasol i oedolion, ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio Copilot yn eu gwaith bob-dydd (ymarferwyr rheng flaen).

Bydd angen sylw gofalus i sicrhau bod gan ymarferwyr ganllawiau ac offerynnau clir yn ogystal â chefnogaeth barhaus i ddefnyddio'r rhaglen yn briodol. Bydd gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt drefniadau monitro ac archwilio sylfaenol ar waith, i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n briodol ac efallai y byddant yn dymuno gosod paramedrau yn y cyswllt hwn – er enghraifft sefydlu sgan flynyddol i fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau. Mae'r adolygiad hwn wedi dechrau'r broses o gynhyrchu adnoddau sy'n cefnogi'r broses fabwysiadu, gan gynnwys promptiau (Atodiad B) a 'Gair o Gyngor' (Atodiad C), ynghyd ag argymhellion technegol a chyffredinol er ystyriaeth awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol.

Y gwir amdani yw na fydd mabwysiadu Copilot a gwneud y gwaith sy'n angenrheidiol i baratoi'r amgylchedd digidol i'w mabwysiadu, yn arbed costau ar unwaith. Fodd bynnag, bydd enillion ar unwaith i gefnogi cynhyrchiant ac ansawdd uwch. Mae yna botensial dros y tymor hwy i Copilot a deallusrwydd artiffisial yn gyffredinol sicrhau arbedion cost sylweddol a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau, unwaith y bydd defnyddwyr bob-dydd yn dechrau rhoi Copilot ar waith.

Bydd gofyn mynd ati mewn ffordd ystyriol wrth i awdurdodau lleol ddewis symud ymlaen gyda'r dechnoleg hon sy'n amlygu, yn ystod y misoedd nesaf, i gefnogi gofal cymdeithasol i oedolion a meysydd eraill o fewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Llywodraeth y DU newydd gyhoeddi dogfen o'r enw AI Playbook[18]. Mae'r llawlyfr hwn yn cefnogi canllawiau i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel ac yn effeithiol yng nghyd-destun gwasanaethau cyhoeddus. Mae tair neges allweddol yn yr adnodd hwn, sef, yn gyntaf, y dylid defnyddio deallusrwydd artiffisial lle mae'n ychwanegu gwerth go iawn yn unig, yn hytrach na'i ddefnyddio er mwyn ei ddefnyddio. Yn ail, bod goruchwyliaeth gan bobl go iawn yn hanfodol i sicrhau bod deallusrwydd artiffisial yn cefnogi penderfyniadau yn hytrach na chymryd lle penderfyniadau. Ac yn drydydd y dylai timau'r sector cyhoeddus gydweithio'n agored, gan rannu dysgu ac arfer gorau. Mae'r negeseuon hyn yn adleisio canfyddiadau'r rheiny sydd wedi mabwysiadu Copilot yn gynnar, ac mae'r canllaw yn adnodd defnyddiol i awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth iddynt ymgysylltu â gweithgarwch deallusrwydd artiffisial.

[18] Llywodraeth y DU. (2025) Guidance: AI Playbook for the UK Government. [Ar-lein] Ar gael ar: AI Playbook for the UK Government - GOV.UK [Gwelwyd ar 7 Mawrth, 2025].

# Argymhellion

Datblygwyd y set ganlynol o argymhellion ar sail canfyddiadau'r gwaith hwn:

## Cyffredinol

1. Argymhellir bod awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu Copilot mewn gofal cymdeithasol i oedolion yn mynd ati i'w weithredu'n raddol, gan sefydlu cynlluniau cyflawni clir, cofrestrau risgiau a mesurau rheoli ar gyfer y prosiect, i gefnogi'r broses fabwysiadu. Dylai adnodd penodol fod yn eu lle i gefnogi'r gwaith hwn.

## Ar gyfer Cyrff Cenedlaethol

### Cyffredinol

2. Argymhellir bod awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu Copilot ym maes gofal cymdeithasol i oedolion yn mynd ati mewn ffordd raddol i weithredu, gan sefydlu cynlluniau cyflawni clir, cofrestrau risgiau a mesurau rheoli ar gyfer y prosiect, i gefnogi'r broses fabwysiadu. Dylai fod adnoddau pwrpasol yn eu lle i gefnogi hyn.

### Ar gyfer Cyrff Cenedlaethol

#### Argymhellir bod:

3. Rhwydwaith Hyrwyddwyr y gweithlu, a sefydlwyd ar ddechrau'r prosiect, yn parhau i gwrdd er mwyn cefnogi'r dysgu a rhannu dulliau mabwysiadu;
4. Is-grŵp Deallusrwydd Artiffisial y Grŵp Cynghori Digidol yn cefnogi'r broses o rannu dysgu digidol a dulliau cenedlaethol o fabwysiadu, yn ogystal â thacsonomeg labelu unwaith-i-Gymru;
5. Cyrff cenedlaethol, fel Comisiwn AI Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cefnogi awdurdodau lleol gyda chyngor cyfreithiol a chanllawiau cenedlaethol, a bod dulliau hyfforddi unwaith-i-Gymru yn cael eu harchwilio o fewn y rhwydweithiau i gefnogi'r gweithredu;
6. Canllawiau Unwaith-i-Gymru yn cael eu llunio i gefnogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau am y mesurau rheoli digidol y mae'n rhaid eu hactifadu er mwyn sicrhau defnydd derbyniol o Copilot. Bydd hyn yn gofyn am fewnbwn gan gydweithwyr strategol, TG ac AD, a bydd gofyn ystyried canllawiau'r DU a Chymru sydd eisoes ar waith;
7. Cyfleoedd i ariannu trwyddedau ar y raddfa angenrheidiol yn cael eu harchwilio, a bod y sylfaen dystiolaeth i gefnogi achos busnes unwaith-i-Gymru yn cael ei datblygu;
8. Eiriolaeth dros welliannau i fodelau iaith mawr sy'n cefnogi technoleg cyfieithu Cymraeg gyda Llywodraeth Cymru a Microsoft, er mwyn sicrhau bod galluoedd yn y Gymraeg yn datblygu'n barhaus.

## Ar gyfer Awdurdodau Lleol

#### Argymhellir bod awdurdodau lleol yn:

9. Defnyddio eu hasesiadau o barodrwydd digidol ac offeryn parodrwydd digidol Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gweithgarwch sy'n paratoi'r rhwydwaith digidol at fabwysiadu Copilot;
10. Sicrhau bod defnyddwyr bob-dydd yn dilyn y cyngor am bromptiau a'r canllawiau defnyddio diogel, er mwyn sicrhau ymgysylltiad priodol â Copilot, ac i leihau'r risg o bryderon diogeledd data;

11. Cael nifer fach o drwyddedau lefel uwch i gefnogi gweithgarwch parodrwydd sy'n paratoi rhwydweithiau ar gyfer mabwysiadu’r dechnoleg. Bydd hyn yn arwain at arbedion cost ac yn sicrhau bod modd gweithredu’r dechnoleg i’r eithaf cyn ei chyflwyno'n ehangach i ddefnyddwyr bob-dydd, sy'n gallu ei defnyddio ar drwyddedau lefel is;

12. Ymchwilio ymhellach i’r posibilrwydd o integreiddio Microsoft 365 Copilot â meddalwedd sydd eisoes yn bodoli a systemau rheoli achosion;

13. Ystyried ailedrych ar y sefyllfa bob blwyddyn i fonitro cynnydd tuag at fabwysiadu Copilot;

14. Sicrhau cefnogaeth gadarn a gweladwy uwch-arweinwyr, a'u bod yn cynnwys ymarferwyr a rheolwyr wrth estyn Copilot allan;

15. Nodi cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth ac ymgysylltiad parhaus i ddefnyddwyr Copilot wrth ei defnyddio o ddydd i ddydd.

## Argymhellion Digidol Technegol

### Argymhellir bod awdurdodau lleol yn:

16. Symud o ystorfeydd ar y safle i SharePoint os nad ydynt wedi gwneud hynny’n barod;

17. Datblygu dull unwaith-i-Gymru o labelu, gan ddysgu gan awdurdodau lleol sydd ymhellach ymlaen ar eu taith i ddatblygu tacsonomeg y gellir ei defnyddio ar draws awdurdodau lleol. Gallai is-grŵp Deallusrwydd Artiffisial y Grŵp Cynghori Digidol hwyluso hyn, a dylai ystyried labelu sensitifrwydd, tagiau atal colli data a chadw ffeiliau;

18. Archwilio'r potensial i wella llywodraethu digidol, gan ddefnyddio mesurau rheoli sy'n cefnogi eu gallu i fonitro a rheoli gwybodaeth sensitif yn fwy diogel, ac sy'n cryfhau’r gallu i atal colli data.

### Ar gyfer Swyddogaethau 'Craidd', argymhellir bod awdurdodau lleol yn:

19. Defnyddio'r swyddogaeth 'archwilio gweinyddol' i fonitro diogelu data, ac i ystyried a oes angen swyddogaethau dadansoddeg er mwyn llywodraethu’n briodol;

20. Sicrhau bod rhaglenni pen-bwrdd Office yn cael eu diweddaru i sicrhau bod modd defnyddio’r nodweddion diweddaraf;

21. Galluogi swyddogaeth chwilio dan gyfyngiadau SharePoint hyd nes eu bod wedi gallu sefydlu eu labelu, i ganiatáu safleoedd defnydd uchel, risg isel yn unig;

22. Ymgymryd ag Asesiad Risgiau SharePoint, gyda stocrestr ac ymarfer mapio ar gyfer pob safle. Bydd angen adnoddau arnynt i gefnogi hyn ond bydd yn sicrhau defnydd priodol;

23. Mynd ar drywydd cydymffurfiaeth â'r swyddogaethau rheoli dyfeisiau, sy'n sicrhau bod ffonau, gliniaduron a dyfeisiau eraill yn ddiogel a bod gosodiadau o amgylch risg dderbyniol yn cael eu diffinio;

24. Gosod gosodiadau rhannu diofyn i 'view' yn hytrach nag 'edit', er mwyn cyfyngu ar bwy sy’n gallu newid ffeiliau, a bod safonau dirwyn-i-ben yn cael eu cytuno a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod dolenni a rennir yn hygyrch yn ôl yr angen yn unig;

25. Sefydlu arferion llywodraethu fel monitro a sganiau eDiscovery rheolaidd, i sicrhau bod systemau deallusrwydd artiffisial yn cael eu defnyddio'n briodol ac i fonitro seiberddiogelwch.

### Ar gyfer Swyddogaethau 'Gorau yn y Grŵp' (i awdurdodau lleol sydd â thrwyddedau E5), argymhellir:

26. Defnyddio gosodiadau deinamig sy'n seiliedig ar risg, i sefydlu proses fonitro uwch ar gyfer dyfeisiau a defnyddwyr 365;
27. Ffurfweddu gosodiadau cydymffurfio cyfathrebu i gefnogi defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial, gan ddadansoddi rhyngweithiadau Copilot yn barhaus;
28. Bod swyddogaethau awtomatig fel labelu, atal colli data a chadw yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy effeithlon.

# Atodiad A: Rhwydwaith Hyrwyddwyr – Cylch Gwaith a Chwestiynau Gwerthuso

## 1. Diben

Mae’r Rhwydwaith Hyrwyddwyr wedi'i sefydlu i gefnogi'r gwaith o asesu parodrwydd y gweithlu ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mewn perthynas â’r posibilrwydd o weithredu Microsoft Copilot i wella prosesau asesu a rheoli gofal ym maes gofal cymdeithasol statudol. Bydd y prosiect yn edrych ar dri maes 1] Pwynt cyswllt cyntaf; 2] Cynnal asesiad ar gyfer gofal a chymorth a 3] Adolygu Asesiadau.

Yn ogystal, bydd y Rhwydwaith yn cydweithio i ddatblygu promptiau penodol ar gyfer maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod Copilot mor effeithlon, cyflym ac effeithiol â phosibl yng nghyd-destun gofal cymdeithasol.

## 2. Cwmpas y Gweithgarwch

Bydd y Rhwydwaith Hyrwyddwyr yn canolbwyntio ar y gweithgareddau allweddol canlynol sy'n gysylltiedig â pharodrwydd y gweithlu a datblygu promptiau iaith:

**Asesiad o Barodrwydd y Gweithlu:**

- Casglu adborth am yr heriau cyfredol, pa mor gyfforddus y mae staff a pharodrwydd ar gyfer mabwysiadu Microsoft Copilot o fewn prosesau gofal cymdeithasol.
- Gweithio ar y cyd â thîm y prosiect i adnabod y sgiliau / hyfforddiant a'r adnoddau angenrheidiol i gefnogi parodrwydd y gweithlu.

**Rheoli Newid a Chyfathrebu:**

- Hyrwyddo nodau a manteision Copilot gan ennyn brwdfrydedd a chefnogaeth ymhlith timau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.
- Cynorthwyo i ddatblygu strategaethau rheoli newid, gan gynnwys cynlluniau cyfathrebu clir, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a strategaethau i fynd i'r afael â gwrthwynebiad.

**Datblygu Promptiau sy’n Benodol i Ofal Cymdeithasol:**

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu set o bromptiau sydd wedi eu teilwra ar gyfer maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion a fydd yn gwneud y gorau o'r defnydd o Copilot ar draws pob awdurdod lleol.
- Casglu adborth gan dîmau gofal cymdeithasol am effeithiolrwydd y promptiau a gwneud addasiadau yn ôl yr angen i gefnogi ymatebion Copilot cywir ac effeithlon.

**Adborth ac Adrodd:**

- Casglu adborth gan gydweithwyr am yr ar asesiad o barodrwydd y gweithlu.
- Rhoi diweddariadau rheolaidd i dîm y prosiect am gynnydd lleol, heriau ac argymhellion ar gyfer gwella parodrwydd y gweithlu.

## 3. Aelodaeth

Bydd pob Awdurdod Lleol yn enwebu un Hyrwyddwr i gynrychioli eu Hawdurdod Lleol yn y rhwydwaith. Yn ddelfrydol, dylai fod gan hyrwyddwyr:

- Wybodaeth a dealltwriaeth am ddarparu gofal a chymorth statudol a phrosesau rheoli gofal o fewn Timau Gwaith Cymdeithasol i Oedolion
- Gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys sgiliau presennol a sgiliau ac anghenion posibl ar gyfer y dyfodol.
- Dealltwriaeth am reoli newid yng nghyd-destun gofal cymdeithasol.
- Sgiliau cyfathrebu cryf er mwyn bod yn gysywllt effeithiol rhwng tîm y prosiect a chydweithwyr yn eu rhanbarth.
- Ffordd ragweithiol o ymdrin â thrawsnewid digidol ac yn agored i gyflwyno offerynnau sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial i brosesau gofal cymdeithasol.

## 4. Rolau a Chyfrifoldebau

**Aelodau'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr:**

- **Eiriolwr dros Barodrwydd y Gweithlu**: Bod yn eiriolwyr dros barodrwydd y gweithlu, gan sicrhau bod staff yn ystyried sut y gallent integreiddio Copilot i'w llifoedd gwaith.
- **Asesu Parodrwydd ac Adrodd Amdano**: Casglu a rhannu gwybodaeth berthnasol am sgiliau'r gweithlu, lefelau parodrwydd, ac anghenion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â Copilot.
- **Hwyluso Ymgysylltu Lleol**: Cynnwys staff lleol mewn trafodaethau am Copilot, casglu adborth, a chyfathrebu'r manteision a'r newidiadau disgwyliedig.
- **Cefnogi Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi**: Adnabod gofynion hyfforddi a datblygu staff i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio Copilot yn effeithiol ac yn hyderus.
- **Datblygu Promptiau**: Cyfrannu at greu a mireinio promptiau sy'n benodol i faes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, er mwyn gwella cyflymder, effeithlonrwydd ac effaith Copilot o fewn llifoedd gwaith gofal cymdeithasol.

**Tîm y Prosiect:**

- **Cydlynu Gweithgareddau'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr**: Rhoi arweiniad, adnoddau a chefnogaeth i weithgareddau'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr.
- **Hwyluso Cyfarfodydd a Chyfathrebu**: Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr, gan ddarparu agendâu strwythuredig a chynlluniau gweithredu. Gallai hyn gynnwys 'gweithdai' ychwanegol â ffocws i edrych ar swyddogaethau penodol.
- **Datblygu Offerynnau Asesu**: Creu offerynnau a fframweithiau i helpu Hyrwyddwyr i gasglu data am barodrwydd y gweithlu a nodi unrhyw fylchau yn yr hyfforddiant.
- **Cefnogi Datblygiad Promptiau**: Arwain datblygiad promptiau mewn cydweithrediad â'r Hyrwyddwyr er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gallu cael eu defnyddio.
- **Dadansoddi Canfyddiadau ac Adrodd Amdanynt**: Cydgrynhoi adborth a mewnwelediadau gan Hyrwyddwyr mewn adroddiad terfynol am barodrwydd y gweithlu a set o awgrymiadau wedi'u dilysu.

## 5. Cyfarfodydd a Chyfathrebu

- **Amlder Cyfarfodydd:** Bydd y Rhwydwaith Hyrwyddwyr yn cwrdd bedair gwaith yn ystod cyfnod y prosiect hwn, a bydd sesiynau grŵp ychwanegol â ffocws wedi'u trefnu yn ôl yr angen, i gefnogi cerrig milltir allweddol y prosiect
- **Fformat y Cyfarfodydd:** Cynhelir cyfarfodydd yn rhithwir i hwyluso presenoldeb gan yr holl Awdurdodau Lleol.
- **Sianeli Cyfathrebu:** Anogir hyrwyddwyr i gyfathrebu'n rheolaidd â thîm y prosiect trwy e-bost, cyfarfodydd y Rhwydwaith, gwefan ADSS Cymru, cyfryngau cymdeithasol a Chwestiynau Cyffredin
- **Dogfennaeth:** Bydd Copilot yn rhoi crynodeb a chamau gweithredu ar gyfer pob cyfarfod, gan gofnodi camau gweithredu allweddol, penderfyniadau, ac unrhyw feysydd lle mae angen gwaith dilyn i fyny.

## 6. Hyd

Bydd y Rhwydwaith Hyrwyddwyr ar waith am gyfnod cyfan prosiect asesu parodrwydd y gweithlu, y disgwylir iddo redeg tan **fis Mawrth 2025**.

## 7. Adolygiad a Diwygiadau

Bydd Cylch Gwaith y Rhwydwaith Hyrwyddwyr yn cael ei adolygu gan dîm y prosiect a'r Hyrwyddwyr er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol. Gellir gwneud diwygiadau gyda chytundeb tîm y prosiect a'r rhan fwyaf o aelodau'r Rhwydwaith.

## 8. Cyfrinachedd a Diogelu Data

Bydd yr holl Hyrwyddwyr ac aelodau tîm y prosiect yn cadw at bolisïau cyfrinachedd a diogelu data i sicrhau bod unrhyw wybodaeth sensitif a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei thrin yn gyfrifol ac yn ddiogel. Rhaid i hyrwyddwyr barchu preifatrwydd eu cydweithwyr a chadw cyfrinachedd ynghylch canfyddiadau'r asesiadau a datblygiad promptiau iaith, nes bod adroddiadau ffurfiol yn cael eu rhannu.

**Tabl 5: Trosolwg o Agendâu Cyfarfodydd y Rhwydwaith Hyrwyddwyr**

| | | |
|---|---|---|
| **2 weithdy 2 awr – I ymarferwyr a rheolwyr**<br>Yn canolbwyntio ar 1] Pwynt Cyswllt Cyntaf 2] Asesu gofal a chymorth 3] Adolygu Asesiadau<br>**Ionawr 2025** | **Cyfarfod 1 – 11 Rhagfyr 2024**<br>Trosolwg o CoPilot a'i ddefnydd ymarferol yn y maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion.<br>Ffocws y sesiwn hon fydd ennyn brwdfrydedd a thrafodaeth iach. Bydd y Rhwydwaith yn cael y dasg o gasglu ystod eang o safbwyntiau eu Hawdurdodau Lleol mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddefnyddio Microsoft Copilot. | **Cyfarfod 2 – 22 Ionawr 2025**<br>Cyfleu'r materion, yr heriau, rhannu barn ac unrhyw bryderon i'r Rhwydwaith ynghylch cymhwyso Copilot o fewn prosesau asesu gofal cymdeithasol a phrosesau rheoli gofal.<br>Y ffocws fydd gwrnado, a chynnwys yr holl safbwyntiau gan sicrhau ehangder barn ga.n bob cwr o'r ALI, gan fynd ati gynrychioli barn rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd gywir. |
| | **Cyfarfod 3 – 12 Chwefror 2025**<br>Bydd y sesiwn hon yn gyfle i wrando ar safbwyntiau /pryderon /materion a heriau a glywir yn ystod y sesiwn gynharach a bydd Stable IT yn dangos sut y gall Microsoft Copilot greu cyfres o ysgogiadau iaith i wella'r broses asesu gofal cymdeithasol a rheoli gofal. | **Cyfarfod 4 – 12 Mawrth 2025**<br>Bydd y sesiwn hon yn myfyrio ar rôl y Rhwydwaith Hyrwyddwyr, gan ddod ag unrhyw themâu allweddol a nodwyd yn flaenorol at ei gilydd a rhannu'r argymhellion lefel uchel mewn perthynas â pharodrwydd y gweithlu [ysgogiadau iaith, sgiliau / hyfforddiant/ rolau] |

### Adolygu'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr – Cwestiynau'r Arolwg Slido

Diolch am fod yn aelod allweddol o Rwydwaith Hyrwyddwyr Copilot. Byddai'n wych pe gallech chi sbario 5 munud arall o'ch amser i roi adborth strwythuredig i ni am eich profiad fel Hyrwyddwr Copilot.

**Profiad Cyffredinol**: Beth yw eich profiad cyffredinol o'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr?

- Ardderchog: Rydw i wedi cael profiad cadarnhaol iawn ac mae'r Rhwydwaith wedi bod yn fuddiol dros ben.
- Da: Mae fy mhrofiad wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol gyda rhai mân broblemau.
- Gweddol: Mae fy mhrofiad wedi bod yn un cymysg gydag agweddau cadarnhaol a negyddol.
- Gwael: Rydw i wedi cael profiad negyddol ar y cyfan ac nid yw'r Rhwydwaith wedi bod yn fuddiol iawn.

**Effaith ar yr Awdurdod Lleol**: A ydy bod yn aelod o'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr wedi cael effaith ar eich awdurdod lleol?

- Effaith Gadarnhaol Sylweddol: Mae'r Rhwydwaith wedi arwain at newidiadau a gwelliannau cadarnhaol sylweddol o fewn fy awdurdod lleol.
- Effaith Gadarnhaol Gymedrol: Mae'r Rhwydwaith wedi arwain at rai newidiadau a gwelliannau cadarnhaol.
- Dim Effaith: Nid yw'r Rhwydwaith wedi arwain at unrhyw newidiadau neu welliannau amlwg.
- Effaith Negyddol: Mae'r Rhwydwaith wedi cael effaith negyddol ar fy awdurdod lleol

**Adnoddau – Arddangosiadau Byw / Promptiau Copilot ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

- Effeithiol Iawn: Mae'r adnoddau wedi bod yn effeithiol iawn i fy helpu i ddeall Copilot a'i defnyddio yn ein hawdurdod lleol.
- Effeithiol: Mae'r adnoddau wedi bod rhywfaint yn effeithiol.
- Aneffeithiol: Mae'r adnoddau wedi bod yn aneffeithiol gan fwyaf.
- Aneffeithiol Iawn: Mae'r adnoddau wedi bod yn aneffeithiol iawn.

**Cyfathrebu a Chydweithio**:

- Ardderchog: Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio o fewn y Rhwydwaith wedi bod yn ardderchog.
- Da: Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio wedi bod yn dda yn gyffredinol.
- Gweddol: Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio wedi bod yn gymysg gydag agweddau cadarnhaol a negyddol.
- Gwael: Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio wedi bod yn wael.

**Budd Parhau â'r Rhwydwaith**: Ydych chi'n credu y byddai parhau â'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Copilot yn fuddiol?

- Cytuno'n Gryf: Rwy'n credu'n gryf y byddai parhau â'r Rhwydwaith yn fuddiol iawn.
- Cytuno: Rwy'n credu y byddai parhau â'r Rhwydwaith yn fuddiol.
- Niwtral: Does gen i ddim unrhyw farn gref ynglŷn a pha mor fuddiol fyddai parhau â'r Rhwydwaith.
- Anghytuno: Dydw i ddim yn credu y byddai parhau â'r Rhwydwaith yn fuddiol.

**Bocs testun agored** – Os ydych chi'n cytuno, rhowch unrhyw feddyliau neu awgrymiadau ychwanegol.

# Atodiad B: Promptiau Copilot

Promptiau yw'r cyfarwyddiadau neu'r cwestiynau y mae defnyddwyr yn eu hysgrifennu er mwyn dweud wrth gynorthwyydd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, fel Microsoft Copilot, pa ymateb y maen nhw'n ei ddymuno. Gall y promptiau hyn amrywio o gwestiynau syml i geisiadau manwl am wybodaeth.

Mae pa mor dda y mae Microsoft Copilot yn ymateb yn dibynnu i raddau helaeth ar ba mor eglur a phenodol y mae'r promptiau hyn, gan eu bod yn ei helpu i ddeall bwriad y defnyddiwr a rhoi atebion cywir a pherthnasol. Trwy feddwl am strwythur y promptiau, gall defnyddwyr sicrhau bod Copilot yn canolbwyntio ar rannau pwysicaf eu cwestiwn, gan arwain at ganlyniadau gwell.

Mae promptiau sydd wedi'u saernïo'n dda yn cynnig manteision i ymarferwyr, timau a sefydliadau:

- I ymarferwyr, gall promptiau clir symleiddio llifoedd gwaith a gwella cynhyrchiant trwy ddarparu atebion manwl gywir.
- Gall timau ddefnyddio promptiau strwythuredig i hwyluso cydweithio gwell, gan sicrhau bod pawb ar yr un dudalen ac yn gweithio tuag at nodau cyffredin.
- Gall sefydliadau rannu promptiau i wella cyfathrebu, penderfyniadau, ac effeithlonrwydd yn gyffredinol.

Mae strwythuro promptiau'n effeithiol yn hanfodol er mwyn uchafu'r manteision hyn.

Mae'r adran hon yn cynnwys nifer o bromptiau wedi'u strwythuro yn y ffordd gywir i gefnogi'r tasgau a gyflawnir gan bobl sy'n gweithio ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol.

**NODIADAU:** Yn rhai o'r promptiau enghreifftiol isod, mae yna eiriau rhwng cromfachau '< >', er enghraifft <enw ffeil> neu <enw cyswllt>. Mae'r geiriau mewn cromfachau yn dal lle ac mae gofyn i'r sawl sy'n ysgrifennu'r prompt i roi gair neu enw perthnasol yn eu lle. Er enghraifft, gellid rhoi 'Mr Jones' yn lle '<contact name>'.

Mae'r holl enghreifftiau a ddefnyddir mewn canllawiau fideo yn defnyddio enwau ffug ac nid ydynt yn adlewyrchu senarios o fywyd go iawn (crëwyd astudiaethau achos at ddiben arddangos).

| **Tasg** | **Crynhoi E-bost** |
|---|---|
| **Rôl** | Pwynt Cyswllt Cyntaf |
| **Copilot** | Microsoft Outlook |
| **Sefyllfa** | Yn aml, mae ar bobl angen darllen crynodeb o negeseuon e-bost hir, holi cwestiynau am sut i ymateb, a chwilio eu mewnblwch am negeseuon perthnasol. |
| **Budd** | Gall pobl arbed amser a gwneud penderfyniadau cyflymach gyda chymorth Copilot i grynhoi cwestiynau ac ymateb iddynt. Gall Copilot hefyd ddod â llawer o negeseuon at ei gilydd yn hawdd am yr un testun |
| **Prompt** | Gwnewch grynodeb o negeseuon e-bost a negeseuon sy'n sôn am yr unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth <enw'r cyswllt>. Rwyf am weld yr holl negeseuon a anfonwyd ataf amdani i'w helpu i gael mynediad at y gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae fy nhîm yn eu darparu. Canolbwyntiwch ar negeseuon e-bost yn fy mewnflwch Outlook a negeseuon gan Microsoft Teams ers mis Mehefin eleni. Defnyddiwch iaith syml ond gyda thôn broffesiynol. |
| **Canllaw Fideo** | 1. Crynodeb E-bost |

| **Tasg** | **Crynodeb o Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd** |
|---|---|
| **Rôl** | Pwynt Cyswllt Cyntaf |
| **Copilot** | Chat |
| **Sefyllfa** | Gall Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd fod yn ramadegol amwys ac yn aneglur weithiau. Gall Copilot lunio crynodebau o'r testun er mwyn sicrhau ei fod yn haws ei ddeall. Gall defnyddwyr ofyn i Copilot gyflwyno'r crynodeb mewn trefn gronolegol hefyd a chael cyngor am y camau nesaf. |
| **Budd** | Mae Copilot yn arbed amser i'r defnyddiwr trwy restru gwybodaeth anstrwythuredig yn gronolegol ac mae'n awgrymu'r camau nesaf fel bod modd gwneud penderfyniadau yn gyflymach. |
| **Prompt** | Gwnewch restr bwled sy'n fy ngalluogi i greu crynodeb o gyfres o ddigwyddiadau sydd wedi'u dogfennu mewn Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd. Defnyddiwch y ddogfen Microsoft Word hon <enw'r ffeil> sydd â chynnwys yr Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ac sy'n gyfrif heb ei strwythuro o bob digwyddiad. Ychwanegwch ddyddiadau pob digwyddiad a'u rhestru yn gronolegol. Ychwanegwch un argymhelliad ar gyfer pob digwyddiad sy'n awgrymu beth ddylai fy nhîm ei wneud i gefnogi'r bobl dan sylw. |
| **Canllaw Fideo** | 2. Crynodeb o Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd |

| **Tasg** | **Paratoi Nodiadau** |
|---|---|
| **Rôl** | Cynnal Asesiadau Statudol |
| **Copilot** | Chat |
| **Sefyllfa** | Yn y sefyllfa hon defnyddir Copilot i lunio crynodeb o restr o nodiadau. Gellir cymryd y nodiadau yn ystod sgwrs neu ymweliad â'r cartref gydag unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth, ac yna gall y defnyddiwr greu crynodeb mwy ffurfiol o'r nodiadau. |
| **Budd** | Mae Copilot yn arbed amser i'r sawl sy'n cyfweld, oherwydd mae nodiadau'n gallu cael eu cofnodi mewn ffordd frysiog, fel llif o ymwybyddiaeth, heb feddwl llawer am ramadeg neu atalnodi. Gall Copilot gymryd y testun hwnnw a'i droi'n grynodeb y gellir ei ddefnyddio i baratoi nodiadau achos. |
| **Prompt** | Crëwch grynodeb â phedwar paragraff y gallaf ei ddefnyddio i ysgrifennu asesiad gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth. Defnyddiwch y ffeil hon <enw'r ffeil> sy'n rhestr o nodiadau a wnes ar ôl fy nghyfweliad diwethaf gyda'r unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth. Defnyddiwch iaith syml ond gyda thôn llais proffesiynol, y gallaf ei defnyddio ar gyfer asesiad gofal swyddogol. |
| **Canllaw Fideo** | 3. Paratoi Nodiadau |

| | |
|---|---|
| **Tasg** | **Mesur Teimladau** |
| **Rôl** | Cynnal Asesiadau Statudol |
| **Copilot** | Chat |
| **Sefyllfa** | Yn y senario hwn rydym yn defnyddio Copilot i ddeall sut y mae cyfranogwyr sgwrs a recordiwyd yn teimlo, ar sail yr hyn maen nhw'n ei ddweud. Defnyddir trawsgrifiad o'r sgwrs i grynhoi teimladau'r unigolyn sy'n gofyn am ofal a chefnogaeth. |
| **Budd** | Mae hyn yn caniatáu i'r gweithiwr gofal cymdeithasol asesu'n gyflym sut yr oedd y buddiolwr yn teimlo yn ystod yr alwad, a deall yn fanylach sut y gall gefnogi'r unigolyn sy'n gofyn am ofal a chefnogaeth. |
| **Prompt** | Crëwch grynodeb o sut y mae'r unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth yn teimlo yn ystod cyfweliad a gawsant. Defnyddiwch y ffeil hon <enw'r ffeil>, sy'n drawsgrifiad o'r sgwrs gyda'r unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth. Defnyddiwch iaith syml gyda thôn llais proffesiynol y gallaf ei defnyddio ar gyfer asesiad gofal a chymorth swyddogol. |
| **Canllaw Fideo** | 4. Mesur Teimlad |

| | |
|---|---|
| **Tasg** | **Paratoi Asesiad Gofal** |
| **Rôl** | Cynnal Asesiad Gofal |
| **Copilot** | Chat |
| **Sefyllfa** | Yn y senario hwn mae gan y gweithiwr gofal cymdeithasol y dasg o lunio asesiad gofal a chymorth ar gyfer buddiolwr. Mae angen i'r asesiad dynnu gwybodaeth o sawl ffynhonnell wahanol, gan gynnwys nodiadau a wnaed yn Microsoft Word, negeseuon e-bost a negeseuon a anfonwyd am yr unigolyn sy'n gofyn am ofal a chefnogaeth, a dod â nhw at ei gilydd i un lle. |
| **Budd** | Mae tynnu gwybodaeth berthnasol o sawl ffynhonnell i gefnogi datblygiad asesiad gofal a chymorth yn cymryd llawer o amser ac yn dibynnu'n helaeth ar gof a disgresiwn unigolyn prysur. Gall Copilot wneud llawer o'r gwaith caib a rhaw i ddod o hyd i'r wybodaeth o ffynonellau gwahanol, a'u coladu, llunio crynodeb a'i gyflwyno i'r awdur. |
| **Prompt** | Drafftiwch adroddiad gan ddefnyddio'r nodiadau o gyfres o sgyrsiau rydw i wedi'u cael gydag unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth <enw'r cyswllt> y gallaf eu defnyddio i baratoi cynnwys ar gyfer asesiad gofal a chymorth. Defnyddiwch y nodiadau hyn o'r sgyrsiau <enwau'r ffeiliau>. Dylech gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gofal <enw'r cyswllt> yn y dyfodol. Ychwanegwch fanylion am eu pryderon. Crynhowch y pwyntiau allweddol o'r ddau ymweliad. Defnyddiwch iaith syml gyda thôn llais proffesiynol. Cyflwynwch y wybodaeth mewn trefn gronolegol, gan ddefnyddio paragraffau disgrifiadol, nid pwyntiau bwled. |
| **Canllaw Fideo** | 5.Paratoi Asesiad Gofal |

| **Tasg** | **Golygu Gwybodaeth Adnabyddadwy Bersonol** |
|---|---|
| **Rôl** | Cynnal Asesiadau Statudol |
| **Copilot** | Microsoft Word |
| **Sefyllfa** | Mae gwybodaeth bersonol adnabyddadwy yn gynnwys mewn ffeiliau a negeseuon y gallai'r testun ei weld fel gwybodaeth sensitif. Gallai fod yn enw, cyfeiriad neu rif ffôn unigolyn. Mewn llawer o achosion nid yw'n briodol rhannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy yn y cynnwys wrth ei rannu â thimau eraill neu bartneriaid allanol. |
| **Budd** | Yn yr enghraifft hon defnyddir Copilot yn Microsoft Word i ddod o hyd i'r wybodaeth adnabyddadwy bersonol, gan gynnwys enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt, mewn ffeil Word. Yna mae'r wybodaeth adnabyddadwy bersonol yn cael ei thynnu trwy osod tag wedi'i labelu a'r gair 'Redacted' yn lle'r cynnwys. Mae hyn yn arbed amser i'r defnyddiwr oherwydd nid oes rhaid iddynt ddod o hyd i bob darn o wybodaeth adnabyddadwy bersonol a'i golygu â llaw. |
| **Prompt** | Tynnwch yr holl wybodaeth bersonol adnabyddadwy o'r ffeil hon, fel y gellir ei rhannu â phobl nad oes angen iddynt weld y wybodaeth sensitif. |
| **Canllaw Fideo** | 6. Golygu Gwybodaeth Bersonol Adnabyddadwy |

| **Tasg** | **Crynhoi Trawsgrifiadau** |
|---|---|
| **Rôl** | Cynnal Asesiadau Statudol |
| **Copilot** | Chat |
| **Sefyllfa** | Mae trawsgrifiad yn cofnodi popeth sy'n cael ei ddweud mewn cyfarfod, gan gynnwys pwy siaradodd a phryd. Gellir ei greu o alwad Microsoft Teams neu ddyfais recordio sain. Gellir arbed y trawsgrifiad fel ffeil Microsoft Word a gall Copilot ei ddefnyddio i grynhoi nodiadau o sgyrsiau gydag unigolion sy'n gofyn am ofal a chymorth. Gellir cyfeirnodi nodiadau blaenorol er mwyn tracio newidiadau yn sefyllfa'r unigolyn sy'n ceisio gofal a chymorth. |
| **Budd** | Gall trawsgrifiadau fod yn hir, ac felly mae defnyddio Copilot i grynhoi'r wybodaeth yn ffordd effeithlon o arbed amser i'r gweithiwr gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn caniatáu iddynt i ganolbwyntio ar yr unigolyn sy'n ceisio gofal a chymorth heb yr angen i gymryd nodiadau yn ystod y sgwrs. I ddefnyddwyr sy'n cynnal llawer o sgyrsiau bob wythnos sy'n gofyn am gymryd nodiadau, gall Copilot fyrhau'r broses o'u dogfennu |
| **Prompt** | Crëwch bedwar paragraff y gallaf eu defnyddio i'w hychwanegu at asesiad gofal a chymorth ar gyfer unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth o'r enw <enw'r cleient>. Defnyddiwch y trawsgrifiad diweddaraf sydd wedi'i arbed fel ffeil Microsoft Word <enw'r ffeil>, a chynnwys y ffeiliau hyn <enw'r ffeil>, sy'n sgwrs arall rydw i wedi'i chael yn y gorffennol. Ymhob paragraff dylech gynnwys meysydd pryder y dylwn fod yn ymwybodol ohonynt a gwneud argymhellion ar gyfer y camau nesaf i helpu'r unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth. Defnyddiwch iaith syml gyda thôn llais proffesiynol. |
| **Canllaw Fideo** | 7. Crynhoi Trawsgrifiadau |

| | |
|---|---|
| **Tasg** | **Paratoi ar gyfer Cyfarfodydd** |
| **Rôl** | Pob Un |
| **Copilot** | Microsoft Outlook |
| **Sefyllfa** | Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn mynd i lawer o gyfarfodydd, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Yn y lleoliad hwn, mae paratoi ar gyfer cyfarfodydd a newid cyd-destun i sefyllfa newydd neu'r unigolyn sy'n gofyn am ofal a chefnogaeth yn gallu bod yn heriol. |
| **Budd** | Mae Copilot yn Microsoft Outlook yn helpu defnyddwyr i baratoi'n gyflym ar gyfer cyfarfodydd, gan arbed amser a gwella effeithiolrwydd. |
| **Prompt** | Rhowch restr o bedwar pwynt trafod i fi i fy helpu i baratoi ar gyfer fy nghyfarfod nesaf <enw’r cyfarfod>. Dylech gynnwys unrhyw negeseuon e-bost a negeseuon rydw i wedi'u cael sy’n gysylltiedig â’r cyfarfod hwn. Dangoswch gefndir y pwyntiau trafod i mi a'u blaenoriaethu fel fy mod yn deall beth sy'n bwysig. Dangoswch nhw mewn iaith syml. |
| **Canllaw Fideo** | 8. Paratoi ar gyfer Cyfarfodydd |

| | |
|---|---|
| **Tasg** | **Gwella Cyfathrebu trwy E-bost** |
| **Rôl** | Pob Un |
| **Copilot** | Microsoft Outlook |
| **Sefyllfa** | Mewn rhai sefyllfaoedd, gall fod yn heriol ysgrifennu yn gydlynol ac yn broffesiynol am y testun. Mae Copilot yn helpu defnyddwyr i ysgrifennu negeseuon e-bost trwy roi tôn neu strwythur penodol i'r negeseuon, ac mae hynny’n helpu'r awdur i ysgrifennu mewn ffordd sy’n fwy diddorol, hamddenol neu broffesiynol, yn ôl yr angen. |
| **Budd** | Mae defnyddio Copilot i ysgrifennu negeseuon e-bost gyda thôn neu strwythur penodol, yn gwella eglurder a phroffesiynoldeb, yn arbed amser, yn cadw cysondeb, yn gwneud y negeseuon yn fwy diddorol a difyr ac yn lleihau’r straen. Mae hyn yn helpu defnyddwyr Copilot i lunio negeseuon yn effeithiol. |
| **Prompt** | Drafftiwch neges e-bost a gofynnwch am wybodaeth gan <enw> am asesiadau gofal a chymorth. Mae angen gwybodaeth arnaf am y gweithdrefnau, yr ystyriaethau allweddol, ac unrhyw arferion gorau rydych chi'n eu hargymell wrth gynnal asesiadau gofal a chymorth. Drafftiwch neges e-bost mewn tôn gwrtais, ffurfiol a phroffesiynol. Defnyddiwch fy enw fel llofnod, ac <enw> fel y derbynnydd. |
| **Canllaw Fideo** | 9. Gwella Cyfathrebu E-bost |

| | |
|---|---|
| **Tasg** | **Cyfeirio at Arfer Gorau** |
| **Rôl** | Cynnal Asesiadau Statudol<br>Adolygu Asesiadau Statudol |
| **Copilot** | Chat, Microsoft Word |
| **Sefyllfa** | Yn y senario hwn mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol yn ysgrifennu/drafftio asesiad gofal a chymorth yn Microsoft Word. Defnyddir Copilot i adolygu'r asesiad. Cyfeirir at ail ffeil, sef rhestr o arferion gorau wrth ysgrifennu adroddiadau hefyd. Gofynnir i Copilot gymharu'r ddwy ffeil a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau y gellid eu gwneud fel bod y ffeil wreiddiol yn dilyn yr arferion gorau. |
| **Budd** | Mae defnyddio ffeil gydag arferion gorau yn helpu'r broses o ysgrifennu asesiadau mewn sawl ffordd. Gall fod yn offeryn addysgol oherwydd bydd y canllaw arfer gorau yn dangos i'r rheiny sy'n ysgrifennu asesiadau sut y dylai adroddiad da edrych. Mae hefyd yn gyfle i weithwyr mwy profiadol i ddiweddaru eu sgiliau wrth i arferion gorau newid gydag amser. Gellir diweddaru'r ddogfen arferion gorau a'i chynnal gydag amser. |
| **Prompt** | Rwyf wedi ysgrifennu adroddiad, sy'n asesiad gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn sy'n gofyn am ofal a chymorth, ac mae yma <enw'r ffeil>. Darllenwch ganllawiau fy nghwmni i arferion gorau wrth ysgrifennu adroddiadau <enw'r ffeil>. Gwnewch rai awgrymiadau ynghylch sut y gallwn wella fy adroddiad. Dangoswch bob brawddeg neu baragraff rydych chi'n meddwl y dylwn eu newid ac yna sut y dylwn eu newid ar sail ar yr arfer gorau. |
| **Canllaw Fideo** | 10. Cyfeirio at arferion Gorau |

| | |
|---|---|
| **Tasg** | **Cyfieithu Cynnwys** |
| **Rôl** | Cynnal Asesiadau Statudol<br>Adolygu Asesiadau Statudol |
| **Copilot** | Microsoft Word |
| **Sefyllfa** | Yn y senario hwn mae angen cyfieithu dogfen Microsoft Word i iaith arall. Defnyddir Copilot i greu cyfieithiad newydd o'r testun Saesneg i'r Gymraeg, o'r ffeil bresennol, a chadw'r fformatio gwreiddiol. |
| **Budd** | Mae cyfieithu gyda Copilot yn arbed amser hyd yn oed os nad y cyfieithiad drafft yw fersiwn derfynol y ffeil. |
| **Prompt** | Cyfieithwch y ffeil hon <enw'r ffeil> i'r Gymraeg. Cadwch unrhyw fformatio yn y fersiwn newydd |
| **Canllaw Fideo** | 11. cyfieithu cynnwys |

# Atodiad C: Gair o Gyngor ar gyfer defnyddio Copilot a chreu Promptiau

Mae'r canlynol yn ddetholiad o arferion gorau i sicrhau bod Copilot yn cael ei defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol, a gellir eu defnyddio hefyd wrth ysgrifennu promptiau wrth ddefnyddio Microsoft 365 Copilot.

## Sgyrsiau Newydd

Mae creu sgwrs newydd yn Copilot ar gyfer 365 yn caniatáu i'r defnyddiwr ddechrau sgwrs newydd am unrhyw destun neu gwestiwn. Mae hyn yn helpu i gadw trefn a ffocws ar gyfer rhyngweithiadau, gan ei gwneud yn haws rheoli trafodaethau a thasgau gwahanol ar wahân. Mae creu sgwrs newydd yn Microsoft Copilot yn ddefnyddiol am sawl rheswm:

1. **Cyd-destun Ffres**: Mae dechrau sgwrs newydd yn caniatáu ichi ddechrau gyda llechen lân, heb unrhyw gyd-destun neu ryngweithiadau blaenorol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan fyddwch chi eisiau trafod testun neu dasg newydd heb i unrhyw sgyrsiau blaenorol ddylanwadu. Mae'n sicrhau bod ffocws ymatebion Copilot ar yr ymholiad newydd yn unig, ac yn rhoi atebion mwy cywir a pherthnasol.
2. **Cadw Trefn**: Mae cadw testunau neu brosiectau gwahanol mewn sgyrsiau ar wahân yn helpu i gadw trefn . Mae'n ei gwneud hi'n haws dod o hyd i sgyrsiau penodol a chyfeirio atynt yn nes ymlaen. Er enghraifft, gallwch gael un sgwrs yn arbennig ar gyfer cynllunio prosiectau, un arall ar gyfer ymchwil, ac un arall eto ar gyfer ymholiadau personol. Fel hyn, mae yna strwythur i'ch rhyngweithiadau ac maen nhw'n hawdd eu rheoli.
3. **Preifatrwydd a Chyfrinachedd**: Os ydych chi'n trafod gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol, gall dechrau sgwrs newydd helpu i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw mewn sgwrs benodol. Mae hyn yn lleihau'r risg o rannu manylion preifat yn ddamweiniol mewn sgyrsiau sydd ddim yn gysylltiedig.
4. **Perfformiad Gwell**: Dros amser, mae sgyrsiau hir a chymhleth yn gallu bod yn feichus. Gall dechrau sgwrs newydd helpu i wella perfformiad Copilot a'r ffordd y mae'n ymateb, gan nad oes rhaid iddi brosesu hanes hir o ryngweithiadau. Mae hyn yn rhoi profiad llyfnach a mwy effeithlon i'r defnyddiwr.

## Arferion Gorau ar gyfer Promptiau

Mae prompt sydd wedi'i strwythuro'n dda yn sicrhau eglurder, ac mae hyn yn helpu Copilot i ddeall bwriad y defnyddiwr yn gywir. Trwy ddarparu manylion a chyd-destun penodol yn y prompt, gall defnyddwyr sicrhau bod Copilot yn canolbwyntio ar agweddau pwysicaf eu cwestiwn. Mae promptiau cywir yn arwain at ymatebion perthnasol.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn tasgau cymhleth neu wrth drafod testunau anodd, gan ei fod yn galluogi Copilot i ddadansoddi'r wybodaeth yn fethodolegol a rhoi mewnwelediadau cyflawn. Mae dilyn arferion gorau wrth strwythuro prompt hefyd yn helpu defnyddwyr i ddatblygu cyfathrebu clir gyda Copilot.

Mae'r canlynol yn ddetholiad o arferion gorau y gellir eu defnyddio wrth ysgrifennu promptiau ar gyfer Microsoft 365 Copilot.


## Y Dull GCSE

Mae'r dull o ysgrifennu promptiau ar gyfer Microsoft Copilot a elwir yn GCSE (*Goal, Context, Source and Expectations*) yn ddull strwythuredig sydd wedi'i gynllunio i wella eglurder promptiau a'u heffeithiolrwydd.

- Y Nod (*Nod*) yw prif amcan neu ganlyniad dymunol y prompt. Mae'n diffinio'r hyn y mae'r defnyddiwr yn anelu at ei gyflawni trwy ryngweithio â Copilot. Gallai hyn amrywio o gael gwybodaeth benodol i greu cynnwys creadigol, neu gwblhau tasg. Mae mynegi'r nod yn glir yn helpu i sicrhau bod yr ymateb yn cyd-fynd ag anghenion a disgwyliadau'r defnyddiwr.
- Mae'r Cyd-destun (*Cyd-destun*) yn rhoi'r wybodaeth gefndir sy'n angenrheidiol er mwyn i Copilot ddeall y sefyllfa'n llawn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fanylion perthnasol am gyflwr presennol y defnyddiwr, rhyngweithiadau blaenorol, neu amgylchiadau penodol a allai ddylanwadu ar yr ymateb. Trwy gynnwys cyd-destun, mae'r prompt yn cael ei deilwra'n well ac yn fwy perthnasol, gan ganiatáu i Copilot greu ymatebion sy'n fwy cywir a defnyddiol. Er enghraifft, gall gwybod lleoliad, amser, neu weithgareddau diweddar y defnyddiwr effeithio'n sylweddol ar berthnasedd y wybodaeth a ddarperir.
- Mae'r Ffynhonnell (*Ffynhonnell*) yn cyfeirio at darddiad y wybodaeth neu'r sail ar gyfer creu'r ymateb. Gallai hyn gynnwys dogfennau, gwefannau neu gronfeydd data penodol y dylai Copilot gyfeirio atynt er mwyn rhoi gwybodaeth gywir a dibynadwy. Mae nodi'r ffynhonnell yn helpu i sicrhau bod yr ymateb wedi'i seilio ar wybodaeth gredadwy a chyfredol. Mae hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr wirio'r wybodaeth os oes angen, gan sicrhau bod y rhyngweithio yn dryloyw ac yn ddibynadwy.
- Yn olaf, mae'r Disgwyliadau (*Disgwyliad*) yn amlinellu'r gofynion neu'r cyfyngiadau penodol ar gyfer yr ymateb. Mae hyn yn cynnwys yr hyd, y fformat, a'r dôn sy'n briodol, ac unrhyw ddewisiadau eraill a allai fod gan y defnyddiwr. Mae datgan y disgwyliadau'n glir yn helpu Copilot i deilwra'r ymateb i ddiwallu anghenion y defnyddiwr yn fanwl gywir. Er enghraifft, gallai defnyddiwr ofyn am grynodeb byr, esboniad manwl, neu ymateb mewn arddull neu dôn benodol.

Trwy ddilyn y dull GCSE, mae ysgrifennu prompt gyda Microsoft Copilot yn dod yn fwy strwythuredig ac effeithlon ac mae'r ffocws yn fwy ar y defnyddiwr, ac mae hyn yn arwain at ryngweithiadau mwy boddhaol.

Dyma enghraifft o brompt gan ddefnyddio'r dull GCSE.



**Rheoli Promptiau**

Mae Microsoft Copilot ar gyfer 365 yn cynnig sawl nodwedd i reoli promptiau'n effeithiol, gan wella cynhyrchiant a chydweithio. Dyma rai nodweddion allweddol:

1. **Arbed Promptiau:**
Mae'r nodwedd hon yn caniatáu i ddefnyddwyr arbed promptiau maen nhw'n eu gweld yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. Trwy arbed promptiau, gall defnyddwyr fynd at eu hoff bromptiau neu'r promptiau maen nhw'n eu defnyddio'n aml, heb orfod eu hail-greu bob tro.

I arbed prompt, ar ôl rhedeg prompt, dylai'r defnyddiwr glicio ar yr eicon 'Save prompt'. Bydd hyn yn llyfrnodi'r prompt, fel ei bod yn hawdd ei gyrraedd o 'Copilot Prompt Gallery'. Gellir trefnu a rheoli promptiau rydych chi wedi eu harbed yn yr oriel.

2. **Rhannu Promptiau:**
Mae rhannu promptiau yn galluogi defnyddwyr i gydweithio'n fwy effeithiol trwy ganiatáu iddynt rannu promptiau da gyda chydweithwyr neu aelodau'r tîm. Mae'r nodwedd hon yn sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad.

Er mwyn rhannu prompt, gall y defnyddiwr lywio i'r ffenestr rheoli promptiau, dewis y prompt, a dewis y botwm rhannu. Yna gallant anfon y prompt trwy e-bost neu ei rannu'n uniongyrchol o fewn Microsoft Teams. Mae hyn yn ei gwneud yn hawdd i eraill ddefnyddio'r promptiau sy'n cael eu rhannu ac elwa arnynt.

3. **Promptiau'r Tîm:**
Mae promptiau'r tîm wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio ar y cyd o fewn tîm neu adran. Gellir addasu'r promptiau hyn a'u harbed er mwyn i'r tîm cyfan eu defnyddio, gan sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd yn llifoedd gwaith y tîm.

Creu prompt a'i addasu at arferion eich tîm. Gallwch arbed y prompt a dewis yr opsiwn i'w rannu gyda'ch tîm. Yna gall aelodau'r tîm ddefnyddio'r prompt o'r llyfrgell promptiau a rennir yn Oriel Promptiau Copilot. Mae'r nodwedd hon yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer safoni prosesau a sicrhau bod pob aelod o'r tîm ar yr un dudalen.

Mae'r canlynol yn adnodd fideo ychwanegol am arferion da Copilot:

[Arferion Da Copilot]

# Atodiad D: Cwestiynau'r Arolwg

### Cyffredinol – Gwybodaeth Ddemograffig

1) **I ba awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?** [Rhestr o 22 awdurdod lleol]

2) **Pa un sy'n disgrifio eich rôl bresennol o fewn gofal cymdeithasol orau?**

    - Swyddog Cyswllt / Pwynt Cyswllt Cyntaf
    - Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol / Gweithiwr Cymdeithasol
    - Rheolwr Tîm
    - Rheolwr Grŵp / Rheolwr Gwasanaeth
    - Pennaeth Gwasanaeth
    - Arall

3) **Nodwch pa swyddogaethau o blith yr isod rydych chi'n ymgymryd â nhw o ddydd i ddydd?**

    - Gwybodaeth, cyngor a chymorth trwy bwynt cyswllt cyntaf
    - Asesu anghenion gofal a chymorth
    - Adolygu'r asesiad
    - Arall

4) **Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol?**

    - Llai nag 1 flwyddyn
    - 1-3 blynedd
    - 4-6 mlynedd
    - 7-10 mlynedd
    - Dros 10 mlynedd

### Ymwybyddiaeth o offerynnau digidol a gwybodaeth amdanynt

5) **Pa mor gyfforddus ydych chi wrth ddefnyddio offerynnau digidol yn eich gwaith bob-dydd? Rhowch eich sgôr.**

    - Anghyfforddus iawn
    - Cyfforddus Iawn

6) **Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r cysyniad o Microsoft Copilot. Rhowch eich sgôr.**

    - Ddim yn gyfarwydd o gwbl
    - Cyfarwydd Iawn

### Agweddau ac ymddygiadau

7) **Sut ydych chi'n teimlo am y defnydd posibl o Copilot i'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl**

    - Cyffrous
    - Gobeithiol
    - Pryderus
    - Amheus
    - Byddai angen rhagor o wybodaeth arnaf er mwyn ffurfio barn

**8) Ydych chi'n credu y gallai Copilot helpu i leihau'r baich gweinyddol yn eich rôl**

- Ydw
- Nac ydw
- Byddai angen rhagor o wybodaeth arnaf er mwyn ffurfio barn

**9) Ydych chi'n credu y bydd Copilot yn eich galluogi i dreulio mwy o amser o ansawdd da gyda theuluoedd**

- Ydw
- Nac ydw
- Byddai angen rhagor o wybodaeth arnaf er mwyn ffurfio barn

**10) Rhowch eich pryderon am ddefnyddio Microsoft Copilot mewn gofal cymdeithasol mewn trefn [o'r mwyaf i'r lleiaf]?**

- Preifatrwydd a Diogelwch Data
- Newidiadau posibl i fy rôl [mwy / llai]
- Diffyg dealltwriaeth neu hyfforddiant
- Effaith ar ansawdd y broses o wneud penderfyniadau a dadansoddi
- Dadsgilio fy rôl
- Ystyriaethau moesegol

## Gweithredu Newid

**11) Pa mor barod ydych chi'n teimlo mewn perthynas â newid y ffordd rydych chi'n gweithio bob dydd?**

- Ddim yn barod
- Yn barod iawn

**12) Sgoriwch yr heriau mwyaf i weithredu Copilot ym maes gofal cymdeithasol yn eich barn chi.**

- Diffyg Sgiliau Digidol Ymhlith staff
- Isadeiledd TG Annigonol
- Gwrthwynebiad i Newid
- Pryderon Moesegol
- Diffyg Cyllid
- Diffyg Adnoddau

## Anghenion Hyfforddi

**13) Pa fath o hyfforddiant neu gymorth fyddai eu hangen arnoch i ddefnyddio Copilot yn effeithiol yn eich rôl?**

Gallwch ddewis mwy nag un.

- Hyfforddiant Llythrennedd Digidol Sylfaenol
- Hyfforddiant Ymarferol gyda Copilot
- Hyfforddiant Rheoli a Dadansoddi Data
- Cymorth Parhaus a Datrys Problemau
- Hyfforddiant Moesegol am Ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial

**14) Pa fathau o gymorth parhaus fyddai fwyaf buddiol ar ôl hyfforddiant cychwynnol am Copilot?**

- Cyrsiau gloywi rheolaidd
- Mynediad at dîm cymorth fel y Rhwydwaith Hyrwyddwyr
- Grwpiau cymorth cymheiriaid
- Fforymau neu gymunedau ar-lein
- Arall

## Adborth Agored

**15) Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol ynglŷn â'r defnydd o Microsoft Copilot mewn gofal cymdeithasol?**

# Atodiad E: Cwestiynau'r Cyfweliadau Lled-Strwythuredig

| 1. Parodrwydd ar gyfer Newid |
|---|
| Pa mor 'barod i newid' yw eich Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r potensial i fabwysiadu offeryn Microsoft Copilot / Deallusrwydd Artiffisial o fewn Timau Gofal Cymdeithasol i Oedolion?<br><br>• **Coch:** Nid yw'r Awdurdod Lleol yn barod am newid. Mae rhwystrau sylweddol, er enghraifft diffyg isadeiledd digidol, diffyg awydd i ddefnyddio offerynnau deallusrwydd artiffisial / hyfforddiant staff annigonol, neu wrthwynebiad i newid, a fyddai'n rhwystro'r broses o fabwysiadu Microsoft Copilot.<br>• **Oren**: Mae'r Awdurdod Lleol rhywfaint yn barod am newid. Mae yna rai heriau, er enghraifft isadeiledd digidol rhannol, anghenion hyfforddi staff parhaus, neu rywfaint o wrthwynebiad i newid, ond gyda chymorth ac adnoddau ychwanegol gellir rhoi sylw i'r rhain er mwyn hwyluso'r broses o fabwysiadu Microsoft Copilot.<br>• **Gwyrdd**: Mae'r Awdurdod Lleol yn gwbl barod am newid. Mae seilwaith digidol cryf ar waith, mae staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn agored i dechnolegau newydd, ac mae cynllun clir ar gyfer gweithredu Microsoft Copilot a'i integreiddio i'r Timau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. |
| Pa gamau (sydd ddim yn gysylltiedig â systemau TG) sy'n angenrheidiol yn eich barn chi i baratoi'r gweithlu ar gyfer gweithredu adnodd fel Copilot?<br><br>• Sut y gellir cynnwys ymarferwyr yn y broses newid wrth estyn allan?<br>• Beth ydych chi'n ei weld fel rôl uwch-arweinwyr er mwyn sicrhau proses bontio lyfn os bydd hyn yn mynd yn ei flaen? |

| 2. Diwylliant, Agweddau ac Ymddygiadau: |
|---|
| Sut fyddech chi'n disgrifio'r diwylliant, agweddau ac ymddygiadau ar hyn o bryd o fewn eich tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion tuag at fabwysiadu atebion digidol newydd fel Microsoft Copilot?<br><br>• A oes unrhyw ffactorau neu bryderon penodol a allai ddylanwadu ar barodrwydd neu wrthwynebiad y tîm i gofleidio'r dechnoleg hon,<br>• Beth fyddai angen ei ystyried i fynd i'r afael â'r rhain er mwyn meithrin amgylchedd cadarnhaol i fabwysiadu'r dechnoleg?<br>• Sut allwn ni gadw'r unigolyn wrth ganol ein cynllunio? |

| **3. Gofynion o ran Adnoddau / Capasiti** |
|---|
| Pa fathau penodol o adnoddau a chymorth fyddai eu hangen ar eich Tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion er mwyn gweithredu Microsoft Copilot a'i chynnwys yn llwyddiannus yn eich gweithrediadau bob-dydd. |

| **4. Heriau a rhwystrau canfyddedig** |
|---|
| Beth ydych chi'n eu gweld fel y prif heriau neu'r rhwystrau wrth weithredu Microsoft Copilot o fewn eich tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion?<br>• Sut fyddech chi'n cynllunio i fynd i'r afael â'r heriau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu'n llwyddiannus?<br>• Pa mor gymwys yn ddigidol yw'r staff? A oes gan bob gweithiwr cymdeithasol/defnyddiwr potensial fynediad hwylus i gyfrifiaduron? Beth allai fod ei angen i gefnogi hyn? |

| **5. Adolygu Polisïau a Chydymffurfiaeth:** |
|---|
| Pa elfennau o lywodraethu, cydymffurfio a pholisïau corfforaethol fyddai angen eu hadolygu neu eu diweddaru i sicrhau bod Microsoft Copilot yn cael ei mabwysiadu'n llyfn ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio, o fewn Timau Gofal Cymdeithasol i Oedolion? |

| **6. Gwersi a ddysgwyd o brosiectau trawsnewid digidol / rheoli newid blaenorol [er mwyn galluogi i Copilot gael ei gweithredu'n llyfn]** |
|---|
| Cwestiwn agored<br>• A oes gan yr awdurdod lleol unrhyw brofiad blaenorol o weithredu newidiadau (digidol) mawr? Sut aeth y broses? Unrhyw feddyliau a allai helpu y tro hwn? |

# Atodiad F: Galluoedd Trwyddedau E3 ac E5

Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o’r nodweddion perthnasol ar gyfer trwyddedau E3 ac E5 Microsoft 365, gan nodi eu hargaeledd ym mhob cynllun:

| Nodwedd | E3 | E5 |
|---|---|---|
| **Diogelwch a Chydymffurfiaeth** | Sylfaenol | Uwch |
| **Dadansoddeg** | Sylfaenol | Uwch |
| **Hunaniaeth a Rheoli Mynediad** | Sylfaenol | Uwch |
| **Diogelu Rhag Bygythiadau** | Sylfaenol | Uwch |
| **Diogelu Gwybodaeth** | Sylfaenol | Uwch |
| **Cydymffurfio** | Sylfaenol | Uwch |
| **Microsoft Defender for Endpoint** | Cynllun 1 | Cynllun 2 |
| **Customer Lockbox** | Na | Ydy |
| **Defender for IoT – Enterprise IoT Security** | Na | Ydy |
| **Immersive Spaces for Teams** | Na | Ydy |
| **Dadansoddeg Diogelu Gwybodaeth a Llywodraethu - Premium** | Na | Ydy |
| **Microsoft Defender Application for Office** | Na | Ydy |
| **Machine Learning-Based Classification** | Na | Ydy |
| **Microsoft Endpoint DLP** | Na | Ydy |
| **Microsoft Insider Risk Management** | Na | Ydy |
| **Safe Documents** | Na | Ydy |